# Cynnwys


**1. Cyflwyniad ........ 2**

1.1. Cyd-destun ........ 2

1.2. Cwmpas ........ 3

1.3. Pwrpas ........ 4

**2. Proses Ymgynghori ........ 5**

2.1. Cyfnod Ymgynghori ........ 5

2.2. Dulliau Ymgynghori ........ 5

2.3. Allgymorth a Hygyrchedd ........ 6

**3. Prif Gasgliadau ........ 7**

3.1. Trosolwg ........ 7

**Atodiad 1: Rhestr o Gwestiynau'r Ymgynghoriad ........ 9**

**Atodiad 2: Poster Ymgynghori ........ 13**

**Atodiad 3: Sylwadau Cyffredinol ........ 14**

**Atodiad 4: Sylwadau ar Unrhyw Adeiladau ac Adeileddau Eraill o Arwyddocâd Hanesyddol a Phensaernïol o fewn yr Ardal Gadwraeth neu ei Lleoliad ........ 103**

**Atodiad 5: Sylwadau ar Newid Ffiniau Ardaloedd Cadwraeth ........ 114**

# 1. Cyflwyniad

## 1.1. Cyd-destun

1.1.1. Mae Ardaloedd Cadwraeth yn ardaloedd penodol o rinweddau pensaernïol neu hanesyddol arbennig. Yn unol â Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023, mae'n ofynnol i Gyngor Sir Ceredigion, o bryd i'w gilydd, adolygu ardaloedd cadwraeth yn y sir a llunio cynigion ar gyfer eu cadw a'u gwella.

1.1.2. Mae Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol (TAN 24) yn nodi mai arfarniadau ardaloedd cadwraeth yw'r sylfaen ar gyfer unrhyw gynigion ar gyfer cadw a gwella. Mae arfarniadau ardaloedd cadwraeth yn rhoi darlun manwl o ddiddordeb arbennig ardal ac yn nodi cyfleoedd a blaenoriaethau ar gyfer gweithredu a all fod yn sail ar gyfer cynllun rheoli manylach.

1.1.3. Mae cynlluniau rheoli ardaloedd cadwraeth yn gysylltiedig â'r arfarniadau. Mae cynlluniau rheoli yn nodi ymatebion priodol er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw gyfleoedd a materion a nodwyd. Gall hyn gynnwys amrywiaeth o fesurau o reoli datblygu i hyfforddi unigolion, cynnal a chadw adeiladau hanesyddol a gwelliannau i fannau cyhoeddus.

1.1.4. Er mwyn cyflawni ei ddyletswydd statudol roedd yr Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLl) wedi gwneud cais am arian i gefnogi'r gwaith o baratoi arfarniadau ardaloedd cadwraeth a chynlluniau rheoli. Oherwydd natur y cyllid, dim ond ardaloedd cadwraeth wedi'u lleoli o fewn tref oedd yn gymwys. Felly roedd yr ACLl yn gallu sicrhau cyllid i gefnogi'r gwaith o baratoi arfarniadau a chynlluniau rheoli ar gyfer yr ardaloedd cadwraeth canlynol:

- Aberaeron
- Aberystwyth
- Aberteifi
- Llanbedr Pont Steffan
- Llanbadarn Fawr
- Llandysul
- Ceinewydd
- Tregaron

1.1.5. Mae'r ACLl yn ystyried opsiynau ar gyfer yr ardaloedd cadwraeth sy'n weddill ar hyn o bryd, sef Adpar, Cenarth, Llanddewi Brefi, Llanrhystud a Llansanffraid. Mae'r opsiynau hyn yn cynnwys nodi a gwneud cais am gyllid allanol a neilltuo adnoddau mewnol i gwblhau arfarniadau a chynlluniau rheoli ar gyfer yr ardaloedd hyn.

## 1.2. Cwmpas

1.2.1. Er mwyn i arfarniadau ardaloedd cadwraeth a chynlluniau rheoli fod yn ystyriaeth berthnasol wrth benderfynu ceisiadau cynllunio, rhaid eu mabwysiadu yn gyntaf fel Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA). Mae'r *Llawlyfr Cynlluniau Datblygu: Rhifyn 3* yn nodi na fydd gan y CCA fawr ddim neu ddim grym oni bai eu bod yn destun ymgynghoriad cyhoeddus ac yn cael eu mabwysiadu trwy benderfyniad y Cyngor. Felly penderfynwyd bod angen ceisio barn rhanddeiliaid a'r cyhoedd cyn penderfynu a ddylid mabwysiadu'r Arfarniadau Ardal Gadwraeth a Chynlluniau Rheoli fel CCA.

1.2.2. Ar 23 Ionawr 2025, cymeradwyodd Cyngor Sir Ceredigion ryddhau'r Arfarniadau Ardaloedd Cadwraeth a Chynlluniau Rheoli Drafft ar gyfer Aberaeron, Aberystwyth, Aberteifi, Llanbedr Pont Steffan, Llanbadarn Fawr, Llandysul, Ceinewydd a Thregaron ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus. Dechreuodd ymgynghoriad 7 wythnos wedi hynny, a rhoddir y manylion am hyn yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn.

1.2.3. Bwriad yr ymgynghoriad oedd ceisio barn rhanddeiliaid a'r cyhoedd. Yn benodol, ceisiai'r ymgynghoriad ddeall a oedd ymgyngoreion yn teimlo bod cymeriad yr ardaloedd wedi cael eu dal yn ddigonol yn y Arfarniadau ac a yw'r argymhellion yn y Cynlluniau Rheoli yn briodol ac yn helpu i gadw a gwella cymeriad a golwg yr ardaloedd.

## 1.3. Pwrpas

1.3.1. Pwrpas yr adroddiad hwn yw crynhoi'r adborth a'r farn a gasglwyd gan y cyhoedd yn ystod y broses ymgynghori. Mae hefyd yn nodi ymateb yr ACLl i'r sylwadau a wnaed ac yn nodi unrhyw newidiadau angenrheidiol.

1.3.2. Nod yr adroddiad hwn yw helpu i ddeall barn rhanddeiliaid, rhoi sylw i unrhyw bryderon a hwyluso gwneud penderfyniadau gwybodus ynghylch a ddylid mabwysiadu'r dogfennau fel CCA.

1.3.3. Mae gweddill yr adroddiad wedi'i strwythuro fel a ganlyn:

- **Adran 2:** Crynodeb o'r broses ymgynghori gan gynnwys gwybodaeth am y cyfnod ymgynghori, y dulliau ymgysylltu a'r ymdrechion allgymorth.
- **Adran 3:** Crynodeb o'r casgliadau a themâu allweddol sy'n deillio o'r ymgynghoriad (ac eithrio sylwadau manwl).
- **Atodiadau:** Enghreifftiau o'r deunyddiau ymgynghori a rhestr o'r sylwadau manwl a dderbyniwyd ac ymateb yr ACLl i'r sylwadau hynny.

# 2. Proses Ymgynghori

## 2.1. Cyfnod Ymgynghori

2.1.1. Ar 23 Ionawr 2025, cymeradwyodd Cyngor Sir Ceredigion ryddhau'r Arfarniadau Ardaloedd Cadwraeth a Chynlluniau Rheoli Drafft ar gyfer ymgynghoriad. Dechreuodd yr ymgynghoriad ddydd Llun 27 Ionawr 2025. Roedd disgwyl i'r cyfnod ymgynghori redeg am 6 wythnos i ddechrau; fodd bynnag, cafodd ei ymestyn i ddydd Gwener 14 Mawrth 2025 er mwyn rhoi mwy o amser i ymgyngoreion ymateb.

## 2.2. Dulliau Ymgynghori

2.2.1. Cafodd yr Arfarniadau Ardaloedd Cadwraeth a Chynlluniau Rheoli Drafft eu lanlwytho i dudalen *Ymgysylltu ac Ymgynghori* gwefan Cyngor Sir Ceredigion. I gyd-fynd â'r dogfennau roedd trosolwg o'r ymgynghoriad yn amlinellu pwrpas y dogfennau, y rhesymau dros ymgynghori ac esboniad o sut y gallai'r cyhoedd ymateb.

2.2.2. Roedd modd i ymgyngoreion gyflwyno sylwadau trwy ffurflen ar-lein oedd ar gael ar wefan y Cyngor. Fel arall, roedd modd lawrlwytho'r ffurflen mewn fformat Word a'i chwblhau all-lein a'i chyflwyno trwy'r ebost neu'r post.

2.2.3. Cafodd 8 cwestiwn eu gofyn yn yr arolwg mewn perthynas â'r Arfarniadau Ardaloedd Cadwraeth a Chynlluniau Rheoli. Roedd hyn yn cynnwys 2 gwestiwn a oedd yn ceisio deall effeithiau posibl y dogfennau ar y Gymraeg. Gofynnwyd 10 cwestiwn arall ar gydraddoldeb hefyd i'n helpu i gadarnhau bod safbwyntiau ystod eang o bobl, sy'n adlewyrchu poblogaeth Ceredigion, wedi cael eu casglu.

2.2.4. Roedd y cwestiynau'n gymysgedd o gwestiynau caeedig a phenagored, ac mae rhestr lawn ohonynt i'w gweld yn Atodiad 1.

## 2.3. Allgymorth a Hygyrchedd

2.3.1. I hyrwyddo'r ymgynghoriad, cyhoeddodd Cyngor Sir Ceredigion ddatganiad i'r wasg ar ddechrau'r broses. Cyhoeddwyd nifer o bostiadau ar y cyfryngau cymdeithasol yn achlysurol hefyd trwy gydol y cyfnod ymgynghori. Roedd yr ymgynghoriad wedi ymddangos yn y papurau newydd lleol, sef y Cambrian News a Tivyside Advertiser

2.3.2. Anfonodd y Gwasanaeth Polisi Cynllunio hysbysiad ebost dwyieithog at yr holl ymgyngoreion ar gronfa ddata rhanddeiliaid y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) i roi gwybod iddynt am yr ymgynghoriad. Ymhlith yr ymgyngoreion y cysylltwyd â hwy roedd cynghorwyr lleol, cynghorau tref a chymuned, cyrff ymgynghori penodol, asiantau cynllunio a sefydliadau lleol. Anfonwyd yr ebost hwn hefyd at aelodau'r cyhoedd a fynychodd y digwyddiadau galw heibio cyhoeddus cychwynnol a gynhaliwyd yn gynharach yn y broses baratoi.

2.3.3. Gosodwyd posteri dwyieithog yn hysbysebu'r ymgynghoriad ym mhob canolfan hamdden a llesiant a holl lyfrgelloedd Ceredigion. Roedd y posteri'n cynnwys codau QR a oedd, o'u sganio, yn mynd ag ymgyngoreion i'r dudalen berthnasol ar wefan y Cyngor a oedd yn cynnwys y dogfennau ymgynghori a'r trosolwg. Roedd y posteri hefyd yn nodi'r cyfnod ymgynghori ac yn cynnwys manylion cysylltu'r ACLl pe bai angen rhagor o wybodaeth ar aelodau'r cyhoedd. Mae copi o'r poster i'w weld yn Atodiad 2.

2.3.4. Er mwyn sicrhau nad oedd y rhai nad ydynt ar-lein wedi'u rhwystro rhag cymryd rhan yn yr ymgynghoriad, roedd copïau papur o'r Arfarniadau a Chynlluniau Rheoli, a'r Ffurflen Ymateb, ar gael mewn llyfrgelloedd a chanolfannau hamdden lleol ar gais. Roedd modd darparu gwybodaeth mewn fformat gwahanol hefyd yn ôl y gofyn.

# 3. Prif Gasgliadau

## 3.1. Trosolwg

3.1.1. Cafwyd cyfanswm o 60 o ymatebion i'r ymgynghoriad. Sylwch y gofynnwyd i ymatebwyr a oedd yn dymuno rhoi sylwadau ar fwy nag un arfarniad ardal gadwraeth a chynllun rheoli gyflwyno ymatebion ar wahân ar gyfer pob ardal. Felly, mae'n bosib bod yr un unigolyn neu sefydliad wedi cyflwyno sawl ymateb.

3.1.2. Mae prif gasgliadau'r ymgynghoriad wedi'u crynhoi ar y dudalen nesaf. Mae rhestr fanwl o'r sylwadau a dderbyniwyd, ac ymateb yr ACLl i bob sylw, i'w gweld yn yr Atodiadau.

Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

# PRIF GANLYNIADAU

## 60

o ymatebion wedi eu derbyn

(46 o ymatebion trwy ffurflenni Microsoft; 1 ffurflen ymateb trwy'r ebost; 13 o ymatebion wedi'u hebostio'n uniongyrchol)



**Ymatebion a dderbyniwyd fesul tref:**

Aberystwyth: **16** (26.7%)
Aberteifi: **13** (21.7%)
Aberaeron: **8** (13.3%)
Ceinewydd: **8** (13.3%)
Tregaron: **6** (10.0%)
Llanbadarn Fawr: **4** (6.7%)
Llanbedr Pont Steffan: **3** (5.0%)
Llandysul: **1** (1.7%)

## 50%

**yn cytuno ychydig/yn cytuno'n gryf** â'r **cynigion rheoli**

(2% yn cytuno'n gyffredinol ond gyda phryderon/eithriadau*, nid oedd 13% ddim yn cytuno neu'n anghytuno, 15% yn anghytuno, 20% heb ateb)

## 65%

**yn cytuno ychydig/yn cytuno'n gryf** bod y cymeriad wedi'i **ddiffinio'n ddigonol yn yr Arfarniad**

(5% ddim yn cytuno neu'n anghytuno, 10% yn anghytuno, 20% heb ateb)

Cymraeg

## 27%

wedi dweud y byddai mabwysiadu'r Arfarniad Ardal Gadwraeth a Chynllun Rheoli yn cael **effaith gadarnhaol** ar y **Gymraeg**

(38% dim effaith, 13% effaith negyddol, 22% heb ateb)

**Ymgynghoriad wedi'i gynnal rhwng 27 Ionawr ac 14 Mawrth 2025**

Roedd yr arolwg ar gael ar-lein ar wefan y Cyngor. Roedd copïau papur o'r dogfennau ymgynghori a'r ffurflenni ymateb ar gael ar gais yn y llyfrgelloedd a chanolfannau hamdden.

Derbyniwyd cyfanswm o 60 o ymatebion.

*Mae'r sylwadau hyn yn ymwneud â'r blaenoriaethau a nodir o dan y Cynllun Gweithredu yn Atodiad A Arfarniad Ardal Gadwraeth a Chynllun Rheoli Aberteifi.*

# Atodiad 1: Rhestr o Gwestiynau'r Ymgynghoriad

## Arfarniadau Ardaloedd Cadwraeth a Chynlluniau Rheoli Ceredigion

**1. Nodwch yr Ardal Gadwraeth y mae eich sylwadau'n ymwneud â hi.**

- Aberaeron
- Aberystwyth
- Aberteifi
- Llanbedr Pont Steffan
- Llanbadarn Fawr
- Llandysul
- Ceinewydd
- Tregaron

**2. A ydych yn credu bod cymeriad yr Ardal Gadwraeth wedi'i ddiffinio'n ddigonol yn yr Arfarniad?**

- Rwy'n cytuno'n cryf
- Rwy'n cytuno ychydig
- Nid wyf yn cytuno neu'n anghytuno
- Rwy'n anghytuno ychydig
- Rwy'n anghytuno'n gryf

**3. A ydych yn credu y bydd y argymhellion rheoli yn helpu i warchod a gwella cymeriad ac ymddangosiad yr Ardal Gadwraeth?**

- Cytuno'n gryf
- Cytuno braidd
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Anghytuno ychydig
- Anghytuno'n gryf

**4. Rhowch sylwadau pellach yn y bwlch isod.**

5. **A oes unrhyw adeiladau neu strwythurau eraill yr ystyrir eu bod o arwyddocâd hanesyddol neu bensaernïol o fewn yr Ardal Gadwraeth neu ei gosodiad y dylid eu hamlygu yn y Arfarniad?**

6. **Ydych chi'n meddwl y dylid gwneud unrhyw newidiadau i ffin bresennol yr Ardal Gadwraeth?**

## Effaith ar yr Iaith Gymraeg

7. **A ydych yn credu y bydd mabwysiadu'r Arfarniad a'r Cynllun Rheoli Ardal Gadwraeth hwn yn cael effaith ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar statws y Gymraeg yn y gymuned?**

   - Ydw, effaith positif
   - Ydw, effaith negatif
   - Ni fydd yn cael effaith

8. **Defnyddiwch y bwlch isod i ychwanegu sylwadau pellach am yr effaith ar y Gymraeg.**

## Cwestiynau Monitro Cydraddoldeb

**1. Beth yw eich oedran?**

- 0-15
- 16-24
- 25-44
- 45-64
- 65+
- Gwell gennyf beidio â dweud

**2. Beth yw eich hunaniaeth o ran rhywedd?**

- Gwryw
- Benyw
- Anneuaidd
- Trawsryweddol
- Mae'n well gennyf ddefnyddio term arall
- Gwell gennyf beidio â dweud

**3. Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio orau sut rydych chi'n meddwl amdanoch chi'ch hun?**

- Heterorywiol/Strêt
- Hoyw, Lesbiaid neu Cwiar
- Deurywiol
- Cyfeiriadedd Rhywiol arall
- Gwell gennyf beidio â dweud

**4. Sut fyddech chi yn disgrifio eich hunaniaeth genedlaethol?**

- Prydeinig
- Cernywaidd
- Seisnig
- Gogledd Iwerddon
- Albanaidd
- Cymreig
- Hunaniaeth genedlaethol arall
- Gwell gennyf beidio â dweud

**5. Sut fyddech chi yn disgrifio eich grŵp ethnig?**

- Asiaidd, Asiaidd Cymreig neu Asiaidd Prydeinig
- Du, Du Prydeinig, Du Cymreig, Caribïaidd neu Affricanaidd
- Grŵp Cymysg neu Aml-ethnig
- Gwyn
- Grŵp ethnig arall
- Gwell gennyf beidio â dweud

**6. Beth yw eich grefydd neu gred?**

- Cristion
- Bwdhaidd
- Hindŵaidd
- Iddewig
- Mwslim
- Sikh
- Dim crefydd
- Crefydd neu gred arall
- Gwell gennyf beidio â dweud

**7. Ydych chi wedi gwasanaethu yn Lluoedd Arfog y DU o'r blaen?** (dylai aelodau cyfredol ddweud 'na')

- Ydw, yn y Lluoedd Arfog Rheolaidd
- Ydw, yn y Lluoedd Arfog wrth gefn

- Nac ydw
- Gwell gennyf beidio â dweud

**8. A oes gennych gyflwr iechyd corfforol neu feddyliol neu salwch tymor hir sy'n lleihau eich gallu i gyflawni gweithgareddau o ddydd i ddydd?**

- Oes, mae fy ngweithgareddau o ddydd i ddydd yn gyfyngedig iawn
- Oes, mae fy ngweithgareddau o ddydd i ddydd yn gyfyngedig
- Nac oes
- Gwell gennyf beidio â dweud

**9. Beth yw eich dewis iaith?**

- Cymraeg
- Saesneg
- Mae'n well gen i beidio dweud

**10. Ydych chi'n gallu deall, siarad, darllen neu ysgrifennu Cymraeg?**

- Deall Cymraeg llafar
- Siarad Cymraeg
- Darllen Cymraeg
- Ysgrifennu Cymraeg
- Dim un o'r uchod
- Gwell gennyf beidio â dweud

## Atodiad 2: Poster Ymgynghori



## Atodiad 3: Sylwadau Cyffredinol

Mae'r adran hon yn cynnwys sylwadau a gyflwynwyd i'r Awdurdod Cynllunio Lleol trwy'r ebost yn ogystal â'r rhai a ddarparwyd mewn ymateb i Gwestiwn 4 y Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad. Er mwyn bod yn gryno, mae rhai o'r sylwadau a gyflwynwyd wedi cael eu crynhoi.

| | Aberaeron | | |
|---|---|---|---|
| **ID** | **Sylw** | **Ymateb** | **Newid a Argymhellir** |
| 2 | Yn bersonol, gorau po gyntaf y bydd taflen erthygl 1 neu 2 yn cael ei gwneud, fel rhywun sy'n delio ag adeiladau rhestredig ac sy'n gweithio o fewn ardaloedd cadwraeth ledled Cymru bob dydd. Mae'n ymddangos bod Ceredigion ychydig ar ei hôl hi o ran diogelu'r hyn y mae pobl yn dod i'w weld. | Mae cyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4 yn Aberaeron yn argymhelliad ar hyn o bryd. Bydd angen ymgynghori ychwanegol a chymeradwyaeth trwy weithdrefnau perthnasol y Cyngor cyn y gellir cyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4. Bydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn ystyried rhinweddau paratoi canllawiau ychwanegol ar gyfer ardaloedd sydd â Chyfarwyddyd Erthygl 4 yn ei le. | Amherthnasol. |
| 15 | Er fy mod yn cytuno mewn egwyddor â'r mwyafrif o'r ddogfen hon mae gen i amheuon ynghylch gallu, ystyriaeth, sensitifrwydd a synnwyr cyffredin CSC i gyflawni unrhyw un o'r argymhellion. | Nodwyd y sylwadau. | Amherthnasol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Cyfeiriaf (fel enghreifftiau) at ychydig o'r argymhellion yn unig. Mae un yn ymwneud ag adeiladau hanesyddol a'r gwasanaeth y mae'n ei ddarparu i'r gymuned. Mae neuadd y dref wedi bod yn destun trafod ers tro gyda phenderfyniad dan din CSC i symud llyfrgell y dref i Benmorfa a gadael neuadd y dref i fynd yn adfail. | | |
| 17 | Fel cymdeithas hanes lleol Aberaeron, rydym yn croesawu unrhyw arweiniad sy'n cefnogi ein nod o hyrwyddo treftadaeth leol y dref. Rydym yn falch o weld bod y sylwadau a wnaethom yn y cam anffurfiol wedi cael eu hadlewyrchu yn y ddogfen sydd bellach yn destun ymgynghoriad ffurfiol. Yn arbennig:<br>* mae'r ddogfen bellach yn cyfeirio at ein hadeiladau rhestredig fel rhai yn y 'dull Sioraidd' gan fod y mwyafrif wedi'u hadeiladu yn y dull Fictoraidd mewn gwirionedd.<br>* mae ein pryderon yn cael eu hadlewyrchu ynghylch newidiadau i flaenau siopau ac arwyddion amhriodol neu sy'n rhy fawr ac yn cuddio ein pensaernïaeth | Nodwyd y gefnogaeth. | Amherthnasol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | * mae'r argymhellion wedi cael eu blaenoriaethu<br>* cynnwys y filas Sioraidd ar Stryd y Fro yn yr ardal gadwraeth.<br><br>Rydym yn ailadrodd yr holl bwyntiau hyn. Yn ogystal, rydym yn cefnogi'n gryf y mesurau a gynigir yn y ddogfen Arfarniad Ardal i:<br>- sicrhau nad yw datblygiadau pellach yn cyfyngu ymhellach ar olygfeydd o fewn yr ardal gadwraeth a dylid gwarchod y mannau gwyrdd presennol (7.3/7.4)<br>- gwarchod yr ychydig adeiladau hŷn o gerrig rwbel lleol sy'n weddill (8.1)<br>- gwarchod Neuadd y Sir rhag dirywio ymhellach. (Mae hwn yn fater rydym wedi'i godi'n ffurfiol gyda CADW) (8.2)<br><br>Gan droi at y Cynllun Rheoli Ardal, rydym yn cefnogi'n gryf y mesurau a gynigir i ddiogelu'r dref rhag colli ei nodweddion pensaernïol eiconig ymhellach, yn enwedig: | <br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br>Ar hyn o bryd, dim ond argymhellion yw cynigion y Cynllun Rheoli a bydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn hystyried a ddylid eu gweithredu neu beidio. Byddai'r rhan fwyaf o'r argymhellion yn gofyn am ymgynghori pellach, gan gynnwys | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | - bod Cyfarwyddyd Erthygl 4 yn cael ei gymhwyso i'r diben hwn (2.3)<br>- mabwysiadu'r Arfarniad hwn fel Canllawiau Cynllunio Atodol (4.3.1)<br>-datblygu canllaw i drigolion a busnesau yn egluro'r rheolaethau hyn a'r canllawiau eraill y cyfeirir atynt yn y ddogfen (4.3.2)<br>- ymestyn ffin yr ardal gadwraeth fel y cynigir (3.3)<br>- defnyddio'r "rhestru lleol" i warchod yr adeiladau hynny yn y dull gwerinol hŷn, y Ffynnon Goch a'r adeiladau Sioraidd hynny sydd heb eu rhestru o'r blaen (5.3). Yn ogystal, byddem yn croesawu cyfle i gymryd rhan yn y broses ddewis honno.<br>- cyflwyno canllawiau ar gyfer blaenau siopau (8.3)<br>- datblygu strategaeth adeiladau mewn perygl (9.3)<br>- dylid gosod dodrefn stryd, goleuadau ac ati newydd sy'n fwy sensitif i natur hanesyddol y dref yn lle'r rhai amhriodol. Mae'r bolardiau | cyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4 ac unrhyw estyniad i'r ffin, a byddai angen eu mabwysiadu trwy weithdrefnau perthnasol y Cyngor cyn eu gweithredu.<br><br>Ar ôl adolygu ffin bresennol Ardal Gadwraeth Aberaeron, gan ychwanegu'r ardal a argymhellir yn y Cynllun Rheoli, ystyrir y byddai'n cynnwys yr ardaloedd perthnasol o ddiddordeb pensaernïol a hanesyddol. Fodd bynnag, efallai y bydd lle i ddynodi'r Neuadd Goffa yn 'Adeilad o Ddiddordeb Lleol' yn y dyfodol er mwyn ei diogelu ymhellach. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | metel a gafodd eu gosod fel rhan o fesurau Covid yn arbennig o hyll (10.3.4)<br>- mae mawr angen strategaeth barcio ynghyd â strategaeth llygredd sŵn (10.3.6)<br>- mannau gwyrdd yn cael eu gwarchod (11.3)<br>Fel yn ein hymateb cynharach, rydym hefyd yn cynnig cynnwys y Neuadd Goffa yn yr ardal gadwraeth gan fod yr adeilad nodedig hwn yn rhan bwysig o hanes y dref.<br><br>Rydym yn cytuno â'ch argymhelliad y byddai'n ddymunol i'r Cyngor gael cynllun grant i helpu perchnogion i newid nodweddion amhriodol a gafodd eu hychwanegu dros y blynyddoedd (2.3.3) ond yn cydnabod bod yr hinsawdd ariannol sydd ohoni yn gwneud hyn yn annhebygol.<br><br>Hoffem nodi nad yw paentio waliau allanol tai Aberaeron yn mynd yn ôl i darddiad yr adeiladau. Datblygodd yn araf o'r 1960au wrth i rendro sment ddisodli'r gwyngalch gwreiddiol, lliw yn | <br><br><br><br><br><br><br><br><br><br>Nodwyd y sylwadau.<br><br><br><br><br><br><br><br>Nodwyd y sylwadau. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | aml, ac roedd yr adeiladau'n mynd yn llwyd ac yn llai lliwgar. Mae pobl y dref bob amser wedi dewis eu lliwiau eu hunain sydd wedi rhoi'r olwg enwog a edmygir yn fawr sydd i'w gweld heddiw. Felly ni fyddem yn cefnogi cyfyngu ar hyn. (4.3.4)<br><br>Disgrifir Aberaeron yn aml fel y perl yn Riviera Cymru, ac rydym yn hynod ddiolchgar y bydd y dogfennau hyn gyda'i gilydd yn chwarae rhan fawr wrth warchod ei chymeriad hanesyddol unigryw a lliwgar. | <br><br><br><br><br><br>Nodwyd y sylwadau. | |
| 37 | Mae Cymdeithas yr Iaith yn galw am fwy o gyfarwyddyd ynglŷn â'r Gymraeg, yn arbennig o ran blaenau siop.<br><br>Rydym yn galw am ganllawiau clir yn y canllawiau yn ymwneud â'r ardal cadwraeth bod angen i unrhyw arwyddion siop fod yn uniaith Gymraeg neu'n ddwyieithog gyda'r Gymraeg i'r chwith neu uwchben y Saesneg. Mae hyn yn bwysig o ran gwaead y dref, hanes y Gymraeg yn y dref a'r blaenoriaeth i'r Gymraeg. Dylid nodi | Mae Polisi DM08 y Cynllun Datblygu Lleol mabwysiedig yn annog y defnydd o arwyddion a hysbysebion dwyieithog. Yn unol â'r Polisi, rhoddir caniatâd ar gyfer arwyddion ar yr amod nad ydynt yn cael effaith annerbyniol ar gymeriad gweledol ac ieithyddol yr ardal, a lle bo'n bosibl yn ei gwella'n gadarnhaol. | Amherthnasol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | bod hanes hir o ddefnydd o'r Gymraeg yn yr holl trefi mae'r ymgynghoriad yn ymwneud â nhw. Dylid mynd ati i sicrhau bod blaenau siop yn defnyddio'r Gymraeg, gan ddefnyddio pwerau gorfodi os oes rhaid.<br><br>Rydym hefyd yn galw am warchod enwau Cymraeg ar adeiladau a strydoedd o fewn yr ardaloedd cadwraeth. | | |
| 46 | • croesawi cynnwys y pedwar fila, rhifau 1-4 Stryd y Fro<br>• argymell cynnwys Parc-y-fro er mwyn rhoi iddo yr un amddiffyniad â'r Cae Sgwâr, yn enwedig y coed<br>• peidio cefnogi cyflwyno canllaw dylunio gan y credir fod y sefyllfa presennol, gyda thrigolion yn dewis lliwiau yn unol â chwaeth personol a'r bwriad i asio a pheidio gwrthdaro gyda eiddo sy'n ffinio gyda nhw<br>• croesawi Rhestru'r Ffynnon Goch.<br><br>• to welcome the inclusion the four villas, nos. 1-4 South Road<br>• to recommend that Parc-y-fro be included in order to give it the same protection as Square Field, in particular the trees | Ar hyn o bryd, dim ond argymhellion yw cynigion y Cynllun Rheoli a bydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn hystyried a ddylid eu gweithredu neu beidio. Byddai'r rhan fwyaf o'r argymhellion yn gofyn am ymgynghori pellach, gan gynnwys cyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4 ac unrhyw estyniad i'r ffin, a byddai angen eu mabwysiadu trwy weithdrefnau perthnasol y Cyngor cyn eu gweithredu.<br><br>Mae rhan o Barc-y-Fro wedi'i gynnwys o fewn ffin yr Ardal Gadwraeth. Mae hyn yn cynnwys y rhan fwyaf o'r coed. Mae gweddill y parc wedi'i | Amherthnasol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | • not to support a colour design guide as it believes that the current situation, with residents choosing colours in accordance with personal taste and a desire to blend in and not clash with neighbouring properties<br>• to support the Listing of the Chalybeate Well | warchod oherwydd ei fod yn cael ei ystyried yn rhan o leoliad yr ardal gadwraeth ac felly'n cael ei warchod gan ddeddfwriaeth a pholisi cynllunio.<br><br>Mae Ffynnon Goch wedi cael ei nodi fel ased hanesyddol y gellid ei ddynodi yn 'Adeilad o Ddiddordeb Lleol' a allai roi amddiffyniad pellach i'r adeiledd yn y dyfodol os caiff yr argymhellion eu gweithredu. | |
| 48 | Alla i ofyn am yr adeilad rydym yn byw ynddo ac yn ei brydlesu? Pengloyn? Mae'n adeilad mawr wedi'i adeiladu o gerrig, heb unrhyw rendro, a dyw e byth yn cael ei grybwyll mewn unrhyw adroddiadau? Mae'n agos i'r harbwr ac yn ôl y sôn arferai fod y storfa nwyddau amaethyddol oedd yn cael ei rhedeg gan Josiah Jones yn y gorffennol, ac o bosib cyn hynny arferai gael ei ddefnyddio ar gyfer nwyddau oedd yn cyrraedd ar y môr. | Mae Pengloyn House yn adeilad nad yw'n rhestredig yn Stryd y Tabernacl. Mae'n ymddangos ei fod wedi newid llawer. Nid yw wedi ei nodi ar y cofnod Amgylchedd Hanesyddol. Mae'r mapiau hanesyddol yn dangos ei fod wedi cael ei adeiladu rhwng 1840 a 1887. | Amherthnasol. |

| | Aberystwyth | | |
|---|---|---|---|
| **ID** | **Sylw** | **Ymateb** | **Newid a Argymhellir** |
| 9 | Ni ddylai Cyngor Ceredigion fod yn gorff cyfrifol nac yn gorff gwneud penderfyniadau ar gyfer cadwraeth (neu unrhyw agwedd arall ar fywyd). Mae'r Cyngor wedi cymryd camau sy'n hybu tipio anghyfreithlon. Mae'n amlwg oni bai eich bod yn wirioneddol dwp. Angen cael y pethau sylfaenol yn iawn gyntaf. | Nodwyd y sylwadau. | Amherthnasol. |
| 10 | Rwy'n meddwl bod angen i ni flaenoriaethu lleihau ein hôl troed carbon a theithio llesol. Felly mae angen i ni flaenoriaethu paneli solar, cael gwaredu ar simneiau pan fo'n briodol, cael adeiladau a ffenestri sydd wedi'u hinswleiddio'n well a phalmentydd llyfnach ar gyfer hygyrchedd yn hytrach na chadwraeth. Mae angen i ni hefyd flaenoriaethu'r defnydd o ddeunyddiau gwydn modern sy'n gost isel i'w cynnal gan fod yr aer hallt yn creu costau cynnal a chadw adeiladau uchel ac mae pwysau ar incwm. Er fy mod yn caru cymeriad Aberystwyth mae angen i ni flaenoriaethu ei gallu i fod yn lle i fyw yn y tymor | Mae gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol ddyletswydd statudol i lunio a chyhoeddi cynigion ar gyfer cadw a gwella Ardaloedd Cadwraeth yng Ngheredigion. Wrth arfer swyddogaethau cynllunio mewn perthynas ag adeilad neu dir arall mewn Ardal Gadwraeth, rhaid i'r Awdurdod Cynllunio Lleol roi sylw arbennig i ba mor ddymunol yw hi i gadw neu wella cymeriad a golwg yr ardal.<br><br>Mae simneiau wedi cael eu nodi fel nodwedd bwysig o'r Ardal Gadwraeth, a byddai cael | Amherthnasol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | hir – felly os oes rhaid i mi gyfaddawdu, rwy'n argymell cyfaddawdu o blaid anghenion cynnal a chadw a thechnolegau cyfredol dros reolau dylunio treftadaeth a gorfodi. Felly rwy'n cefnogi'r wybodaeth ond nid y gofynion a'r syniadau am hyfforddi 7.3.2. Hefyd mae'r 'adeiladau llachar' yn rhan fawr o gymeriad a swyn y dref felly nid wyf yn cefnogi 4.3.5.<br><br>Rwy'n ymwybodol o heriau ariannol y sir, felly dydw i ddim yn cefnogi blaenoriaethu amser staff i ddiweddaru polisïau, creu strategaethau pellach neu orfodi dros ddarparu gwasanaethau eraill. Yn hytrach, dylwn ni barhau i gydweithio â Chyngor y Dref ar gyfer cyfleoedd glanhau, addysg a meithrin sgiliau dan arweiniad dinasyddion. | gwared arnynt yn debygol o gael effaith andwyol ar gymeriad yr ardal.<br><br>Ar hyn o bryd, dim ond argymhellion yw cynigion y Cynllun Rheoli a bydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn hystyried a ddylid eu gweithredu neu beidio. Byddai'r rhan fwyaf o'r argymhellion yn gofyn am ymgynghori pellach, gan gynnwys cyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4 ac unrhyw estyniad i'r ffin, a byddai angen eu mabwysiadu trwy weithdrefnau perthnasol y Cyngor cyn eu gweithredu. | |
| 11 | Mae swyddogion cynllunio a chadwraeth eisoes yn rhoi cyngor sy'n croes-ddweud ei gilydd yn yr un ddogfen am fân faterion (e.e. ffenestr yng nghefn yr eiddo). Oedi hir cyn cael gwybodaeth eisoes yn achosi problemau lleol difrifol, deiliaid | Mae'r gwasanaeth cynllunio yn cydnabod bod prinder adnoddau a sgiliau yn golygu nad yw penderfyniadau cynllunio a gorfodi ynghylch Ardaloedd Cadwraeth wedi bod yn flaenoriaeth i'r gwasanaeth bob amser. Fodd bynnag, y | Amherthnasol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | tai yn cael eu hannog i beidio ag arbed adeiladau adfeiliedig oherwydd bod y broses mor gymhleth ar gyfer mân faterion. | gobaith yw y bydd cyflwyno Arfarniadau Ardaloedd Cadwraeth a Chynlluniau Rheoli manwl wedi'u mabwysiadu fel Canllawiau Cynllunio Atodol, ochr yn ochr â recriwtio Swyddog Cynllunio Arbenigol ar gyfer Treftadaeth a'r adnoddau ychwanegol a geisir ar gyfer y gwasanaeth gorfodi yng nghyllideb 2025/2026, yn sicrhau bod y gwaith hwn yn cael ei flaenoriaethu yn y dyfodol. | |
| 22 | Diolch am ddisgrifiad manwl mor hyfryd o Aberystwyth a Llanbadarn Fawr ac am roi blaenoriaeth i warchod coed a mannau agored.<br><br>Mae'r broblem o ffosffadau sydd yn ôl chi yn oedi cynlluniau datblygu'r sir yn mynd i gynyddu wrth i ddigwyddiadau tywydd garw gynyddu.<br><br>Yn y cyfamser, mae'r rhagolygon ar gyfer perygl llifogydd (a llygredd cysylltiedig, yn enwedig carthffosiaeth) ar wefan Climate Central yn https://www.climatecentral.org/, hyd yn oed ar sail amcangyfrif ceidwadol, yn dangos y bydd | Mae'r dogfennau Arfarniadau Ardaloedd Cadwraeth a Chynlluniau Rheoli yn ceisio cefnogi'r gwaith o wella a chadw arwyddocâd hanesyddol a phensaernïol arbennig yr ardal. Mae materion a godwyd fel rhan o'r ymateb y tu allan i gwmpas y gwaith hwn. | Amherthnasol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Aberystwyth yn debygol o wynebu mwy o amharu oherwydd llifogydd arfordirol ac afonol eithafol, a allai gynnwys difrod i rwydweithiau ffyrdd a rheilffyrdd. Yn fyr, mae'r amcanestyniadau hyn yn dangos y bydd Aberystwyth yn fwyfwy ynysig.<br><br>Ar adegau yr unig lwybr i mewn yn y blynyddoedd nesaf fydd dros bont Trefechan, neu ar hyd y ffordd B i'r Waun, ac ni all y naill na'r llall gynnal cerbydau nwyddau trwm.<br><br>Mae hon yn broblem sy'n galw am gymryd mesurau y tu allan i'r ardaloedd hyn sy'n cael eu harfarnu.<br><br>All afon Rheidol fynd trwy wlyptiroedd (yn hytrach na choncrit) i leihau llifogydd yn Llanbadarn? Bydd cynnal a gwella'r amgylcheddau gorlifdir a gwlyptir ar hyd dyffryn Rheidol yn helpu i liniaru rhai o effeithiau cynyddol llifogydd afonol. | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Oes modd codi'r rheilffordd yn Nerwenlas? Mae'n debyg y byddai hyn yn dechnegol heriol a chostus, ond mae'n rhaid bod astudiaethau wedi cael eu gwneud ar hyn, a byddwn i fel llawer o bobl eraill yn hoffi yn eu gweld nhw. | | |
| 23 | Mae angen i'r materion a'r argymhellion yn 4.3 yn ymwneud â blaenau siopau fynd ymhellach. Yn ystod y 12 mis diwethaf yn arbennig, mae erydiad i flaenau siopau, gosod arwyddion gorliwgar, di-chwaeth ac allan o gymeriad o bryder mawr.<br><br>Mae llawer o drefi yn Lloegr sy'n gorfodi hyn yn gryf ac yn cael effaith gadarnhaol, ond mae gorfodi hyn y tu hwnt i ganllawiau yn unig yn annigonol.<br><br>Mae ateb hawdd i hyn a bydd yn cael effaith weledol fawr ar y dref. | Mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn ystyried y posibilrwydd o baratoi Canllawiau Dylunio Blaenau Siopau cynhwysfawr ar hyn o bryd a allai fod yn berthnasol i bob eiddo masnachol hanesyddol ar draws y sir. Y gobaith yw y bydd canllawiau o'r fath, ynghyd â chyflwyno Arfarniadau Ardaloedd Cadwraeth a Chynlluniau Rheoli manwl, recriwtio Swyddog Cynllunio Arbenigol ar gyfer Treftadaeth, a'r adnoddau ychwanegol y ceisir amdanynt ar gyfer y gwasanaeth gorfodi yng nghyllideb 2025/2026, yn arwain at welliannau yn y maes hwn.<br><br>Bydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol hefyd yn archwilio'r holl gyfleoedd ariannu pan fyddant yn | Amherthnasol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Mae angen i'r Cyngor gymryd camau rhagweithiol hefyd i sicrhau bod gwaith cynnal a chadw ar adeiladau yn cael ei wneud mewn modd amserol ac ystyriol. Mae gormod o adeiladau yn cael eu gadael i fynd yn adfail. | codi er mwyn penderfynu a ellir eu defnyddio er budd yr Ardaloedd Cadwraeth. | |
| 24 | Byddai'n wych pe gellid cynnig grant i berchnogion eiddo i adfer blaenau siopau traddodiadol. | Bydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn gweithio ochr yn ochr ag adran Twf a Menter y Cyngor i archwilio a oes cyfleoedd ariannu ac adnoddau i gefnogi cynlluniau o'r fath. | Amherthnasol. |
| 25 | Mae angen arian i wella sut mae Aberystwyth yn edrych. Mae'r Stryd Fawr yn arbennig yn flêr ac yn frwnt ac mae llawer o'r ardaloedd eraill yn edrych yn drist ac yn ddiofal. | Bydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn archwilio'r holl gyfleoedd ariannu pan fyddant yn codi er mwyn penderfynu a ellir eu defnyddio er budd yr Ardaloedd Cadwraeth. | Amherthnasol. |
| 28 | Fel perchennog busnes ffenestri gwydr dwbl yn Aberystwyth, rwy'n amlwg yn bryderus na fydd eich polisi cynllunio yn caniatáu i ni osod ffenestri PVCu treftadaeth llithro fertigol yn yr ardal gadwraeth.<br><br>Rwyf eisoes wedi colli archeb gwerth £14,000 ar gyrion pellaf yr ardal gadwraeth estynedig. Cefais gyfarwyddyd trwy ebost i fwrw ymlaen â'r | Mae gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol ddyletswydd statudol i adolygu Ardaloedd Cadwraeth yng Ngheredigion a llunio cynigion ar gyfer eu cadw a'u gwella.<br><br>Y gobaith yw y bydd cyflwyno Arfarniadau Ardaloedd Cadwraeth a Chynlluniau Rheoli manwl a fabwysiadwyd fel Canllawiau Cynllunio Atodol, ynghyd â recriwtio Swyddog Cynllunio | Amherthnasol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | gwaith ond roedd y cwsmer wedi canslo ar ôl iddo fe gael ei gamarwain gan staff cynllunio bod angen caniatâd cynllunio arno na fyddai'n cael ei gymeradwyo. Mae hyn er gwaetha'r ffaith bod y ffenestri llithro fertigol oedd i'w gosod yn debyg o ran llinellau gweld ac ymddangosiad i'r ffenestri pren presennol yr oedd angen eu newid, ac y byddent yn cyd-fynd â'r rhai rydym eisoes wedi'u gosod.<br><br>Hefyd, nid yw'r adran gynllunio wedi mynd trwy'r broses angenrheidiol eto i hwn fod yn gyngor cywir.<br><br>Dros y 45 mlynedd rydym wedi bod yn gosod ffenestri yn yr ardal hon rydym wedi osgoi gosod unrhyw steil a fyddai'n niweidiol i gymeriad y strydoedd Fictoraidd yn Aberystwyth, e.e. ffenestri casment crog brig. Nodwn fod pobl eraill wedi gosod rhai sy'n agor allan i'r palmant mewn ffordd beryglus. | Arbenigol ar gyfer Treftadaeth, yn helpu trigolion a datblygwyr i ddeall y mathau o waith a ystyrir yn dderbyniol yn yr Ardal Gadwraeth.<br><br>Ar hyn o bryd, dim ond argymhellion yw cynigion y Cynllun Rheoli a bydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn hystyried a ddylid eu gweithredu neu beidio. Byddai'r rhan fwyaf o'r argymhellion yn gofyn am ymgynghori pellach, gan gynnwys cyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4 ac unrhyw estyniad i'r ffin, a byddai angen eu mabwysiadu trwy weithdrefnau perthnasol y Cyngor cyn eu gweithredu. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Mae defnyddio PVCu yn hytrach na phren yn cynnig llawer o fanteision i'n cwsmeriaid o, yn arbennig cynnal a chadw a diogelu rhag y tywydd. Mae cost pren – pren meddal yn bennaf ac wedi'i fewnforio – yn llawer mwy a llawer llai cynaliadwy na PVCu. Mae'r tywydd garw rydym yn ei gael yn yr ardal hon yn achosi dirywiad cyflym i ffenestri pren, ac mae hyn yn annheg ar drigolion sy'n talu'r gost ddiangen, gan gynnwys sgaffaldiau mewn llawer o achosion.<br><br>Mae angen cynnal a chadw ffenestri pren o fewn 5 mlynedd ar y mwyaf ac ni all yr henoed wneud hyn eu hunain. Ni fyddai llawer yn gallu fforddio cost ychwanegol ffenestri pren a'r gwaith cynnal a chadw sydd ei angen yn y dyfodol.<br><br>Mae hawliau datblygu a ganiateir yn cael eu cymryd oddi wrth ddeiliaid tai ac mae'r ardal gadwraeth yn cael ei hestyn i gynnwys llawer o eiddo y tu allan i ardal wreiddiol y dref Fictoraidd. | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Ein barn ni yw y dylai'r ardal gadwraeth fod ar gyfer strydoedd Fictoraidd yn unig ac nid ar gyfer y rhai sydd wedi datblygu ers y cyfnod hwnnw. Hefyd, ar yr amod bod arddull a llinellau gweld yn cyd-fynd â'r ffenestri presennol, ni ddylai'r deunyddiau (h.y. PVCu) a ddefnyddir fod yn rheswm dros wrthod caniatâd cynllunio.<br><br>Rwy'n gwerthfawrogi eich rhesymau dros gadwraeth. Yr wythnos hon rydym tynnu ffenestri casment crog brig PVCu ac wedi gosod ffenestri codi llithro PVCu Fictoraidd mewn un o'r strydoedd, ac maent yn welliant aruthrol ac yn dilyn steil y stryd. Bydd y rhain yn edrych yn wych am flynyddoedd lawer ac yn osgoi'r ffenestri pren diolwg, sy'n dirywio, sydd wedi'u hesgeuluso, wedi eu paentio (neu beidio) sy'n creu'r ddelwedd o dref Aberystwyth ar hyn o bryd.<br><br>Fe wnaethom ni osod ffenestri pren caled mahogani Philipinaidd flynyddoedd lawer yn ôl | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | ond sylweddoli'n gyflym nad oedden nhw'n gynaliadwy a'u newid i PVCu yn lle hynny. Byddai ffenestri pren yn chwyddo yn nhywydd gwlyb y gaeaf, yn mynd yn sownd ac yn crebachu yn nhywydd poeth yr haf ac yn ddrafftiog. Ganrif yn ôl, byddai pren yn cael ei sychu dros nifer o flynyddoedd gan ei wneud yn wydn, ond mae pren modern wedi'i sychu mewn odyn o safon llawer is.<br><br>Gallai CADW – gan ddefnyddio arian cyhoeddus – ddarparu rhai taliadau grant tuag at ffenestri pren ond, yn sicr, ni fydd hyn yn talu'r holl gostau gosod a chynnal a chadw yn y dyfodol. | | |
| 32 | Mae pryder nad yw'r ymgyrch i gynnal cymeriad a golwg yr Ardal Gadwraeth yn ystyried yr effaith ariannol ac amgylcheddol y mae hyn yn ei chael ar drigolion yr ardal. | Mae'r Cynllun Rheoli wedi ceisio nodi argymhellion realistig i fynd i'r afael â'r cyfleoedd a'r materion a nodwyd yn y Arfarniad. | Amherthnasol. |
| 38 | Mae Cymdeithas yr Iaith yn galw am fwy o gyfarwyddyd ynglŷn â'r Gymraeg, yn arbennig o ran blaenau siop. | Mae Polisi DM08 y Cynllun Datblygu Lleol mabwysiedig yn annog y defnydd o arwyddion a hysbysebion dwyieithog. Yn unol â'r Polisi, rhoddir caniatâd ar gyfer arwyddion ar yr amod | Amherthnasol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Rydym yn galw am ganllawiau clir yn y canllawiau yn ymwneud â'r ardal cadwraeth bod angen i unrhyw arwyddion siop fod yn uniaith Gymraeg neu'n ddwyieithog gyda'r Gymraeg i'r chwith neu uwchben y Saesneg. Mae hyn yn bwysig o ran gwaead y dref, hanes y Gymraeg yn y dref a'r blaenoriaeth i'r Gymraeg. Dylid nodi bod hanes hir o ddefnydd o'r Gymraeg yn yr holl trefi mae'r ymgynghoriad yn ymwneud â nhw. Dylid mynd ati i sicrhau bod blaenau siop yn defnyddio'r Gymraeg, gan ddefnyddio pwerau gorfodi os oes rhaid.<br><br>Rydym hefyd yn galw am warchod enwau Cymraeg ar adeiladau a strydoedd o fewn yr ardaloedd cadwraeth. | nad ydynt yn cael effaith annerbyniol ar gymeriad gweledol ac ieithyddol yr ardal, a lle bo'n bosibl yn ei gwella'n gadarnhaol. | |
| 55 | O ystyried y tywydd garw rydym yn ei gael ar hyn o bryd, a'r tebygolrwydd o dywydd gwaeth yn y dyfodol, mae'n afresymol disgwyl i ddeiliaid tai/perchnogion adeiladau barhau i dalu costau cynnal a chadw ar gyfer simneiau hen adeiladau. Nid yw'r rhain bron i gyd yn cael eu defnyddio | Wrth arfer swyddogaethau cynllunio mewn perthynas ag adeilad neu dir arall mewn Ardal Gadwraeth, rhaid i'r Awdurdod Cynllunio Lleol roi sylw arbennig i ba mor ddymunol yw hi i gadw neu wella cymeriad a golwg yr ardal. Mae simneiau wedi'u nodi fel nodwedd bwysig o'r | Amherthnasol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | bellach, ac mae'n debyg eu bod yn ychwanegu at yr anhawster o ddarparu amodau byw derbyniol. Yn ogystal ag arwain at ddrafftiau, mae caeadau plwm ar lefel y to yn aml yn dueddol o fethu, gan arwain at leithder. Mae'r simneiau eu hunain mor hen erbyn hyn fel bod angen eu cynnal a'u cadw i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn strwythurol gadarn a heb berygl o fethiant trychinebus. Dylai nifer y simneiau sydd â llwyni yn tyfu allan ohonyn nhw fod yn destun pryder.<br><br>Dylid diwygio rheolau'r Ardal Gadwraeth i'w gwneud hi'n bosibl i ddymchwel simneiau diangen, a gosod to dros y man agored gyda deunyddiau sy'n cyd-fynd â'r rhai gwreiddiol. At ddibenion cadwraeth go iawn, mae'n bosibl y bydd rhai adeiladau'n cael eu cynnwys yn y 'rhestru' er mwyn sicrhau ei bod yn dal yn bosibl gweld sut olwg oedd ar yr ardal flynyddoedd yn ôl, ond mae cadw'r holl simneiau segur hyn yn mynd yn rhy bell. | Ardal Gadwraeth, a byddai eu dymchwel yn debygol o gael effaith andwyol ar gymeriad yr ardal. Mae Historic England wedi cynhyrchu canllawiau ar simneiau ac effeithlonrwydd ynni y gellir eu gweld trwy'r ddolen ganlynol: https://historicengland.org.uk/advice/your-home/improvement/open-fires-chimneys-and-flues/. Er bod gan Gymru a Lloegr systemau cynllunio ar wahân, gall y canllawiau a baratowyd gan Historic England fod yn ddefnyddiol serch hynny. Mae rhagor o ganllawiau ar wella effeithlonrwydd ynni mewn adeiladau hanesyddol hefyd ar gael ar wefan Cadw: https://cadw.llyw.cymru/cyngor-a-chymorth/newid-hinsawdd/sut-i-wella-effeithlonrwydd-ynni-mewn-adeiladau-hanesyddol-yng | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 56 | Yn anffodus doedd dim llawer o amser cyn y dyddiad cau, ac roedd y ddogfen yn eithaf mawr felly dim ond newydd lwyddo i fynd drwyddi ydw i ac wedi colli'r dyddiad cau. Rwy'n gobeithio y gallwch chi dderbyn fy sylwadau os gwelwch yn dda, sy'n gryno ac fel a ganlyn:<br>1. Dylai fod rhagdybiaeth yn erbyn colli unrhyw ardal â llystyfiant o fewn gerddi<br>2. Ni ddylai fod unrhyw golled net o ardaloedd â llystyfiant o fewn gerddi ardaloedd cadwraeth<br>3. Ni ddylai unrhyw dai preswyl newydd a adeiledir ddarparu mwy nag un lle parcio ceir ar gyfer car o faint cymedrol; dylai gweddill tir yr eiddo fod â llystyfiant. | Mae Polisi Cynllunio Cenedlaethol yn cydnabod bod angen datblygu, ac y gallai rhywfaint o fioamrywiaeth gael ei effeithio, ond dylai'r system gynllunio sicrhau bod budd net i fioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau yn gyffredinol, gan arwain at lesiant gwell. At hynny, mae'n ofynnol i bob cais cynllunio gyflwyno datganiadau seilwaith gwyrdd i nodi sut mae seilwaith gwyrdd wedi'i gynnwys yn y cynnig.<br><br>O ran parcio, mae'r Cyngor wedi mabwysiadu Safonau Parcio sy'n nodi disgwyliadau'r Awdurdod Cynllunio Lleol o ran mannau parcio ar gyfer datblygiadau newydd. Fodd bynnag, mae polisi cynllunio cenedlaethol yn nodi uchelgeisiau Llywodraeth Cymru o ran cael llai o leoedd parcio ar gyfer datblygiadau mewn ardaloedd trefol. Mae'r rhain yn ystyriaethau perthnasol wrth benderfynu ceisiadau cynllunio.<br><br>Mae hawliau datblygu a ganiateir yn bodoli ar hyn o bryd sy'n caniatáu gosod patios, llwybrau a | Amherthnasol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | mannau wyneb solet eraill yng nghefn neu ar ochr tŷ. Mae'r hawliau hyn yn ymestyn i dir o flaen prif ddrychiad tŷ, fodd bynnag, os yw'n arwain at briffordd rhaid i'r wyneb fod yn fandyllog neu'n hydraidd neu wedi'i ddylunio i gyfeirio dŵr ffo i ardal hydraidd neu fandyllog o fewn ffin y cartref. Mae hyn yn golygu nad oes angen caniatâd cynllunio i wneud gwaith o'r fath. | |
| 57 | **Paragraff 3.3.1:** Mae'r Gymdeithas yn cytuno y dylid ymestyn yr Ardal Gadwraeth i gynnwys y Pier a Chraig Glais.<br><br>**Paragraff 4.3.1:** Mae'r Gymdeithas yn cytuno y dylid mabwysiadu'r Cynllun fel Canllawiau Cynllunio Atodol.<br><br>**Paragraff 5.3.1:** Mae'r Gymdeithas yn cytuno y dylid sefydlu 'Prosiect Asedau Hanesyddol o Ddiddordeb Lleol Arbennig' a gallai aelodau o Gymdeithas Ddinesig Aberystwyth helpu i ddehongli safleoedd diddorol yn Aberystwyth a | Nodwyd y gefnogaeth. Bydd unrhyw estyniad i'r ffin yn gofyn am ymgynghoriad pellach a chymeradwyaeth trwy weithdrefnau'r Cyngor cyn gweithredu.<br><br>Nodwyd y gefnogaeth.<br><br>Nodwyd y gefnogaeth. Bydd angen ymgynghori a chymeradwyaeth pellach ar gyfer unrhyw estyniad i'r ffin trwy weithdrefnau'r Cyngor cyn gweithredu. | Amherthnasol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | darparu gwybodaeth y gellid ei chyrchu trwy godau QR o amgylch y dref.<br><br>**Paragraff 6.3.1:** Gallai'r Gymdeithas gynnig helpu gydag arolwg ffotograffig.<br><br>Mae'r Gymdeithas yn cefnogi'r holl Gamau Gweithredu/Argymhellion â Blaenoriaeth Uchel a'r Flaenoriaeth Ganolig gyntaf yn Atodiad A.<br><br>Gallai'r Gymdeithas gynnig trefnu cyfarfod lle y gellid trafod Arfarniad Ardal Gadwraeth Aberystwyth, a lle gallai staff y Cyngor Sir arwain trafodaeth ar y gwaith. | Cynhaliwyd arolwg ffotograffig llawn fel rhan o'r broses ac fe'i cedwir gan Gyngor Sir Ceredigion. Fodd bynnag, mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn gwerthfawrogi'r cynnig ac efallai y bydd yn cysylltu â'r grŵp am gymorth pan fydd angen adolygu a diweddaru hyn.<br><br>Nodwyd y gefnogaeth.<br><br>Mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn gwerthfawrogi'r cynnig a bydd yn ystyried hyn ar ôl cwblhau'r ymgynghoriad. | |
| 58 | Mae'r Grŵp yn cytuno â phrif argymhellion y Cynllun, yn enwedig 11.3.1. Parhau i ddilyn yr argymhellion yn y dogfennau strategol seilwaith gwyrdd perthnasol a mabwysiedig. | Nodwyd y gefnogaeth. | Amherthnasol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Mae'r Grŵp yn cytuno â phrif argymhellion y Cynllun, yn enwedig:<br>• 11.3.2 Sicrhau bod yr asesiad seilwaith gwyrdd a'r strategaeth ar gyfer coed ym mhob ardal gadwraeth yn cael eu diweddaru a'u hadolygu'n rheolaidd. | Nodwyd y gefnogaeth. | |
| | • 11.3.3 Ystyried comisiynu adroddiad coed ar wahân a / neu gynnwys y gymuned leol wrth nodi a mapio coed a grwpiau coed sy'n addas ar gyfer Gorchmynion Cadw Coed. O ran y pwynt hwn, mae Grŵp Aberystwyth Gwyrddach wedi llunio rhestr a map o'r holl goed mewn mannau cyhoeddus yn Aberystwyth, Penparcau, Llanbadarn Fawr, Faenor a Glanyrafon yn 2005 ac wedi diweddaru'r rhestr hon yn rheolaidd. Erbyn hyn mae'n cynnwys tua 700 o goed sy'n sefyll ar eu pennau eu hunain (y rhai nad ydynt mewn grwpiau agos). Gallwn ddarparu rhestr wedi'i diweddaru a map pan fydd yr ailarolwg | Nodwyd y gefnogaeth. Mae hwn wedi'i drosglwyddo i adrannau Ecoleg a Chadwraeth Cyngor Sir Ceredigion. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | presennol (2025) wedi'i gwblhau a phob coeden wedi cael ei nodi.<br><br>• 11.3.4 Gwarchod coed, mannau agored a golygfeydd pwysig o fewn yr ardal gadwraeth a'r rhai sy'n cyfrannu at ei lleoliad trwy'r CDLl.<br><br>• 11.3.5 Sicrhau bod coed stryd presennol yn cael eu cadw, eu disodli yn ôl yr angen a'u rheoli'n briodol.<br><br>Rydym yn cefnogi'r canlynol yn gryf:<br>• Parhau i ddilyn yr argymhellion yn y dogfennau strategol seilwaith gwyrdd perthnasol a mabwysiedig.<br><br>• Sicrhau bod yr asesiad seilwaith gwyrdd a'r strategaeth ar gyfer coed ym mhob ardal gadwraeth yn cael eu diweddaru a'u hadolygu'n rheolaidd. | Nodwyd y gefnogaeth.<br><br>Nodwyd y gefnogaeth.<br><br>Nodwyd y gefnogaeth.<br><br>Nodwyd y gefnogaeth. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | • Gwarchod coed, mannau agored a golygfeydd pwysig o fewn yr ardal gadwraeth a'r rhai sy'n cyfrannu at ei lleoliad trwy'r CDLl a rheoli datblygu.<br><br>Nodi coed sy'n addas ar gyfer Gorchmynion Cadw Coed.<br>1. Bod Gorchmynion Cadw Coed yn cael eu gosod ar grwpiau o goed, nid dim ond coed unigol.<br><br>2. Dylid gwarchod ardaloedd 'gwyrdd' nad ydynt yn yr Ardal Gadwraeth er mwyn cynnal 'Coridorau Gwyrdd' sy'n darparu cysylltedd rhwng gwarchodfeydd natur.<br><br>3. Yn achos pob datblygiad gyda mannau agored, dylid cadw'r coed presennol a phlannu a chynnal coed newydd, a dylid monitro cynnal a chadw o'r fath a'i orfodi lle bo angen. | Nodwyd y gefnogaeth.<br><br>Nodwyd y sylwadau. Gall Gorchmynion Cadw Coed gynnwys coed unigol neu grwpiau o goed.<br><br>Mae hyn y tu allan i gwmpas yr Arfarniad Ardal Gadwraeth a Chynllun Rheoli.<br><br>Mae hyn y tu allan i gwmpas yr Arfarniad Ardal Gadwraeth a'r Cynllun Rheoli. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | 4. Dylai 'gwelliannau' i erddi blaen, er enghraifft pan gânt eu troi'n fannau parcio ceir, gyfyngu ar yr arwynebau i fod o ddeunyddiau hydraidd gan alluogi tyfiant llystyfiant (glaswellt, perlysiau) er mwyn caniatáu ar gyfer draenio naturiol ac amgylchedd mwy deniadol.<br><br>5. Mae angen marcio coed nad ydynt ar y map ar dudalen 58 yn unigol ar fapiau cynllunio swyddogol. Gall Grŵp Aberystwyth Gwyrddach roi manylion (fel y nodir uchod). | Mae hyn y tu allan i gwmpas yr Arfarniad Ardal Gadwraeth a Chynllun Rheoli.<br><br>Daeth y data a ddefnyddiwyd o FapDataCymru. Fodd bynnag, bydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn trosglwyddo'r sylwadau hyn i adrannau Ecoleg a Chadwraeth Cyngor Sir Ceredigion. | |
| 60 | Cefnogaeth gryf dros gyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4 ar gyfer Aberystwyth.<br><br>Wrth ystyried ceisiadau cynllunio a gorfodaeth, dylid ystyried golwg hanesyddol tref, nid dim ond ei golwg presennol, gan gynnwys ystyriaeth | Dim ond argymhelliad yw'r cynnig i gyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4 yn Aberystwyth ar hyn o bryd. Cyn gweithredu Cyfarwyddyd Erthygl 4, byddai angen ymgynghori a chymeradwyaeth ychwanegol trwy weithdrefnau'r Cyngor.<br><br>Pwrpas y Arfarniad Ardal Gadwraeth yw dogfennu cymeriad, golwg a diddordeb arbennig yr Ardal Gadwraeth. Os caiff ei fabwysiadu fel Canllawiau Cynllunio Atodol, bydd y Arfarniad yn | Amherthnasol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | briodol o sut yr oedd adeiladau'n edrych yn hanesyddol.<br><br>Dylai amrywiaeth a chynhwysiant fod yn brif ystyriaeth; dylid croesawu a gwarchod amrywiaeth Aberystwyth fel rhan allweddol o'i hunaniaeth.<br><br>Dylai unrhyw gynlluniau neu ganllawiau blaenau siopau/lliw sy'n cael eu creu roi ystyriaeth resymol i ddiwylliant a'r celfyddydau.<br><br>Lle bynnag y mae ymgynghori â rhanddeiliaid yn angenrheidiol neu'n briodol, dylai hyn gynnwys ymgynghori â'r Cyngor Tref neu Gymuned lleol, yn enwedig wrth benderfynu ar ganllawiau. | llywio penderfyniadau cynllunio yn y dyfodol er mwyn sicrhau bod ei rinweddau unigryw nid yn unig yn cael eu cadw ond eu gwella hefyd.<br><br>Nodwyd y sylwadau.<br><br>Dim ond argymhelliad yw creu Canllawiau Dylunio Blaenau Siopau a Chanllawiau Dylunio Lliwiau ar hyn o bryd. Pe byddai hyn yn digwydd, byddai angen ymgynghori a chymeradwyaeth ychwanegol trwy weithdrefnau'r Cyngor.<br><br>Nodwyd y sylwadau. Mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol wedi nodi'r Cyngor Tref fel prif ymgynghorai. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Dylid llunio rhestrau o adeiladau o bwysigrwydd lleol drwy ymgynghori â'r Cyngor Tref neu Gymuned lleol. | Pe bai prosiect rhestru lleol yn cael ei weithredu ar gyfer Aberystwyth, byddai ymgynghori â'r Cyngor Tref yn rhan o'r broses. | |
| | **Paragraff 5.3.4:** Dylid newid hwn i ddarllen "unrhyw adeilad sy'n cadw nifer sylweddol o'i nodweddion pensaernïol hanesyddol……". | Mae'r argymhellion ar gyfer y meini prawf ar gyfer asesu adeiladau rhestredig lleol wedi cael eu datblygu o ganllawiau Cadw, ac o brofiad, nid ydynt wedi'u penderfynu'n derfynol. Cyngor Sir Ceredigion fyddai'n penderfynu ar y gyfres derfynol o feini prawf ar gyfer asesu adeiladau gyda chymorth ei Swyddog Cadwraeth. Argymhelliad yn unig yw hwn ar hyn o bryd er mwyn helpu. | Diwygio paragraff 5.3.4 i ddarllen "unrhyw adeilad sy'n cadw nifer sylweddol o'i nodweddion pensaernïol hanesyddol……". |
| | Cefnogi'n gryf yr angen am fwy o orfodi. | Ceisiwyd adnoddau ychwanegol ar gyfer y Gwasanaeth Gorfodi yng nghyllideb 2025/2026 | |
| | **Adran 8:** Canllawiau hysbysebu a rheoli: Dylid cynnwys pwyslais cryf ar y defnydd o'r Gymraeg fel rhan o hunaniaeth y dref. Dylai rheolaeth gynnwys darpariaeth i'w gwneud yn ofynnol i ddeunyddiau ysgrifenedig fod yn ddwyieithog | Drwy Reoliad 6 o Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Rheoli Hysbysebion) 1992, rhoddir cydsyniad tybiedig ar gyfer hysbysebion dros dro sy'n ymwneud â gwerthu neu osod eiddo ac ar gyfer hysbysebion wedi'u goleuo ar eiddo busnes | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | gan roi blaenoriaeth i'r Gymraeg. Dylai hefyd wahardd arwyddion wedi'u goleuo'n fewnol. Ni ddylai unrhyw ganllawiau newydd fod yn wannach na'r canllawiau presennol mewn perthynas â'r Gymraeg. Dylid cynnwys byrddau "I'w osod " o fewn rheolaeth hysbysebu, gyda gwrthwynebiad cyffredinol i arwyddion o'r fath. | yn ddarostyngedig i amodau a chyfyngiadau. Lle bo angen cydsyniad, bydd rhagdybiaeth gryf yn erbyn rhoi caniatâd cynllunio ar gyfer hysbysebion sy'n niweidio cymeriad neu olwg ardal gadwraeth neu ei lleoliad i lefel annerbyniol yn unol â Pholisi Cynllunio Cymru. Yn ogystal, yn unol â Pholisi DM08 y Cynllun Datblygu Lleol, rhoddir caniatâd ar gyfer arwyddion ar yr amod nad ydynt yn cael effaith annerbyniol ar gymeriad gweledol ac ieithyddol yr ardal, a lle bo'n bosibl yn eu gwella'n gadarnhaol. | |
| | **Paragraff 9.3.1:** Dylid datblygu unrhyw Strategaeth Adeiladau Mewn Perygl drwy ymgynghori â'r Cyngor Tref neu Gymuned lleol ac ymgyngoreion statudol eraill. | Os yw Strategaeth Adeiladau Mewn Perygl yn cael ei datblygu ar gyfer Aberystwyth, byddai ymgynghori â'r Cyngor Tref yn rhan o'r broses. | |
| | **Paragraff 10.2.4:** Dylai cyfeiriadau at Dai Amlfeddiannaeth (HMOs) fod yn gryfach, gyda rheolaeth a thrwyddedu llymach ar eu cyfer. Dylai canllawiau hefyd gynnwys darpariaeth i'w | Nodwyd y sylwadau. Mae trwyddedu Tai Amlfeddiannaeth yn gylch gorchwyl adran wahanol o'r Cyngor. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | gwneud yn ofynnol i dai amlfeddiannaeth ddarparu digon o le ar gyfer storio gwastraff a beiciau. Dylai'r ddarpariaeth hon fod yn berthnasol nid yn unig i dai amlfeddiannaeth, ond hefyd wrth droi adeiladau yn fflatiau. | | |
| | Mae'r map o'r gorchudd coed yn Aberystwyth (Ffigur 33) yn anghywir, gyda choed stryd allweddol ar Stryd Portland a Rhodfa'r Gogledd heb eu cynnwys. Dylid rhoi ystyriaeth benodol hefyd i'r llewys coed metel a welir yn Aberystwyth, megis ar Stryd Portland, sydd o werth hanesyddol ac sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at y strydlun. Mae lluniau hanesyddol o Aberystwyth yn dangos mwy o goed stryd. | Daeth y data a ddefnyddiwyd o FapDataCymru. Fodd bynnag, mae sefydliad lleol wedi cysylltu â'r Awdurdod Cynllunio Lleol sydd wedi cynnig darparu data ychwanegol ar goed. Mae hwn wedi cael ei drosglwyddo i'r adran berthnasol. Nid yw'r llewys coed metel yn hanesyddol ond yn osodiad modern gyda dyluniad hanesyddol. Os cânt eu hystyried yn rhan bwysig o gymeriad neu olwg yr ardal, gellir cyfeirio atynt yn y ddogfen. | Diwygio paragraff 7.7.1 i gyfeirio at lewys coed metel. |
| | Dylai cynhyrchu taflen Ardal Gadwraeth Aberystwyth i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r ardal gadwraeth fod yn flaenoriaeth uchel, yn hytrach na blaenoriaeth ganolig. | Mae Cyngor Sir Ceredigion wrthi'n diweddaru ei wefan ar hyn o bryd i ddarparu mwy o wybodaeth am y dreftadaeth adeiledig, a bydd yn ystyried rhinweddau cynhyrchu taflen Ardal Gadwraeth. | Newid yr argymhelliad ar gyfer Taflen Ardal Gadwraeth o flaenoriaeth ganolig i flaenoriaeth uchel. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Dylid cynhyrchu a dosbarthu taflenni arweiniad cyn neu wrth gyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4. | Mae cyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4 yn Aberystwyth yn argymhelliad ar hyn o bryd. Bydd ymgynghori a chymeradwyaeth ychwanegol trwy weithdrefnau perthnasol y Cyngor yn ofynnol cyn y gellir cyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4. Bydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn ystyried rhinweddau paratoi canllawiau ychwanegol ar gyfer ardaloedd sydd â Chyfarwyddyd Erthygl 4 yn ei lle. | |
| | Dylid cynnwys darpariaeth yn y Canllawiau Atodol ar gyfer gorfodi cynnal a chadw a chlirio cwteri eiddo. | Mae'r Cynllun Rheoli yn nodi argymhellion realistig y gallai'r Awdurdod Lleol eu rhoi ar waith. Bydd opsiynau i gefnogi gwaith cynnal a chadw cyffredinol yn cael eu harchwilio yn unol â'r argymhellion a nodir yn y Cynllun Rheoli. | |
| | Ni ddylid cyfyngu cadwraeth rheiliau hanesyddol i reiliau stryd a chynnwys rheiliau ar eiddo hefyd, er enghraifft balconïau haearn bwrw hanesyddol. | Nodwyd y sylwadau a chytunwyd arnynt. | Diwygio paragraff 7.9.1 i gynnwys rheiliau hanesyddol ar eiddo. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Byddai angen amserlen ar gyfer gweithredu'r Canllawiau Atodol. | Bydd yr Arfarniadau Ardaloedd Cadwraeth a Chynlluniau Rheoli yn cael eu cyflwyno i'r Cabinet ym mis Mai pan ystyrir eu mabwysiadu fel Canllawiau Cynllunio Atodol. | |

| | **Aberteifi** | | |
|---|---|---|---|
| **ID** | **Sylw** | **Ymateb** | **Newid a Argymhellir** |
| 6 | Hoffwn fynegi pryderon mawr am adeilad sy'n prysur fynd yn adfail ac yn beryglus ar gyffordd Stryd Morgan a Phwllhai (yn agos i faes parcio staff y Cyngor ar Stryd Morgan). Mae teils yn hedfan oddi ar y to bob tro mae gwynt mawr, ac maen nhw eisoes wedi difrodi cerbydau a bron iawn wedi difrodi fy nhŷ i (7 Stryd Morgan). Dim ond mater o amser yw hi cyn i rywun sy'n mynd heibio gael ei anafu. O ganlyniad mae tyllau yn y to ac mae'r linteli uwchben y drysau yn plygu. Mae hefyd yn ffynhonnell problem fermin lleol. | Mae'r mater hwn wedi cael ei gyfeirio at yr adran berthnasol yng Nghyngor Sir Ceredigion. | Amherthnasol. |
| 7 | Dylid ystyried rhoi grantiau ar gyfer cynnal a chadw ac addurno allanol eiddo yn yr Ardal | Bydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn archwilio'r holl gyfleoedd ariannu pan fyddant yn codi er | Amherthnasol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Gadwraeth. Yn benodol, dylid cynnal a chadw adeiladau ar y Stryd Fawr a Phendre i safon uchel, gyda'r lloriau uchaf yn cael eu defnyddio'n llawn fel fflatiau, swyddfeydd neu storfeydd. Dylid dirwyo ac erlyn perchnogion nad ydynt yn defnyddio grantiau ac sydd heb gynnal a chadw eu heiddo'n ddigonol. | mwyn penderfynu a ellir eu defnyddio er budd yr Ardaloedd Cadwraeth. Bydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol hefyd yn archwilio, ac yn ystyried defnyddio, ei bwerau statudol mewn perthynas â'r amgylchedd hanesyddol lle bo angen. | |
| 27 | Nid yw'r ardal a ddiffinnir yng Nghynllun Aberteifi yn cwmpasu'r holl ardaloedd y dylid eu cynnwys; naill ai trwy ddangos ei fod yn rhan o'r Cynllun gydnabod hynny neu gynnwys ardaloedd y dylid eu hychwanegu gan fod y ffin yn colli'r ardaloedd allweddol hyn sy'n rhan o'n strwythur hanesyddol. Mae hyn yn cynnwys ardaloedd Netpool: Adeiladu Cychod-Cei-Morol a Mwldan Isaf/Canol, mae nifer o'r safleoedd hyn naill ai'n un neu fwy o adeiladau rhestredig Gradd II Cadw, Cofnod Amgylchedd Hanesyddol, Cofnodion Henebion Cenedlaethol Cymru. Nid oes unrhyw ddelweddau o'r adeiladau, adeileddau ac ati o'r ardaloedd hyn wedi'u cynnwys yn y ddogfen, pam? | Ystyrir bod ardal Netpool rhwng Bythynnod Netpool a ffin orllewinol bresennol yr Ardal Gadwraeth wedi'i gwahanu oddi wrth graidd hanesyddol y dref gan ardaloedd a fyddai'n gwanhau ac yn tynnu oddi wrth gydlyniad cymeriad a golwg yr Ardal Gadwraeth gyffredinol. Mae'r rhain yn cynnwys meysydd parcio (hen safle gwaith nwy), caeau chwarae modern a gwaith carthffosiaeth ymhellach i'r gorllewin, tra bod yr Ardal Gadwraeth bresennol yn cynnwys y dref ganoloesol a datblygiad ôl-ganoloesol mewn lleoliad trefol. Nid oes unrhyw adeiladau rhestredig neu henebion cofrestredig o fewn yr ardal hon ac mae asesiad archeolegol gan y Cofnod Amgylchedd Hanesyddol yn crynhoi, | Amherthnasol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | *"Nid yw unrhyw dystiolaeth wedi goroesi ar gyfer y diwydiant adeiladu cychod. Cafodd yr ardal ei defnyddio ar gyfer dympio rwbel ar ddiwedd yr 20fed ganrif".*<br><br>Mae Mwldan Isaf a Mwldan Canol yn ffurfio ffin orllewinol yr Ardal Gadwraeth. Mae un Adeilad Rhestredig ar hyd y ffordd hon sydd wedi ei gynnwys o fewn ffin yr Ardal Gadwraeth ac a arolygwyd ynghyd â'r holl adeiladau eraill ar hyd y darn hwn. Tynnwyd lluniau o bob adeilad yn ystod yr arolwg ffotograffig. Nid oes unrhyw henebion cofrestredig neu adeiladau rhestredig eraill o fewn yr ardal arfaethedig. Mae cofnodion y Cofnod Amgylchedd Hanesyddol a Chofnod Henebion Cenedlaethol Cymru yn awgrymu mai prin iawn yw'r nodweddion hanesyddol sydd wedi goroesi yn yr ardal hon. | |
| 29 | Rwy'n cytuno'n gyffredinol y bydd y cynigion rheoli yn helpu i gadw a gwella cymeriad a golwg Ardal Gadwraeth Aberteifi, ond gyda phryderon / eithriadau. Mae'r ymatebion/sylwadau hyn yn | Nodwyd y sylwadau. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | ymwneud â'r cynigion rheoli fel y'u rhestrir: 1-9 Blaenoriaeth goch, 1-9 Blaenoriaeth melyn, a 1-5 Blaenoriaeth gwyrdd.<br><br>**Rhestr blaenoriaethau coch**<br>1. Ie.<br>2. Ie. Ystyried ymestyn y ffin i gynnwys Bythynnod Netpool hefyd?<br>3. Ie. Cynnwys tystiolaeth ffotograffig hefyd sy'n gysylltiedig ag adolygiad o Stryd y Cei, wal y dref ac ardaloedd y pyrth, ardal hen Stryd y Cei a fyddai wedi ymestyn i'r dde i ddyfrffordd Mwldan, Mwldan isaf, Mwldan Canol ac ardal adeiladu cychod a chei Netpool.<br>4. Ie. Cynnwys mewnbwn gan y gymuned hefyd.<br>5. Ie. Hefyd, nid dim ond "trafod â'r perchnogion ynglŷn â thor reolau", ond yn hytrach gweithio gyda pherchnogion a thrigolion tuag at ddatblygiadau a newid cadarnhaol.<br>6. Ie.<br>7. Ie. | O ran y rhestr blaenoriaethau coch:<br>• Blaenoriaeth 2: Ystyrir bod ardal Netpool rhwng Bythynnod Netpool a ffin orllewinol bresennol yr Ardal Gadwraeth wedi'i gwahanu oddi wrth graidd hanesyddol y dref gan ardaloedd a fyddai'n gwanhau ac yn tynnu oddi wrth gydlyniad cymeriad a golwg yr Ardal Gadwraeth gyffredinol. Mae'r rhain yn cynnwys meysydd parcio (hen safle gwaith nwy), caeau chwarae modern a gwaith carthffosiaeth ymhellach i'r gorllewin, tra bod yr Ardal Gadwraeth bresennol yn cynnwys y dref ganoloesol a datblygiad ôl-ganoloesol mewn lleoliad trefol. Nid oes unrhyw adeiladau rhestredig neu henebion cofrestredig o fewn yr ardal hon ac mae asesiad archeolegol gan y Cofnod Amgylchedd Hanesyddol yn crynhoi, *"Nid yw* | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | 8. Ie. 'Cyflwyno' swyddogion treftadaeth hefyd i berchnogion / trigolion / cymuned.<br>9. Ie. Fel yr uchod, cyflwyno'r Cyngor, busnesau a chymunedau i'w gilydd – i greu amgylchedd cyfartal ac ymddiriedus er mwyn i bawb sy'n rhan o ddatblygiadau cadarnhaol a newid yn gallu cydweithio. | *unrhyw dystiolaeth wedi goroesi ar gyfer y diwydiant adeiladu cychod. Cafodd yr ardal ei defnyddio ar gyfer dympio rwbel ar ddiwedd yr 20fed ganrif".*<br>• Blaenoriaeth 3: Cyngor Sir Ceredigion yn cynnal arolwg ffotograffig llawn.<br>• Blaenoriaeth 4: Y gymuned leol wedi ei nodi fel partner (gweler y golofn ganol) ac ymgynghorir â'r gymuned wrth i gynlluniau ddatblygu.<br>• Blaenoriaeth 5: Mae'r cam gweithredu hwn yn ymwneud â gorfodi a gweithio gyda pherchnogion a thrigolion ar gyfer newid cadarnhaol. Mae gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol ddyletswydd statudol i 'warchod neu wella' yr Ardal Gadwraeth a rheoli newid mewn ffordd gadarnhaol.<br>• Blaenoriaethau 8 a 9: Fel rhan o'r broses baratoi, cynhaliodd yr Awdurdod Cynllunio Lleol a'r Ymgynghorydd nifer o sesiynau galw heibio cyhoeddus a chafodd trigolion lleol eu hannog i'w mynychu. Bydd ymgysylltu â'r | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | gymuned hefyd yn rhan o unrhyw adolygiad. Mae croeso i drigolion gysylltu â'r Awdurdod hefyd os oes ganddynt unrhyw gwestiynau am yr Ardal Gadwraeth. | |
| | Rhestr blaenoriaethau melyn<br>1. Amherthnasol i ardal Aberteifi.<br>2. Ie. Eto, nid dim ond "sicrhau bod pob... yn ymwybodol o ... unrhyw gyfyngiadau", ond gweithio gyda pherchnogion a thrigolion tuag at ddatblygiadau a newid cadarnhaol.<br>3. Ie. Hefyd, sicrhau bod cymunedau yn cymryd rhan yn eu Cynllun Datblygu lleol.<br>4. Ie. Eto, sicrhau bod y gymuned yn cymryd rhan ar bob lefel ac ar bob cam – mae cymeriad a golwg yr ardaloedd cadwraeth y maent yn byw ynddynt yn bwysig iddyn nhw hefyd!<br>5. Ie, cyn belled â bod hyn yn rhywbeth sy'n cynnwys pobl leol sydd â diddordeb mewn cadwraeth hefyd ac nid yn unig yn ffordd o greu rhai swyddfeydd Cyngor braf! | O ran y rhestr blaenoriaethau melyn:<br>• Blaenoriaeth 1: Ystyrir bod hyn yn berthnasol er mwyn gallu defnyddio Canllawiau Dylunio Blaenau Siopau i lywio penderfyniadau cynllunio ar draws y sir a sicrhau bod adeiladau masnachol hanesyddol yn cael eu cadw a'u gwella.<br>• Blaenoriaeth 2: Fel rhan o'r broses baratoi, cynhaliodd yr Awdurdod Cynllunio Lleol a'r Ymgynghorydd nifer o sesiynau galw heibio cyhoeddus a chafodd trigolion lleol eu hannog i'w mynychu. Bydd ymgysylltu â'r gymuned hefyd yn rhan o unrhyw adolygiad. Mae croeso i drigolion gysylltu â'r Awdurdod hefyd os oes ganddynt unrhyw gwestiynau am yr Ardal Gadwraeth. | Gwneud y diwygiadau canlynol i'r rhestr flaenoriaeth melyn:<br>• Blaenoriaeth 7: Dileu'r cam gweithredu hwn.<br>• Blaenoriaeth 9: Newid y geiriad i 'mentora a chefnogi fel y bydd adnoddau'n caniatáu'. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | 6. Ie. Hefyd, beth am ychydig o arwyddion (Tŷ Trwy Amser?) ger neu wrth ymyl adeiladau rhestredig Gradd II preswyl (os yw perchnogion unigol am eu cael nhw wrth gwrs)<br>7. Amherthnasol i Aberteifi<br>8. Ie.<br>9. Ie. Hefyd, sicrhau bod y grŵp cymunedol cynghori / gwella hwn nid yn unig yn cael ei fentora ond yn cael ei gefnogi'n ddigonol ac yn briodol. | • Blaenoriaeth 3: Mae paratoi Cynllun Datblygu Lleol Newydd yn cynnwys nifer o gamau ymgynghori statudol, a bydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn sicrhau bod mesurau digonol yn eu lle i sicrhau ymgysylltu ystyrlon fel rhan o baratoi Cynllun Cynnwys Cymunedau.<br>• Blaenoriaeth 4: Fel rhan o'r broses baratoi, cynhaliodd yr Awdurdod Cynllunio Lleol a'r Ymgynghorydd nifer o sesiynau galw heibio cyhoeddus a chafodd trigolion lleol eu hannog i'w mynychu. Bydd ymgysylltu â'r gymuned hefyd yn rhan o unrhyw adolygiad. Mae croeso i drigolion gysylltu â'r Awdurdod hefyd os oes ganddynt unrhyw gwestiynau am yr Ardal Gadwraeth.<br>• Blaenoriaeth 5: Mae hyn yn ymwneud â chreu swyddi a sgiliau ym maes cadwraeth i sicrhau bod y sgiliau hyn ar gael i berchnogion a deiliaid adeiladau hanesyddol. Mae sgiliau cadwraeth yn | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | fwyfwy prin erbyn hyn. Nid yw'n ymwneud â swyddfeydd y Cyngor.<br>• Blaenoriaeth 6: Mae hyn yn ymwneud ag arwyddion siop heb eu cydlynu sy'n creu annibendod gweledol. Gallai arwyddion ychwanegol achosi mwy o annibendod gweledol ac efallai y bydd angen caniatâd. Gellid ystyried pob math o ddehongli ar gyfer yr ardal ond nid dyna ddiben y cam gweithredu hwn.<br>• Blaenoriaeth 7: Nodwyd. Bydd y cam gweithredu hwn yn cael ei ddileu gan ei fod yn ailadrodd blaenoriaeth 1.<br>• Blaenoriaeth 9: Nodwyd. Bydd y geiriad yn cael ei newid i 'mentora a chefnogi fel y mae adnoddau'n caniatáu'. | |
| | Rhestr blaenoriaethau gwyrdd<br>1. Ie.<br>2. Ie. Hefyd, mae mwy i hanes morwrol Aberteifi na Chei'r Tywysog Siarl. Dylid sicrhau bod Stryd y Cei, wal y dref ac ardaloedd y pyrth, ardal hen | O ran y rhestr blaenoriaethau gwyrdd:<br>• Blaenoriaeth 2: Dylid nodi hyn ar gyfer prosiectau dehongli newydd. | Gwneud y diwygiadau canlynol i'r rhestr blaenoriaethau gwyrdd:<br>• Blaenoriaeth 4: Ychwanegu'r gymuned leol i'r golofn ganol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Stryd y Cei a fyddai wedi ymestyn i'r dde i ddyfrffordd Mwldan, Mwldan isaf, Mwldan Canol ac ardaloedd adeiladu cychod a chei Netpool i gyd yn cael eu cydnabod.<br>3. Ie.<br>4. Ie. Hefyd, cynnwys y bobl leol, maen nhw'n gwybod pa mor bwysig y mae golwg yr ardaloedd cadwraeth maen nhw'n byw ynddynt – a'r syniadau gorau yw'r rhai y mae pobl leol yn teimlo eu bod yn 'berchen' arnynt ac yn hapus i fyw gyda nhw!<br>5. Ie. Peidiwch â'i adael am ddeng mlynedd...... | • Blaenoriaeth 4: Nodwyd. Bydd y gymuned leol yn cael ei hychwanegu at y golofn ganol. | |
| 30 | Mae popeth yn edrych yn dda ar bapur, ond bydd cyflawni'r hyn a argymhellir yn her i'r awdurdod | Mae'r Cynllun Rheoli wedi ceisio nodi argymhellion realistig i fynd i'r afael â'r cyfleoedd a'r materion a nodwyd yn yr Arfarniad. | Amherthnasol. |
| 31 | A fydd grantiau ar gael i wella'r eiddo dan sylw mewn modd sympathetig? | Bydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn archwilio'r holl gyfleoedd ariannu pan fyddant yn codi er mwyn penderfynu a ellir eu defnyddio er budd yr Ardaloedd Cadwraeth. | Amherthnasol. |
| 33 | Mae Stryd y Cei yn allweddol i hanes morwrol ein tref ac yn lleoliad llawer o adeiladau rhestredig – dim llai nag 16, sef y gyfran uchaf yn Aberteifi. | Nodwyd y sylwadau. Bydd ychwanegiadau'n cael eu gwneud i'r Arfarniad sy'n adlewyrchu | Diwygio'r Arfarniad Ardal Gadwraeth i adlewyrchu pwysigrwydd Stryd y Cei. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Mae'n cynnwys tai Sioraidd a Fictoraidd, rhai wedi'u hadeiladu ar gyfer capteiniaid môr a rhai ar gyfer pysgotwyr, ac mae'n chwarae rhan hanfodol yn hanes morwrol ein tref. | pwysigrwydd Stryd y Cei ar yr amod bod cyfeiriadau dibynadwy ac adnoddau ar gael. | |
| 34 | Dim llawer o fanylion am y dull gweithredu, ac yn nodi rhai ardaloedd o ddiddordeb arbennig ond nid pob un. | Nodwyd y sylwadau. | Amherthnasol. |
| 39 | Mae Cymdeithas yr Iaith yn galw am fwy o gyfarwyddyd ynglŷn â'r Gymraeg, yn arbennig o ran blaenau siop.<br><br>Rydym yn galw am ganllawiau clir yn y canllawiau yn ymwneud â'r ardal cadwraeth bod angen i unrhyw arwyddion siop fod yn uniaith Gymraeg neu'n ddwyieithog gyda'r Gymraeg i'r chwith neu uwchben y Saesneg. Mae hyn yn bwysig o ran gwaead y dref, hanes y Gymraeg yn y dref a'r blaenoriaeth i'r Gymraeg. Dylid nodi bod hanes hir o ddefnydd o'r Gymraeg yn yr holl trefi mae'r ymgynghoriad yn ymwneud â nhw. Dylid mynd ati i sicrhau bod blaenau siop yn | Mae Polisi DM08 y Cynllun Datblygu Lleol mabwysiedig yn annog y defnydd o arwyddion a hysbysebion dwyieithog. Yn unol â'r Polisi, rhoddir caniatâd ar gyfer arwyddion ar yr amod nad ydynt yn cael effaith annerbyniol ar gymeriad gweledol ac ieithyddol yr ardal, a lle bo'n bosibl yn ei gwella'n gadarnhaol. | Amherthnasol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | defnyddio'r Gymraeg, gan ddefnyddio pwerau gorfodi os oes rhaid.<br><br>Rydym hefyd yn galw am warchod enwau Cymraeg ar adeiladau a strydoedd o fewn yr ardaloedd cadwraeth. | | |
| 47 | Nodaf y dyddiad ar y ddogfen, Chwefror 2024, sy'n codi cwestiynau. Mae Atodiad A / Gweithredu / Argymhelliad, eitem 1, yn dweud "Dylid mabwysiadu'r Arfarniad Ardal Gadwraeth a Chynllun Rheoli fel Canllawiau Cynllunio Atodol a'u defnyddio i lywio'r broses gwneud penderfyniadau", sy'n gwneud synnwyr perffaith, ond hoffwn i wybod:<br>a) a yw'r ddogfen ddrafft hon wedi cael ei mabwysiadu mewn unrhyw ffurf neu i unrhyw raddau fel Canllawiau Cynllunio Atodol a'i defnyddio i lywio'r broses gwneud penderfyniadau yn y deuddeg mis ers ei chyflwyno i'r Cyngor, a | Y dyddiad a nodir ar glawr y ddogfen yw'r dyddiad y cwblhawyd y drafft cychwynnol. Mae'r dogfennau wedi cael eu diwygio ers hynny. Os caiff ei fabwysiadu fel Canllawiau Cynllunio Atodol, caiff y dyddiad ei ddiwygio i adlewyrchu'r dyddiad mabwysiadu.<br><br>Nid oes gan y dogfennau hyn unrhyw rym arwyddocaol mewn penderfyniadau cynllunio oni bai eu bod yn cael eu mabwysiadu fel Canllawiau Cynllunio Atodol. Ar y pwynt hwn maent yn dod yn ystyriaeth berthnasol. Mae Swyddogion Rheoli Datblygu wedi ystyried canllawiau cenedlaethol yn ymwneud â'r amgylchedd hanesyddol yn y gorffennol wrth | Newid y dyddiad ar y dudalen flaen. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | b) os nad yw, pa ddogfen neu ddogfennau sydd wedi bod yn sail i Ganllawiau Cynllunio Ardal Gadwraeth Aberteifi cyn hyn?<br><br>Yn fras, mae'r Arfarniad yn ddarn o waith defnyddiol, clir, sydd wedi'i gyflwyno'n broffesiynol ac mae'n ymddangos bod The Griffiths Heritage Consultancy wedi gwneud gwaith da. Fodd bynnag, rwy'n bryderus iawn nad yw'r ardaloedd cadwraeth (a hanesyddol bwysig) canlynol yn cael eu cydnabod na'u hadolygu yn y ddogfen – Stryd y Cei, wal y dref ac ardaloedd y pyrth, ardal hen Stryd y Cei a fyddai wedi ymestyn i'r dde i ddyfrfforddd Mwldan, Mwldan Isaf, Mwldan Canol ac ardaloedd adeiladu cychod a chei Netpool. Mae'r ardaloedd hyn, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, wedi'u rhestru/cydnabod naill ai yn rhestr Gradd II CADW, y Cofnod Amgylchedd Hanesyddol neu'r Cofnod Henebion Cenedlaethol Cymru. | wneud penderfyniadau ynghylch yr Ardal Gadwraeth.<br><br>Briff y gwaith oedd adolygu'r Ardal Gadwraeth bresennol a llunio cynigion ar gyfer ei chadw a'i gwella. Mae hyn yn cynnwys estyniadau posibl i'r ffin. Cydnabyddir bod asedau hanesyddol dynodedig a heb eu dynodi wedi'u lleoli y tu allan i'r ardal hon, ond maent y tu allan i gwmpas y gwaith hwn.<br><br>Mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn cydnabod y gellid cynnwys gwybodaeth ychwanegol ynglŷn ag arwyddocâd Stryd y Cei. Ystyrir bod ardal Netpool rhwng Bythynnod Netpool a ffin orllewinol bresennol yr Ardal Gadwraeth wedi'i gwahanu oddi wrth graidd hanesyddol y dref gan ardaloedd a fyddai'n gwanhau ac yn tynnu oddi wrth gydlyniad cymeriad a golwg yr Ardal Gadwraeth gyffredinol. Mae'r rhain yn cynnwys meysydd parcio (hen safle gwaith nwy), caeau | Diwygio'r Arfarniad Ardal Gadwraeth i adlewyrchu pwysigrwydd Stryd y Cei. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Allwch chi ddweud wrthyf a oedd adolygiad o'r ardaloedd hyn wedi'i gynnwys ym mriff y Cyngor i Griffiths Heritage? Os na, allwch chi ddweud wrthyf ar ba sail y cafodd yr ardaloedd hyn o arwyddocâd hanesyddol a diwylliannol eu heithrio o'r briff?<br><br>Roedd yr ardaloedd hyn a'r cymunedau oedd yn byw ac yn gweithio ynddynt wedi chwarae rhan bwysig iawn yn hanes y dref a hanes morwrol Aberteifi a dylid eu cydnabod am y dylanwad hwnnw.<br>O ganlyniad, hoffwn i ofyn i'r Cyngor ailystyried briff Griffiths Heritage er mwyn cynnwys (trwy atodiad?) adolygiad o'r ardaloedd pwysig hyn, i'r un safon â'r ddogfen ddrafft, a bod adolygiad o'r fath ar gael ar gyfer ymgynghoriad ar gyfer o leiaf drigolion yr ardaloedd hyn. Rwy'n sylweddoli bod y cais hwn yn golygu gwaith ychwanegol i rywun yn rhywle, a bod amser yn ffactor, ond does bosib bod modd sicrhau bod yr ardaloedd hyn yn cael eu cynnwys yn y ddogfen bwysig hon er | chwarae modern a gwaith carthffosiaeth ymhellach i'r gorllewin, tra bod yr Ardal Gadwraeth bresennol yn cynnwys y dref ganoloesol a datblygiad ôl-ganoloesol mewn lleoliad trefol. Nid oes unrhyw adeiladau rhestredig neu henebion cofrestredig o fewn yr ardal hon ac mae asesiad archeolegol gan y Cofnod Amgylchedd Hanesyddol yn crynhoi, *"Nid yw unrhyw dystiolaeth wedi goroesi ar gyfer y diwydiant adeiladu cychod. Cafodd yr ardal ei defnyddio ar gyfer dympio rwbel ar ddiwedd yr 20fed ganrif".*<br><br>Mae Mwldan Isaf a Mwldan Canol yn ffurfio ffin orllewinol yr Ardal Gadwraeth. Mae un Adeilad Rhestredig ar hyd y ffordd hon sydd wedi ei gynnwys o fewn ffin yr Ardal Gadwraeth ac a arolygwyd ynghyd â'r holl adeiladau eraill ar hyd y darn hwn. Tynnwyd lluniau o bob adeilad yn ystod yr arolwg ffotograffig. Nid oes unrhyw henebion cofrestredig neu adeiladau rhestredig eraill o fewn yr ardal arfaethedig. Mae cofnodion | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | mwyn gallu cydnabod a gwerthfawrogi eu heffaith yn y dyfodol? | y Cofnod Amgylchedd Hanesyddol a Chofnod Henebion Cenedlaethol Cymru yn awgrymu mai prin iawn yw'r nodweddion hanesyddol sydd wedi goroesi yn yr ardal hon. | |
| 50 | Yn y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi rhoi gwybod i'n Cynghorydd Sir gweithgar, Mr Clive Davies, ein bod yn dymuno ehangu Parc Fferm Arfordirol Ynys Aberteifi gyda chabanau ar y cae 6 erw ger ein maes gwersylla a charafanio presennol.<br><br>Ar hyn o bryd, mae pwysau ariannol mawr yn cael eu rhoi ar ein busnes gyda chostau rhedeg ychwanegol a threthi twristiaeth newydd arfaethedig sy'n cael eu gosod gan Lywodraeth Cymru.<br><br>Mae cyfraddau cyflog fesul awr ein gweithwyr yn cynyddu'n flynyddol yn unol â chyfraddau tâl y llywodraeth....ac yn gysylltiedig â chwyddiant. Ni allwn wneud yr un peth gyda'n cyfraddau tâl ein | Mae dogfennau'r Arfarniad Ardaloedd Cadwraeth a Chynllun Rheoli yn ceisio cefnogi'r gwaith o wella a chadw arwyddocâd hanesyddol a phensaernïol arbennig yr ardal. Mae materion a godwyd yn y sylwadau hyn y tu allan i gwmpas y gwaith hwn. Mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol wedi ymateb yn uniongyrchol i'r ymgynghorai er mwyn rhoi sylw i'r materion a godwyd. | Amherthnasol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | hunain! Rhaid cystadlu er mwyn cadw'r drysau ar agor!!! Rydym yn nwylo'r farchnad!!<br><br>Yr UNIG bobl yng ngweithlu'r DU sydd heb gyfraddau fesul awr gwarantedig yw ni....yr HUNAN-GYFLOGEDIG!! Mae gen i ofn bod llawer iawn o ddiwrnodau........gormod....yn ystod 2024 pan oedd ein staff yn ennill mwy na ni!!!<br>Yn wir, bu diwrnodau pan oeddem ni ....y perchnogion....yn ennill DIM BYD yr awr o'r caffi, tra bod ein staff yn cael eu talu cyfradd tâl eithaf da. Rwy'n ofni mai FFAITH drist oedd honno!! Ni all unrhyw fusnes barhau fel hyn.<br><br>Nawr, eleni, mae'n ymddangos y gallai treth newydd gael ei chodi cyn bo hir ar wersyllwyr a charafanwyr. Byddai hwn yn gam yn ôl difrifol. Yn aml dim ond £5 y pen y noson mae gwersyllwyr yn ei dalu i wersylla yma. Felly bydd ardoll o 75 ceiniog y noson......yn enwedig ar blant.....yn hynod o niweidiol oherwydd mae 75 ceiniog yn | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | 15 y cant o'r gyfradd wersylla, os yw'n £5, sy'n ganran enfawr.<br><br>Bydd y dreth newydd yn gorfodi llawer i wersylla'n anghyfreithlon ar safleoedd heb eu trwyddedu sydd heb yr un costau rhedeg â safleoedd gwersylla da. Bydd pobl yn gwersylla mewn cilfannau, ar ymyl y ffordd, tir comin, tir gwastraff ac mewn caeau fferm cyffredin heb eu trwyddedu.<br>Unrhyw beth i osgoi talu treth!!<br><br>Felly, bydd SBWRIEL ychwanegol yn cael ei wasgaru ar hyd a lled Cymru a fydd yn niweidio Cymru fel cyrchfan dwristiaeth lân ..... ac yn gostus i Lywodraeth Cymru ac Awdurdodau Lleol a fydd yn gorfodi clirio'r sbwriel ! Felly gallai treth dwristiaeth ar wersylla a charafanio gostio LLAWER MWY i gyrff cyhoeddus mewn costau clirio sbwriel cyffredinol. | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Ymhellach, ble mae'r TOILEDAU yn y lleoliadau eraill hyn? Mae Cynghorau ym mhobman wedi cau llawer o doiledau cyhoeddus....am eu bod yn dweud na allan nhw fforddio eu rhedeg.<br><br>Felly sut maen nhw'n disgwyl i feysydd gwersylla bach redeg toiledau, torri gwair, casglu sbwriel.....yn ei gategorïau amrywiol ..... a chasglu trethi gwersylla eu hymwelwyr hefyd?<br><br>YDY MR MARK DRAKEFORD YN SYLWEDDOLI EI FOD YN TRETHU RHAI O BOBL DLOTAF CYMRU........ SYDD AR WYLIAU YNG NGORLLEWIN CYMRU!!<br><br>Mae llawer o'n cwsmeriaid gwersylla yn dod o Gasnewydd, Caerdydd, Abertawe, a Chymoedd De Cymru......a sir enedigol Mr Drakeford ei hun, Sir Gaerfyrddin!! Fydd y bobl hynny ddim yn rhy hapus i gael eu trethu am eu penwythnosau gwersylla a gwyliau yng Ngorllewin Cymru!! Bydd yn dreth newydd ar DLODION Cymru!!! | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Er mwyn gwella ein menter dwristiaeth ac ehangu i'r dyfodol, mae angen i'n busnes sefydlu menter cabanau cymedrol ei maint gyda chwech i ddeuddeg o gabanau yn y cae sy'n ffinio ein maes gwersylla presennol. Ni fydd yn weladwy o unrhyw le y tu allan i'n heiddo ein hunain. Mae gennym ni'r lleoliad delfrydol.........gyda golygfeydd gwych ar gyfer ein cwsmeriaid, gan greu mwy o swyddi yma mewn lleoliad twristiaeth sefydledig, poblogaidd iawn sy'n cael ei redeg yn effeithlon.<br><br>Bydd hyn yn sicrhau dyfodol i fy wyresau Cymraeg eu hiaith a fydd yn aros yn yr ardal a datblygu'r fenter dwristiaeth ymhellach.<br><br>Er mwyn i hyn ddigwydd, mae'n debyg bod angen newid CDLl presennol Cyngor Sir Ceredigion. Ysgrifennais lythyr yn cyflwyno ein hachos yn fanwl iawn a'i anfon at Gyngor Sir Ceredigion ddwy neu dair blynedd yn ôl. | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Mae'r CDLl presennol wedi dyddio o ran twristiaeth. Mae amaethyddiaeth a thwristiaeth wedi'u cysylltu â'i gilydd ledled Cymru. Y diwydiannau deuol hyn yw'r UNIG "grewyr cyfoeth" mewn rhannau helaeth o Gymru!! Mae ffermwyr Cymru fel ni, sydd wedi arallgyfeirio ers tro, yn dibynnu ar dwristiaeth i ddarparu incwm ychwanegol. Mae trefi a phentrefi lleol, tafarndai gwledig, gwestai, bwytai, caffis, siopau, garejys ac ati. ..... i gyd yn elwa'n fawr o'r ymwelwyr ychwanegol rydyn ni'n eu denu i'r ardal.<br><br>Yn ogystal, ni fydd yr ymwelwyr hynny sy'n aros yn ein cabanau gwyliau yn prynu tai haf mewn pentrefi fel Llandudoch, Aberporth, Tresaith a Llangrannog, gan adael mwy o eiddo ar y farchnad i bobl leol eu prynu!!<br><br>Felly, plîs newidiwch y CDLl er mwyn rhoi cyfle i fusnesau twristiaeth fel ein un ni ehangu ..... a chreu swyddi!! | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 54 | Gan gyfeirio at yr ymgynghoriad uchod, hoffem ni gyflwyno ymateb gan drigolion Stryd y Cei, Aberteifi:<br>Er bod dogfen y Cynllun Cadwraeth yn hir ac mae'n amlwg ei fod yn ffrwyth llawer o waith, does dim llawer o fanylion i'w gweld ar reoli a chadwraeth rhai o'r strydoedd hŷn yn yr Ardal Gadwraeth.<br>Yn benodol, nid oes unrhyw sôn am Stryd y Cei, ac eto mae'r rhan fwyaf o'r stryd yn cynnwys adeiladau rhestredig a adeiladwyd yn wreiddiol ar gyfer pysgotwyr a chapteiniaid môr. Mae gan y stryd gysylltiad clir â threftadaeth forwrol y dref, ond yn anffodus caiff ei hesgeuluso fel arfer mewn cynlluniau ar gyfer adfywio a chadwraeth y dref.<br><br>Credwn y dylai'r stryd gael ei blaenoriaethu mewn unrhyw gynlluniau pellach, yn enwedig o ran ariannu gwelliannau. Byddai gwella a chadw cymeriad y stryd hefyd yn ychwanegu diddordeb | Nodwyd y sylwadau. Bydd ychwanegiadau'n cael eu gwneud i'r Arfarniad sy'n adlewyrchu pwysigrwydd Stryd y Cei ar yr amod bod cyfeiriadau dibynadwy ac adnoddau ar gael. Bydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol hefyd yn archwilio'r holl gyfleoedd ariannu, pan fyddant ac wrth iddynt godi, er mwyn penderfynu a ellir eu defnyddio er budd yr Ardaloedd Cadwraeth. | Diwygio'r Arfarniad Ardal Gadwraeth i adlewyrchu pwysigrwydd Stryd y Cei. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | i ymwelwyr ac efallai'n cynyddu apêl twristiaeth Aberteifi fel cyrchfan hanesyddol ddeniadol. Gyda hynny mewn golwg, hoffem awgrymu gwelliannau i helpu i gadw cymeriad hanesyddol Stryd y Cei ar gyfer pobl y dref a chenedlaethau'r dyfodol. Gallai'r rhain gynnwys:<br>• Goleuadau treftadaeth o safon wedi'u gosod ar y wal (tebyg i'r rhai ar Stryd Eglwys Santes Fair)<br>• Plac (ar ben ucha'r stryd) yn cynnwys lluniau hanesyddol ynghyd â thestun yn amlinellu rôl y stryd yn natblygiad morwrol Aberteifi.<br>• Bwa mewn steil clasurol ar ben ucha'r stryd gyda'r cyfarchiad: "Croeso i Stryd y Cei"<br>• Coffâd gweledol o wal hynafol y dref (sydd hefyd wedi'i rhestru ac yn rhedeg y tu ôl i Rock Terrace sy'n cysylltu â Chei Cambrian).<br>• Angor llong wedi'i gosod ar blinth yng ngardd y Royal Oak (neu yn y maes parcio?)<br>• Biniau sbwriel a baw cŵn ar waelod y stryd (ac arwydd yn rhybuddio pobl am ddirwyon os yw cŵn yn baeddu). | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | • Palmant bach ar bob ochr o'r stryd gyda mynediad diogel i gerddwyr (mae Adran Briffyrdd Cyngor Sir Ceredigion wedi dweud o'r blaen "dim mynediad diogel i bobl" ar Stryd y Cei). Gallai hyn hefyd helpu i leihau cyflymder y traffig.<br>• Wyneb ffordd sy'n cyd-fynd yn well â stryd hanesyddol na'r tarmac presennol.<br>• Mesurau lleihau traffig i helpu i warchod adeiladau hanesyddol y stryd, efallai cyfyngu mynediad i drigolion, yr henoed a phobl anabl yn unig. (Efallai y gallai traffig gael ei ailgyfeirio a newid maes parcio Stryd y Cei i fod yn ofod hamdden cymunedol gyda gerddi gwelyau plannu a lle i gynnal digwyddiadau? Mae'r maes parcio yn rhoi golygfeydd gwych o'r aber sy'n cael ei wastraffu ar geir sydd wedi parcio ar hyn o bryd).<br><br>Gobeithiwn y bydd y Cyngor Sir yn ystyried yr awgrymiadau hyn mewn unrhyw gynlluniau ar gyfer Aberteifi yn y dyfodol. | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Rydym yn y broses o ffurfio Grŵp Cadwraeth Stryd y Cei a hoffem gysylltu ymhellach â'r Cyngor Sir (ac efallai CADW) ynglŷn â dyfodol ein stryd. | | |
| 59 | Rwy'n meddwl bod yr uchod yn syniad da iawn er mwyn cadw treftadaeth a chymeriad Aberteifi, ein tref. Ond mae un cwestiwn gen i: mae'r Stryd Fawr yn amlwg yn chwarae rhan fawr o ran cyfrannu at hanes pensaernïol y dref, ond mae strydoedd eraill sy'n rhan annatod o gymeriad hanesyddol Aberteifi hefyd: efallai fod Stryd y Cei yn fach iawn ond mae'n chwarae rôl bwysig, gyda dim llai na 16 o adeiladau rhestredig – y gyfran uchaf o unrhyw stryd yn y dref, rhai wedi'u hadeiladu ar gyfer capteiniaid môr, rhai ar gyfer pysgotwyr lleol. Yn anffodus, mae'n ymddangos ein bod yn cael ein hanghofio yn aml yng nghynllun mawr pethau. Mae nifer o drigolion yn teimlo bod y stryd yn haeddu rhywfaint o sylw o leiaf yn y ddogfen ymgynghori, ac i'r diben hwnnw, tybed a fyddech yn fodlon gwneud | Nodwyd y sylwadau. Bydd ychwanegiadau'n cael eu gwneud i'r Arfarniad sy'n adlewyrchu pwysigrwydd Stryd y Cei ar yr amod bod cyfeiriadau dibynadwy ac adnoddau ar gael. Ynglŷn â'r dyddiad cau ar gyfer yr ymgynghoriad, estynnwyd hwn i ddydd Gwener 14 Mawrth er mwyn rhoi amser mwy o amser i ymgyngoreion ymateb, fodd bynnag, nid oes modd gwneud newidiadau pellach oherwydd cyfyngiadau amser. | Diwygio'r Arfarniad Ardal Gadwraeth i adlewyrchu pwysigrwydd Stryd y Cei. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | atodiad i'r ddogfen gyfredol ac efallai ymestyn y dyddiad cau ar gyfer yr ymgynghoriad. | | |

| | **Llanbadarn Fawr** | | |
|---|---|---|---|
| **ID** | **Sylw** | **Ymateb** | **Newid a Argymhellir** |
| 3 | Ar ôl darllen yr ymgynghoriad ar gyfer Llanbadarn Fawr – rwy'n teimlo y dylid estyn ardal y ffin i gynnwys Campws Llanbadarn Fawr sydd ag adeiladau rhestredig fel y nodir ar fapiau Cadw. Allwch chi ystyried hyn os gwelwch yn dda? | Mae'r ffin bresennol wedi cael ei hadolygu, ac ystyrir ei bod wedi'i diffinio'n dda ac yn cynnwys yr ardaloedd perthnasol o ddiddordeb pensaernïol a hanesyddol. Ni fydd cynnwys yr adeiladau rhestredig a nodir yn yr Ardal Gadwraeth yn rhoi mwy o amddiffyniad i'r adeiladau nag sydd ganddynt eisoes. | Amherthnasol. |
| 8 | Dylid cyhoeddi mwy am bwysigrwydd yr ardal a'r gofynion cynllunio yn yr ardal. | Mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn y broses o ddiweddaru gwefan Cyngor Sir Ceredigion i ddarparu rhagor o wybodaeth mewn perthynas â threftadaeth adeiledig. | Amherthnasol. |
| 13 | Dylid rhoi mwy o ystyriaeth i eiddo'n cael ei berchenogi neu eiddo sy'n cael ei rentu ac a yw hyn yn effeithio ar gynnal a chadw'r ardal. | Mae Cynllun Rheoli Llanbadarn Fawr yn nodi nifer o argymhellion i gynorthwyo gyda chynnal a chadw'r ardal. Mae hyn yn cynnwys nodi cynlluniau grant a sefydlu rhaglenni hyfforddi. | Amherthnasol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Mae angen blaenoriaethu ymwybyddiaeth o fodolaeth yr ardal gadwraeth – gan gynnwys yr ymgynghoriad hwn; nid oes unrhyw wybodaeth wedi'i hanfon yn uniongyrchol at drigolion presennol! | Bydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn archwilio'r opsiynau hyn wrth symud ymlaen.<br><br>Yn ogystal â'r ymgynghoriad hwn, cynhaliwyd digwyddiadau ymgysylltu â'r cyhoedd wrth baratoi'r dogfennau. Roedd y rhain ar ffurf sesiynau galw heibio, ac anogwyd y cyhoedd i'w mynychu er mwyn llunio'r dogfennau a dysgu mwy am yr Ardaloedd Cadwraeth.<br><br>Mae'r holl ymgysylltu ac ymgynghori â'r cyhoedd sydd wedi digwydd wedi cael eu hysbysebu trwy ddatganiadau i'r wasg, gan gynnwys negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol. At hynny, ebostiwyd cynrychiolwyr lleol a rhanddeiliaid ar gronfa ddata'r Cynllun Datblygu Lleol yn uniongyrchol i roi gwybod iddynt am yr ymgynghoriad hwn.<br><br>Mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol hefyd yn y broses o ddiweddaru gwefan Cyngor Sir | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Ceredigion i roi rhagor o wybodaeth am y dreftadaeth adeiledig. | |
| 41 | Mae Cymdeithas yr Iaith yn galw am fwy o gyfarwyddyd ynglŷn â'r Gymraeg, yn arbennig o ran blaenau siop.<br><br>Rydym yn galw am ganllawiau clir yn y canllawiau yn ymwneud â'r ardal cadwraeth bod angen i unrhyw arwyddion siop fod yn uniaith Gymraeg neu'n ddwyieithog gyda'r Gymraeg i'r chwith neu uwchben y Saesneg. Mae hyn yn bwysig o ran gwaead y dref, hanes y Gymraeg yn y dref a'r blaenoriaeth i'r Gymraeg. Dylid nodi bod hanes hir o ddefnydd o'r Gymraeg yn yr holl trefi mae'r ymgynghoriad yn ymwneud â nhw. Dylid mynd ati i sicrhau bod blaenau siop yn defnyddio'r Gymraeg, gan ddefnyddio pwerau gorfodi os oes rhaid.<br><br>Rydym hefyd yn galw am warchod enwau Cymraeg ar adeiladau a strydoedd o fewn yr ardaloedd cadwraeth. | Mae Polisi DM08 y Cynllun Datblygu Lleol mabwysiedig yn annog y defnydd o arwyddion a hysbysebion dwyieithog. Yn unol â'r Polisi, rhoddir caniatâd ar gyfer arwyddion ar yr amod nad ydynt yn cael effaith annerbyniol ar gymeriad gweledol ac ieithyddol yr ardal, a lle bo'n bosibl yn ei gwella'n gadarnhaol. | Amherthnasol. |

| | Llanbedr Pont Steffan | | |
|---|---|---|---|
| **ID** | **Sylw** | **Ymateb** | **Newid a Argymhellir** |
| 5 | Byddant yn gwneud gwaith cadwraeth i ryw raddau ond pan fydd angen buddsoddiad, ni fydd camau yn cael eu gweithredu oherwydd diffyg arian yn y sector cyhoeddus a phreifat. | Bydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn archwilio'r holl gyfleoedd ariannu pan fyddant yn codi er mwyn penderfynu a ellir eu defnyddio er budd yr Ardaloedd Cadwraeth. | Amherthnasol. |
| 40 | Mae Cymdeithas yr Iaith yn galw am fwy o gyfarwyddyd ynglŷn â'r Gymraeg, yn arbennig o ran blaenau siop.<br><br>Rydym yn galw am ganllawiau clir yn y canllawiau yn ymwneud â'r ardal cadwraeth bod angen i unrhyw arwyddion siop fod yn uniaith Gymraeg neu'n ddwyieithog gyda'r Gymraeg i'r chwith neu uwchben y Saesneg. Mae hyn yn bwysig o ran gwaead y dref, hanes y Gymraeg yn y dref a'r blaenoriaeth i'r Gymraeg. Dylid nodi bod hanes hir o ddefnydd o'r Gymraeg yn yr holl trefi mae'r ymgynghoriad yn ymwneud â nhw. Dylid mynd ati i sicrhau bod blaenau siop yn | Mae Polisi DM08 y Cynllun Datblygu Lleol mabwysiedig yn annog y defnydd o arwyddion a hysbysebion dwyieithog. Yn unol â'r Polisi, rhoddir caniatâd ar gyfer arwyddion ar yr amod nad ydynt yn cael effaith annerbyniol ar gymeriad gweledol ac ieithyddol yr ardal, a lle bo'n bosibl yn ei gwella'n gadarnhaol. | Amherthnasol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | defnyddio'r Gymraeg, gan ddefnyddio pwerau gorfodi os oes rhaid.<br><br>Rydym hefyd yn galw am warchod enwau Cymraeg ar adeiladau a strydoedd o fewn yr ardaloedd cadwraeth. | | |
| 51 | Mae **Para 7.4.4 –** Asesiad Ardal Gadwraeth – yn cyfeirio at gae criced / caeau chwarae a phafiliwn Coleg y Brifysgol: "Mae'r ardaloedd gwyrdd hyn yn helpu i ddiffinio'r ymyl datblygu ……, er y tu allan i ffin yr ardal gadwraeth". Fodd bynnag, nid yw'r Asesiad yn dweud bod y cae criced / caeau chwarae a'r pafiliwn wedi'u lleoli ar ochr ddeheuol Heol Pontfaen ac o fewn ffin anheddiad sefydledig Llanbedr Pont Steffan fel y'i diffinnir gan y Cynllun Datblygu Lleol Mabwysiedig (CDLl). Felly, mae'n gamarweiniol i nodi bod y cyfleusterau hyn yn ffurfio'r 'ymyl datblygu', yn enwedig gan fod datblygiad 'adeiledig' ar ochr ogleddol Heol Pontfaen sy'n fwy agored ac yn ffurfio'r diffiniad 'ymyl datblygu' | Rydym yn cydnabod y sylwadau a wnaed mewn perthynas â Pharagraff 7.4.4 a byddwn yn newid y gair 'colli' ac yn rhoi'r gair 'estyn' yn ei le er mwyn adlewyrchu'n well ffurf adeiledig ochr ogleddol Heol Pontfaen. | Newid y gair 'colli' i 'estyn' ym mharagraff 7.4.4 yr Arfarniad. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | mwy amlwg ar gyfer yr anheddiad wrth i chi gyrraedd trwy borth y gorllewin.<br><br>**Para. 8.2.6 –** Mae'n cyfeirio at Glandulas House sydd wedi'i leoli y tu allan i'r Ardal Gadwraeth (er ei fod yn adeilad o ddiddordeb lleol hanesyddol – fel y cyfeirir ato yn ddiweddarach ym mharagraff 5.3.4 y Cynllun Rheoli). Credwn ei fod yn gamarweiniol i gyfeirio at yr eiddo hwn yn Adran 8 – h.y. Ardaloedd Cymeriad o fewn yr Ardal Gadwraeth, oherwydd mae'r eiddo hwn yn amlwg wedi'i leoli y tu allan i'r Ardal Gadwraeth / Ardal Gymeriad.<br><br>Bydd cynigion y Cynllun Rheoli yn llwyddiannus dim ond os bydd y Cyngor yn gallu dyrannu adnoddau a chyllid digonol i Ardal Gadwraeth Llanbedr Pont Steffan.<br><br>Mae rhai adeiladau o fewn yr Ardal Gadwraeth yn wag ar hyn o bryd ac mewn cyflwr gwael iawn, sy'n golygu eu bod yn anymarferol yn fasnachol | Rydym yn cydnabod y sylwadau a wnaed mewn perthynas â pharagraff 8.2.6 a byddwn yn diwygio'r paragraff i'w gwneud yn glir bod Glandulas House wedi'i leoli y tu allan i ffin yr Ardal Gadwraeth bresennol.<br><br>Bydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn archwilio'r holl gyfleoedd ariannu pan fyddant yn codi er mwyn penderfynu a ellir eu defnyddio er budd yr Ardaloedd Cadwraeth. | Diwygio paragraff 8.2.6 i wneud yn glir bod Glandulas House wedi'i leoli y tu allan i ffin yr Ardal Gadwraeth bresennol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | i'w defnyddio eto mewn modd buddiol. Felly, dylai'r Cyngor ddyrannu adnoddau ychwanegol i hwyluso cymorth cyllid grant er mwyn gallu adfywio ac ailfeddiannu'r adeiladau hyn – yn enwedig y rhai sydd wedi'u lleoli ar hyd blaenau'r prif strydoedd.<br><br>Nid ydym yn cefnogi'r argymhelliad (Pennod 5 – Cynllun Rheoli) i'r Cyngor sefydlu Rhestr o Asedau Hanesyddol o Ddiddordeb Lleol Arbennig heb fod cymorth grant ariannol addas ar gael i helpu i gadw/cynnal a gwella eu golwg– fel arall, mae'r asedau hyn yn debygol o ddirywio ymhellach yn enwedig os rhoddir 'statws gwarchodedig ychwanegol' iddynt – gyda chostau rhagdybiedig gwella/cynnal a chadw yn y dyfodol yn cynyddu'n gymesur. | Ar hyn o bryd, dim ond argymhellion yw cynigion y Cynllun Rheoli a bydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn ystyried a ddylid eu gweithredu neu beidio. Byddai angen ymgynghori pellach ar y rhan fwyaf o argymhellion, gan gynnwys cyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4, unrhyw estyniad i ffiniau a phrosiectau rhestru lleol, a byddai angen eu mabwysiadu trwy weithdrefnau perthnasol y Cyngor cyn eu gweithredu. Dylid nodi bod yr Awdurdod Cynllunio Lleol wedi derbyn llythyr gan Lywodraeth Cymru ym mis Medi 2022 yn annog defnyddio 'rhestru lleol'. Os yw 'rhestru lleol' yn cael ei ddatblygu, byddai hyn yn unol â chanllawiau Cadw. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Mae **paragraff 2.3** o'r Cynllun Rheoli Ardal Gadwraeth arfaethedig yn cynnig y dylai'r Cyngor gyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4 (1 neu 2), fodd bynnag, rydym ni'n poeni y byddai'r cynigion hyn yn effeithio ar gost adnewyddu / adfywio'r stoc adeiladau presennol yn y dyfodol, heb fod cymorth cyllid grant addas ar gael. | O ran cyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4, ni fyddai hwn yn cael ei weithredu heb ymgynghori pellach, a byddai angen ei fabwysiadu trwy weithdrefnau perthnasol y Cyngor cyn ei weithredu. | |

| | **Llandysul** | | |
|---|---|---|---|
| **ID** | **Sylw** | **Ymateb** | **Newid a Argymhellir** |
| 42 | Mae Cymdeithas yr Iaith yn galw am fwy o gyfarwyddyd ynglŷn â'r Gymraeg, yn arbennig o ran blaenau siop.<br><br>Rydym yn galw am ganllawiau clir yn y canllawiau yn ymwneud â'r ardal cadwraeth bod angen i unrhyw arwyddion siop fod yn uniaith Gymraeg neu'n ddwyieithog gyda'r Gymraeg i'r chwith neu uwchben y Saesneg. Mae hyn yn bwysig o ran gwaead y dref, hanes y Gymraeg yn y dref a'r blaenoriaeth i'r Gymraeg. Dylid nodi | Mae Polisi DM08 y Cynllun Datblygu Lleol mabwysiedig yn annog y defnydd o arwyddion a hysbysebion dwyieithog. Yn unol â'r Polisi, rhoddir caniatâd ar gyfer arwyddion ar yr amod nad ydynt yn cael effaith annerbyniol ar gymeriad gweledol ac ieithyddol yr ardal, a lle bo'n bosibl yn ei gwella'n gadarnhaol. | Amherthnasol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | bod hanes hir o ddefnydd o'r Gymraeg yn yr holl trefi mae'r ymgynghoriad yn ymwneud â nhw. Dylid mynd ati i sicrhau bod blaenau siop yn defnyddio'r Gymraeg, gan ddefnyddio pwerau gorfodi os oes rhaid.<br><br>Rydym hefyd yn galw am warchod enwau Cymraeg ar adeiladau a strydoedd o fewn yr ardaloedd cadwraeth. | | |

| | **Ceinewydd** | | |
|---|---|---|---|
| **ID** | **Sylw** | **Ymateb** | **Newid a Argymhellir** |
| 14 | Mae'r rhan fwyaf o gymeriad a golwg y tai yn yr ardal gadwraeth eisoes wedi cael eu heffeithio'n negyddol o ganlyniad i benderfyniadau cynllunio anghyson dros y blynyddoedd oedd yn ddibynnol ar y swyddog cynllunio perthnasol, e.e. paneli solar, adeiladau dormer (ychwanegiad a dim dyluniad cyson). Mae'n dda i ddarllen bod mannau agored yn bwysig ac angen eu cadw, a gobeithio y bydd hynny'n golygu na fydd unrhyw | Mae'r gwasanaeth cynllunio yn cydnabod bod prinder adnoddau a sgiliau yn golygu nad yw penderfyniadau cynllunio a gorfodi ynghylch Ardaloedd Cadwraeth wedi bod yn flaenoriaeth i'r gwasanaeth bob amser. Fodd bynnag, y gobaith yw y bydd cyflwyno Arfarniadau Ardaloedd Cadwraeth a Chynlluniau Rheoli manwl wedi'u mabwysiadu fel Canllawiau Cynllunio Atodol, ochr yn ochr â recriwtio | Amherthnasol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | ddatblygiadau mewnlenwi chwerthinllyd pellach (fel y tŷ y tu ôl i'r maes parcio gwaelod – Paragon – sy'n cael ei adeiladu ar hyn o bryd). A hefyd dim datblygiadau anaddas megis yr estyniad a ychwanegwyd at yr adeilad hanesyddol y tu cefn i'r clwb hwylio y cyfeirir ato yn y ddogfen hon – a gafodd hyn ganiatâd cynllunio erioed a sut cafodd caniatâd cynllunio preswyl ei roi mewn lleoliad o'r fath. Hefyd yn falch o ddarllen am warchod cefn tai gan fod llawer o drigolion wedi codi hyn gyda'r adran gynllunio, e.e. dormer bocs diweddar wedi cael ei ychwanegu at eiddo dim ond i'r adran gynllunio ddweud y gallai perchennog y tŷ wneud cais am ganiatâd ôl-weithredol yn unig. | Swyddog Cynllunio Arbenigol ar gyfer Treftadaeth a'r adnoddau ychwanegol a geisir ar gyfer y gwasanaeth gorfodi yng nghyllideb 2025/2026, yn sicrhau bod y gwaith hwn yn cael ei flaenoriaethu yn y dyfodol. | |
| 20 | Mae'n dibynnu a ellir gweithredu'r awgrymiadau mewn ffordd deg a chyson.<br>Mae Ceinewydd yn lle prydferth ac mae trigolion ac ymwelwyr wrth eu bodd â'i gymeriad unigryw. Er mwyn i hyn gael ei barchu, ei gadw, a'i drysori, ni all y Cyngor ddewis a dethol yr hyn y mae'n ei ganiatáu a ddim yn ei ganiatáu i siwto ei hun. | Mae'r gwasanaeth cynllunio yn cydnabod bod prinder adnoddau a sgiliau yn golygu nad yw penderfyniadau cynllunio a gorfodi ynghylch Ardaloedd Cadwraeth wedi bod yn flaenoriaeth i'r gwasanaeth bob amser. Fodd bynnag, y gobaith yw y bydd cyflwyno Arfarniadau Ardaloedd Cadwraeth a Chynlluniau Rheoli | Amherthnasol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Mae tystiolaeth bod hyn wedi digwydd yn hanesyddol eisoes gan fod pobl leol yn aml yn methu deall sut y cafodd rhai prosiectau eu caniatáu pan na chafodd eraill eu caniatáu – yn fwyaf diweddar sut y cafodd sied ar y pier ei droi'n llety gwyliau!<br><br>Hyd yn oed yn y dogfennau arfarnu a rheoli mae enghreifftiau o wrthddweud – un amlwg iawn yw'r broblem parcio hirsefydlog yn ystod y tymor gwyliau y mae angen rhoi sylw iddi ar fyrder os ydym am gadw ein busnesau ar agor a chael cymuned sy'n ffynnu.<br><br>Er y cydnabyddir hyn, os yw'r cais cynllunio presennol ar gyfer datblygiad mawr ar y maes parcio ger yr orsaf dân yn cael ei ganiatáu, mae'n gwneud o'r holl ymarfer hwn yn destun gwawd! Er bod y safle yn dechnegol ychydig y tu allan i'r ardal gadwraeth, bydd yn cael fawr effaith enfawr ar yr holl le. Mae'n ymddangos ein bod ni | manwl wedi'u mabwysiadu fel Canllawiau Cynllunio Atodol, ochr yn ochr â recriwtio Swyddog Cynllunio Arbenigol ar gyfer Treftadaeth a'r adnoddau ychwanegol a geisir ar gyfer y gwasanaeth gorfodi yng nghyllideb 2025/2026, yn sicrhau bod y gwaith hwn yn cael ei flaenoriaethu yn y dyfodol.<br><br>Mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â mabwysiadu'r Arfarniadau Ardaloedd Cadwraeth a Chynlluniau Rheoli Drafft fel Canllawiau Cynllunio Atodol. Mae trigolion lleol yn cael cyfle i wneud sylwadau ar geisiadau unigol fel rhan o'r broses benderfynu. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | I GYD yn cytuno bod angen MWY o le parcio ar Geinewydd NID llai!<br><br>Mae'n sicr yn annoeth ac yn amhosibl i gyfiawnhau atal deiliaid tai unigol rhag, dyweder, ychwanegu opsiynau ynni gwyrdd i'w cartrefi mewn ffordd sensitif er mwyn helpu gyda'r costau byw uwch yn y byd sydd ohoni (e.e. paneli solar, gwydro dwbl ac ati – y mae'r rhan fwyaf ohonynt wedi cael eu hychwanegu at lawer o'r tai o fewn yr ardal gadwraeth yn barod beth bynnag, gan gynnwys un sy'n eiddo i gymdeithas dai) ar y naill law, ac eto ar y llaw arall, hyd yn oed yn ystyried caniatáu dolur llygad o ddatblygiad hollol amhriodol a fydd yn ormod o faich ar seilwaith sydd eisoes mewn trafferth? Nid yw'r datblygiad arfaethedig hwn ar gyfer 'tai cymdeithasol' yng nghanol y dref hyd yn oed yn cyd-fynd ag unrhyw ran o'r eiddo cyfagos nac, yn bwysicach fyth, â'r ethos o gadw "naws" ein dref hoff mewn unrhyw ffordd. | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Pan mae'r cynlluniau rheoli'n sôn am orfodi'r holl fanylion ynglŷn â sut mae eiddo unigol yn edrych o'r tu allan er mwyn cadw'r esthetig (waeth pa mor effeithlon, fforddiadwy a chyfforddus y mae'n eu gwneud nhw i fyw ynddynt mewn gwirionedd) ar y naill law, ond yna mae datblygiad – un a wrthodwyd o'r blaen rai blynyddoedd yn ôl gan ei fod yn cael ei ystyried yn amhriodol ar gyfer yr ardal am sawl rheswm – yn sydyn iawn yn cael ei ystyried, mae i'w weld yn rhyfeddol ac yn wir yn hollol wirion. Nid yn unig y byddai hyn yn gwneud niwed difrifol i enw da'r Cyngor ac ymddiriedaeth y gymuned yn y gweithdrefnau cynllunio dan sylw, ond byddai'r sgil-effaith yn sicr o arwain at golli parch llwyr at y rhai sy'n gwneud y penderfyniadau hyn am anwybyddu gwir bryderon y rhai sy'n byw ac yn gweithio yng Ngheinewydd trwy gydol y flwyddyn.<br><br>Mae'n iawn ei ganmol a'i alw'n "drysor" ar arfordir Ceredigion, ond mae trysorau fel arfer yn | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | cael eu gofalu amdanynt yn dda, eu trysori a'u gwerthfawrogi – pe byddech yn fodlon gwrando ar drigolion Ceinewydd, rwy'n siŵr mai ychydig iawn fyddai'n teimlo bod Cyngor Ceredigion yn teimlo felly am ein tref annwyl ar hyn o bryd. | | |
| 26 | Rwy'n teimlo bod y cysyniad o gadwraeth yn fater byd newydd. Mae rhywfaint o gadwraeth hanesyddol yn dda ond o'i gymryd i'w ddiwedd naturiol byddem yn byw mewn aneddiadau Neolithig gan ofni cynnydd o unrhyw fath. Er bod yr ardal gadwraeth wedi bodoli ers 1969, mae gormod o ddatblygiadau hyll wedi cael eu codi (ffenestri dormer ar Marine Terrace (pob un yn rhestredig Gradd 2) Tra bod rhai wedi eu rhestru gyda dormerau eisoes yn eu lle. Hefyd y Ffatri Bysgod, ffeiedd-dra swyddfa palasaidd yr Harbwrfeistri a hen Storfa Gwylwyr y Glannau – o fewn cwrtil i'r pier cerrig Gradd 2. | Mae gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol ddyletswydd statudol i lunio a chyhoeddi cynigion ar gyfer cadw a gwella Ardaloedd Cadwraeth yng Ngheredigion. Mae'r gwasanaeth Cynllunio yn cydnabod bod prinder adnoddau a sgiliau yn golygu nad yw penderfyniadau cynllunio a gorfodi mewn perthynas ag Ardaloedd Cadwraeth bob amser wedi bod yn flaenoriaeth i'r gwasanaeth. Fodd bynnag, y gobaith yw y bydd cyflwyno Arfarniadau Ardaloedd Cadwraeth a Chynlluniau Rheoli manwl a fabwysiadwyd fel Canllawiau Cynllunio Atodol, ochr yn ochr â recriwtio Swyddog Cynllunio Arbenigol ar gyfer Treftadaeth a'r adnoddau ychwanegol a geisir ar gyfer y gwasanaeth gorfodi yng nghyllideb 2025/2026, | Amherthnasol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | yn sicrhau bod y gwaith hwn yn cael ei flaenoriaethu yn y dyfodol. | |
| | Nid yw digon yn cael ei wneud o'r angen am dwristiaeth ac ymwelwyr – does dim gwir gyfleoedd cyflogaeth yng Ngheredigion – dim ond darparu atyniadau twristiaeth neu eu gwasanaethu (dyna pam fod llawer o drydanwyr, adeiladwyr, peintwyr a seiri coed yn yr ardal....yn gwasanaethu siopau ac ail gartrefi). | Nodwyd y sylwadau. | |
| | Nid yw digon yn cael ei wneud o bwysigrwydd yr harbwr. Mewn cyfarfod Cynllun Lle diweddar disgrifiwyd yr harbwr fel calon ac enaid y dref. Dylem ni fod yn cynllunio i gael defnydd gwell o'r ardal ar gyfer gweithgareddau dŵr, gan gynnwys teithiau cychod, pysgota masnachol a gweithgareddau hamdden | Mae'r tabl o dan baragraff 4.5.6 yn nodi pwysigrwydd y Pier a'r Harbwr. | |
| 43 | Mae Cymdeithas yr Iaith yn galw am fwy o gyfarwyddyd ynglŷn â'r Gymraeg, yn arbennig o ran blaenau siop. | Mae Polisi DM08 y Cynllun Datblygu Lleol mabwysiedig yn annog y defnydd o arwyddion a hysbysebion dwyieithog. Yn unol â'r Polisi, rhoddir caniatâd ar gyfer arwyddion ar yr amod | Amherthnasol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Rydym yn galw am ganllawiau clir yn y canllawiau yn ymwneud â'r ardal cadwraeth bod angen i unrhyw arwyddion siop fod yn uniaith Gymraeg neu'n ddwyieithog gyda'r Gymraeg i'r chwith neu uwchben y Saesneg. Mae hyn yn bwysig o ran gwaead y dref, hanes y Gymraeg yn y dref a'r blaenoriaeth i'r Gymraeg. Dylid nodi bod hanes hir o ddefnydd o'r Gymraeg yn yr holl trefi mae'r ymgynghoriad yn ymwneud â nhw. Dylid mynd ati i sicrhau bod blaenau siop yn defnyddio'r Gymraeg, gan ddefnyddio pwerau gorfodi os oes rhaid.<br><br>Rydym hefyd yn galw am warchod enwau Cymraeg ar adeiladau a strydoedd o fewn yr ardaloedd cadwraeth. | nad ydynt yn cael effaith annerbyniol ar gymeriad gweledol ac ieithyddol yr ardal, a lle bo'n bosibl yn ei gwella'n gadarnhaol. | |
| 44 | Mae Cymdeithas yr Iaith yn galw am fwy o gyfarwyddyd ynglŷn â'r Gymraeg, yn arbennig o ran blaenau siop.<br><br>Rydym yn galw am ganllawiau clir yn y canllawiau yn ymwneud â'r ardal cadwraeth bod | Mae Polisi DM08 y Cynllun Datblygu Lleol mabwysiedig yn annog y defnydd o arwyddion a hysbysebion dwyieithog. Yn unol â'r Polisi, rhoddir caniatâd ar gyfer arwyddion ar yr amod nad ydynt yn cael effaith annerbyniol ar | Amherthnasol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | angen i unrhyw arwyddion siop fod yn uniaith Gymraeg neu'n ddwyieithog gyda'r Gymraeg i'r chwith neu uwchben y Saesneg. Mae hyn yn bwysig o ran gwaead y dref, hanes y Gymraeg yn y dref a'r blaenoriaeth i'r Gymraeg. Dylid nodi bod hanes hir o ddefnydd o'r Gymraeg yn yr holl trefi mae'r ymgynghoriad yn ymwneud â nhw. Dylid mynd ati i sicrhau bod blaenau siop yn defnyddio'r Gymraeg, gan ddefnyddio pwerau gorfodi os oes rhaid.<br><br>Rydym hefyd yn galw am warchod enwau Cymraeg ar adeiladau a strydoedd o fewn yr ardaloedd cadwraeth. | gymeriad gweledol ac ieithyddol yr ardal, a lle bo'n bosibl yn ei gwella'n gadarnhaol. | |
| 49 | At ei gilydd, diolch i chi am ddogfen gynhwysfawr a manwl ac ymgais wych i ddal holl nodweddion ardal gadwraeth Ceinewydd. Yn anffodus, mae'n rhaid bod hyn a'r Arfarniadau eraill wedi costio ffortiwn i drethdalwyr Ceredigion a'm teimlad cyntaf oedd y gallai'r arian fod wedi cael ei ddefnyddio'n well i weithredu neu orfodi'r gweithdrefnau sy'n bodoli. | Ariannwyd yr Arfarniadau Ardaloedd Cadwraeth a Chynlluniau Rheoli o Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU ac nid o gyllideb Cyngor Sir Ceredigion. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | **Paragraff 4.5.5:** Rhaid bod yn ofalus wrth wneud datganiad fel 'datgysylltiad rhwng y dref uchaf ac isaf', sef 'twristiaid yn erbyn pobl leol'. Mae ail gartrefi yn denu llawer o ymwelwyr yn yr haf – mae'r tai yn aml yn llawn gyda phobl sy'n eu rhentu sy'n helpu i gynnal cylchrediad aer y tu mewn iddynt ac yn lleihau'r lleithder (ychydig iawn o dai yng Ngheinewydd sydd â chyrsiau atal lleithder). Mae'r ymwelwyr yn gyffredinol yn cadw ein masnachwyr mewn busnes trwy gydol y flwyddyn. | Nodir y sylwadau ynghylch y gwahaniaeth rhwng ardaloedd uchaf ac isaf y dref. Bydd yr adran hon yn cael ei diwygio i adlewyrchu'r gwahanol ddefnyddiau rhwng yr ardaloedd uchaf ac isaf. Mae'r mater o ail gartrefi, a'r berthynas rhwng hyn â nifer y twristiaid a masnach leol y tu allan i gwmpas y gwaith hwn. | Diwygio'r rhestr o dan baragraff 4.5.5 i adlewyrchu'r gwahanol ddefnyddiau rhwng y dref uchaf ac isaf. |
| | **Paragraff 4.5.6:** Mewn ymgynghoriad Cynllun Lle diweddar ar gyfer Ceinewydd yr harbwr a'i ddefnydd effeithiol oedd ar frig y goeden bwysigrwydd ym marn pobl leol. Mae hyn yn cynnwys pysgota masnachol, hwylio hamdden, cychod, nofio, y Ganolfan Chwaraeon Dŵr a'r budd twristiaeth a ddaw gyda theithiau cychod, ynghyd â'r holl weithgareddau morol, gan gynnwys presenoldeb hynod bwysig Bad Achub | Nodir y sylwadau ynglŷn â phwysigrwydd materion morol a'r diwydiannau cysylltiedig i'r dref, a bydd y tabl o dan baragraff 4.5.6 yn cael ei ddiwygio er mwyn adlewyrchu hyn. | Diwygio'r tabl o dan baragraff 4.5.6 i adlewyrchu pwysigrwydd pysgota masnachol, hwylio hamdden, cychod, nofio, y Ganolfan Chwaraeon Dŵr, teithiau cychod, a materion morol eraill, gan gynnwys bad achub pob tywydd yr RNLI. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Pob Tywydd yr RNLI (y brwydrodd y dref yn galed i'w gadw). Felly, rwy'n meddwl y dylai'r materion hyn i gyd symud i'r golofn 'pwysig iawn' yn 4.5.6.<br><br>**Adran 6.3:** O ystyried pa mor ddymunol fyddai ardal y plwyf wedi bod ar hyd yr oesoedd fel lle dymunol i fyw, mae'n debygol iawn bod aneddiadau cyn-hanesyddol i'w cael yn ardal Ceinewydd.<br><br>**Paragraff 6.3.3:** Mae hyn yn anghywir. MAE olion safle odyn galch i'w cael yng Ngheinewydd – yn union y tu allan i Siop Sglodion Mariners ac mae'r waliau i'w gweld yn glir o Faes yr Odyn a'r terasau gogleddol.<br><br>**Adran 6.4:** Gellir dadlau bod Ceinewydd yn borthladd pwysig hyd yn oed cyn adeiladu'r pier cerrig yn y 1830au. Yn sicr, roedd y Ceinewydd 'newydd' wedi rhoi hwb i bwysigrwydd y dref. Nid yn unig hwyliau a rhaffau oedd yn cael eu gwneud yn lleol, ond adeiladwyd y llongau eu | <br><br><br><br>Nid yw cofnodion amgylchedd hanesyddol yn nodi unrhyw safleoedd y gallwn eu priodoli i'r Ardal Gadwraeth a'i lleoliad.<br><br><br><br>Mae'r Arfarniad yn cyd-fynd â gwybodaeth ar Coflein sy'n nodi nad yw tystiolaeth o'r odyn galch wedi goroesi heddiw, a bod ei safle wedi cael ei wella a'i ddatblygu.<br><br><br>Mae paragraffau 6.4.1 i 6.4.8 yn cyfeirio at bwysigrwydd adeiladu llongau a'r diwydiant gwneud hwyliau a rhaffau i'r dref yn y cyfnod ôl-ganoloesol. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | hunain yma hefyd i'r ffermwyr allu allforio a mewnforio nwyddau wrth iddynt droi'n ddiwydianwyr a masnachwyr allweddol. Roedd llongau a adeiladwyd ac a ymestynnwyd yng Ngheinewydd yn masnachu ledled y byd tra bod eu capteiniaid a'u criwiau yn enwog am eu morwriaeth, eu dewrder a'u gallu. Yn anffodus, gyda dyfodiad llongau ager daeth adeiladu llongau Ceinewydd i ben yn Oes Fictoria.<br><br>**Paragraff 6.4.7:** Adeiladwyd y Gwyldy (Watchhouse) i fod yn bencadlys i'r fintai o Swyddogion Tollau Tramor a Chartref a gafodd eu hanfon yma i ddelio â'r smyglwyr yn y 18fed ganrif (dwi ddim yn siŵr ond mae'n debyg bod hyn cyn cyfnod y pier) a dylai'r adeilad hwn fod yn ganolog i hanes y dref. Mae'n rhyfedd pam na gafodd yr adeilad ei restru ym 1969 gan fod y rhan ogledd-orllewinol yn weddol gyfan tan y tân yn ystod Covid, ac ers iddo gael ei adnewyddu mae rhai ffenestri codi llwyd hollol anaddas wedi difetha'r estheteg – cyfle a gollwyd. Gellid gofyn | <br><br><br><br><br><br><br><br><br><br>Mae paragraff 3.2.4 o'r Cynllun Rheoli yn nodi nifer o adeileddau y gellid eu cynnwys ar restr o adeiladau ac adeileddau o ddiddordeb lleol. Pe bai'r argymhelliad hwn yn cael ei weithredu, bydd cymunedau lleol yn cael eu hymgynghori fel rhan o'r broses. Yn ogystal, y gobaith yw y byddai mabwysiadu'r Arfarniad Ardal Gadwraeth fel Canllawiau Cynllunio Atodol o gymorth i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau ar faterion megis addasrwydd deunyddiau. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | yr un peth am dai teuluol bach twt y Swyddogion Tollau ar waelod Rhodfa'r Wawr a'r hen Arfdy Tollau/Storfa Cyfarpar Gwylwyr y Glannau (Breeches Buoy) sydd ynghlwm wrth y prif bier. Roedd hwn yn adeilad llawn cymeriad yn ffinio'r pier (adeiledd Gradd 2), ond rywsut neu'i gilydd rhoddwyd caniatâd cynllunio i droi'r Arfdy yn llety staff/swyddfa, ond mae bellach mae'n fffugio bod yn llety Airbnb. Y dolur llygad mwyaf ar yr adeilad hwn yw'r cladin gwenithfaen llwyd – pam nad oedd tywodfaen lleol naturiol wedi cael ei ddefnyddio mewn ardal gadwraeth? (gweler 8.1.13) – dyma'r camgymeriad mwyaf gweladwy a gorliwgar y mae'r system gynllunio wedi'i wneud.<br><br>**Paragraff 7.1.3:** Rwy'n credu bod angen diwygio'r disgrifiad o Quay West. Rwy'n gwerthfawrogi ei fod yn bwynt bach, ond byddwn i'n synnu'n fawr pe gallech chi ddod o hyd i unrhyw un sy'n byw yn y dref a fyddai'n cytuno â'r | Mae paragraff 7.1.3 yr Arfarniad yn adlewyrchu hyn gan ei fod yn nodi bod Parc Gwyliau Quay West wedi ymestyn y dref ar hyd yr arfordir i'r gogledd-ddwyrain, ac er nad yw'n cael ei weld mewn gwirionedd fel rhan o'r dref mae'n weledol iawn yn y golygfeydd. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | honiad bod Quay West yn 'rhan o Geinewydd' mewn unrhyw ffordd ystyrlon.<br><br>**Paragraff 7.3.4:** Rwy'n falch eich bod yn cydnabod ac yn cytuno â'm barn mai'r harbwr/traeth yw canolbwynt y dref – mae hyn yn cadarnhau sail fy nghais ynglŷn â thabl 4.5.6. | Nodir y sylwadau ynglŷn â phwysigrwydd materion morol a'r diwydiannau cysylltiedig i'r dref, a bydd y tabl o dan baragraff 4.5.6 yn cael ei ddiwygio er mwyn adlewyrchu hyn. | Diwygio'r tabl o dan baragraff 4.5.6 i adlewyrchu pwysigrwydd pysgota masnachol, hwylio hamdden, cychod, nofio, y Ganolfan Chwaraeon Dŵr, teithiau cychod, a materion morol eraill, gan gynnwys bad achub pob tywydd yr RNLI. |
| | **Paragraff 7.3.5:** Dylid gwahardd carafanau yn yr ardal gadwraeth ond rwy'n derbyn eu gwerth o ran creu swyddi. | Mae gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol ddyletswydd statudol i gadw a gwella'r Ardal Gadwraeth wrth arfer swyddogaethau cynllunio, ac felly ni fyddai'n cymeradwyo cynigion datblygu sy'n tanseilio arwyddocâd hanesyddol a phensaernïol yr ardal. | |
| | **Paragraff 7.4.4:** Rwy'n meddwl y byddech chi'n fwy cywir pe byddech yn galw'r 'ardal fach o dir agored' beth ydyw mewn gwirionedd sef 'chwarel' (ble y cafodd y cerrig ar gyfer y pier eu naddu 200 mlynedd yn ôl). Mae sut mae'r Ffatri Bysgod yn cael aros yno, neu sut mae hyd yn oed | Bydd paragraff 7.4.4 yn cael ei ddiwygio er mwyn cyfeirio at y chwarel. Bydd pryderon ynghylch y priffyrdd yn cael eu trosglwyddo i'r adran berthnasol o'r Cyngor. | Diwygio paragraff 7.4.4 i gyfeirio at y chwarel. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | yn aros mewn busnes, y tu hwnt i'm dealltwriaeth i. Y pryder mwyaf yw bod trelars 45T, 3 echel yn gyrru'n rheolaidd trwy'r dref ac yn achosi anhrefn llwyr. | | |
| | **Paragraff 7.4.5:** Rwyf hefyd yn falch eich bod yn cydnabod bod canglwm Japan yn fygythiad difrifol i'r dref gyfan. | Nodwyd y sylwadau. | |
| | **Paragraff 8.1.7:** Dyluniadau Pensaernïol – balconïau gwydr. Byddwn yn dadlau nad yw'r rhain wedi'u hintegreiddio'n ofalus ac nid ydynt yn cyd-fynd â'r arddull hanesyddol. | Nodwyd y sylwadau. | |
| | **Paragraff 8.1.13:** NID yw'r hen Arfdy Tollau/LSA yn llety preswyl, neu o leiaf, y gred yw nad oes ganddo ganiatâd cynllunio i fod felly (gweler 6.4.7). | Nodwyd y sylwadau. | |
| | **Paragraff 8.2.3:** Yn rhyfedd ddigon, does dim biniau ar y traeth (yn anffodus, prynodd yr Adran Briffyrdd lori gasglu oedd yn rhy fawr i yrru i lawr | Nodwyd y sylwadau. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | y lôn) ac mae hyd yn oed biniau ychwanegol ar ben y prif slip ac ar y pier bob amser yn llawn bocsys cardbord caled rhai o'r siopau sglodion – nid pob un (marciau llawn i'r Cynghorydd Vaux). Nid oes modd ailgylchu'r bocsys hyn ac maen nhw'n anodd iawn eu plygu, felly mae'r biniau'n llenwi'n gyflym iawn. Mae'r gwylanod yn tynnu'r bocsys allan ac mae sbwriel yn cael ei wasgaru ym mhobman. Wedyn mae hyn yn denu llygod mawr. O ganlyniad, mae CSC yn cyflogi rhywun, bron yn llawn amser yn yr haf, i wagio'r biniau a chodi sbwriel ar y traeth. Mae'n gwneud gwaith gwych ond ar y cyfan mae i'w gweld yn drefn hynod aneffeithlon.<br><br>**Paragraff 9.1.2:** Cafodd nifer o adeiladau yn Rhes Uchel eu cofrestru yn 1969, ond ers hynny mae ffenestri dormer wedi cael eu hychwanegu (neu cawsant eu rhestru gyda nhw). Mae hyn i'w weld yn rhyfedd. Pam na chafodd unrhyw dai yn Rhodfa'r Wawr eu rhestru – mae rhai tai hyfryd i'w cael yno? Yn yr un modd, y Gwyldy | Mae paragraff 3.2.4 o'r Cynllun Rheoli yn nodi nifer o adeileddau y gellid eu cynnwys ar restr o adeiladau a adeileddau o ddiddordeb lleol. Pe bai'r argymhelliad hwn yn cael ei weithredu, byddai cymunedau lleol yn cael eu hymgynghori fel rhan o'r broses. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | (Watchhouse) (ochr ogledd-orllewinol) a'r Arfdy Tollau – efallai y dylid gwneud y rhain yn Adeiladau o Ddiddordeb Lleol? Mae'r un peth yn wir am ychydig o dai gwreiddiol yn Stryd Ioan a Stryd y Parc. Hefyd, pam nad oedd yr Ardal Gadwraeth wreiddiol yn cynnwys y tai 'crand' ar Stryd y Parc a Heol y Bryn ac ar hyd Heol Newydd? Gellid ailasesu'r gwall hwn os ydym o ddifrif ynghylch ceisio diogelu ein treftadaeth. Ond os gwneir hynny, rhaid caniatáu i berchnogion 'symud gyda'r oes' a newid pethau lle mae newid yn dda i'r estheteg ac i'r amgylchedd (gweler Gwendidau isod).<br><br>**Cryfderau:** Byddwn i'n dadlau bod y diwydiant pysgota/cychod masnachol presennol yn gryfder ynghyd â'r ehangiad diweddar yn y defnydd o syrffio, cychod dŵr a hwylio – a dylid eu cynnwys nhw i gyd. | Bydd adran Dadansoddiad Cryfderau, Gwendidau, Cyfleoedd a Bygythiadau yr Arfarniad Ardal Gadwraeth yn cael ei diweddaru i adlewyrchu pwysigrwydd chwaraeon dŵr a'r diwydiant i'r dref. | Diweddaru adran Cryfderau'r Dadansoddiad Cryfderau, Gwendidau, Cyfleoedd a Bygythiadau i adlewyrchu pwysigrwydd pysgota masnachol a chychod a hefyd ehangiad y defnydd o syrffio, cychod dŵr a hwylio. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | **Gwendidau:** Byddwn i'n rhoi 'Diffyg lle parcio' ar frig y rhestr am resymau amlwg. Byddwn hefyd yn dadlau mai 'colli nodweddion gwreiddiol' yw'r pris a dalwn am gynnydd – er enghraifft, dylai perchnogion adeiladau Gradd 2, yn yr oes sydd ohoni, gael caniatâd i ôl-ffitio cwareli gwydr dwbl i'w fframiau ffenestri Sioraidd, gwella insiwleiddio a gosod paneli solar ar y to – fel arall nid ydym yn cymryd newid hinsawdd o ddifrif.<br><br>**Cyfleoedd:** Polisïau cynllunio'r Cyngor a LlC i annog twristiaeth, mewnfuddsoddiad a chyfleoedd cyflogaeth. Heb dwristiaeth, bydd Ceredigion yn marw.<br><br>**Bygythiadau:** Beth yw ystyr microgynhyrchu ymwthiol? | Nid yw'r asedau a nodir yn y Dadansoddiad Cryfderau, Gwendidau, Cyfleoedd a Bygythiadau mewn unrhyw drefn arbennig, ac felly ni ddylid cymryd bod un gwendid yn fwy pwysig na'r llall dim ond ar sail ei safle yn y tabl.<br><br>Nodwyd y sylwadau.<br><br>Mae microgynhyrchu yn cyfeirio at dechnolegau ynni adnewyddadwy ar raddfa fach megis paneli solar. | |

| | Tregaron | | |
|---|---|---|---|
| **ID** | **Sylw** | **Ymateb** | **Newid a Argymhellir** |
| 4 | Mae peth o'r wybodaeth / ffeithiau hanesyddol a nodir yn yr adroddiad yn anghywir. Mae peth o'r wybodaeth hefyd wedi dyddio bellach yn dilyn newidiadau yn y defnydd o rai o'r adeiladau a restrir.<br><br>Mae'r byngalo o ddechrau'r 20fed ganrif a godwyd yn y dull trefedigaethol gyda feranda mawr o'r enw Y Fron (ar Ffordd Dewi) heb ei gynnwys yn yr ardal gadwraeth. Mae'r eiddo hwn yn adeiledd unigryw a dylid ei gadw felly er bod ffenestri UPVC wedi'u gosod arno yn ddiweddar yn anffodus. Roedd yr adeilad yn rhan bwysig o hanes y dref oherwydd dyma oedd y feddygfa leol. | Roedd y wybodaeth a gyflwynwyd yn gywir, hyd orau ein gwybodaeth, adeg ysgrifennu'r adroddiad ac mae'n darparu llinell sylfaen ar gyfer asesu'r Ardal Gadwraeth yn ei herbyn. Cydnabyddir y bydd y sefyllfa yn yr Ardal Gadwraeth yn newid dros oes y dogfennau a dyna pam yr argymhellir adolygiad bob 5 i 10 mlynedd. Mae croeso i'r atebydd gysylltu â'r Awdurdod Cynllunio Lleol i dynnu sylw at unrhyw fân wallau yn y dogfennau.<br><br>Mae'r estyniad ffin a argymhellir yn cynnwys Y Fron. Argymhelliad yn unig yw'r estyniad ffin arfaethedig ar hyn o bryd. Bydd unrhyw estyniad i ffin yn gofyn am ymgynghoriad pellach a bydd angen ei gymeradwyo trwy weithdrefnau perthnasol y Cyngor. | Amherthnasol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 16 | Bydd ehangu ardal Tregaron yn cyfyngu ar gyfleoedd datblygu a gwella yn yr ardal. Mae angen difrifol i wella nifer o dai y tu mewn i'r ardal estynedig – bydd yr estyniad hwn yn gwneud hyn yn anodd ac yn ddrutach gan olygu y bydd eiddo'n mynd yn adfail ac yn wag ar adeg pan mae angen tai fforddiadwy ar gyfer pobl ifanc. Mae cynnal nodweddion ar gyfer rhai eiddo yn dderbyniol, ond bydd y rheolau a'r cyfyngiadau a ddaw yn sgil cael eu cynnwys yn yr ardal gadwraeth hon yn cael effaith negyddol, felly rwy'n eich annog i beidio ag ymestyn ardal Tregaron y tu hwnt i'r ffiniau presennol. | Argymhelliad yn unig yw'r estyniad ffin arfaethedig ar hyn o bryd. Bydd unrhyw estyniad i ffin yn gofyn am ymgynghoriad pellach a bydd angen ei gymeradwyo trwy weithdrefnau perthnasol y Cyngor. | Amherthnasol. |
| 35 | Bydd ymestyn y ffin yn achosi problemau megis mwy o gostau a chyfyngiadau ar ba waith y gellir ei wneud ar eiddo a fydd yn ei dro yn oedi'r broses i drigolion. | Mae gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol ddyletswydd statudol i benderfynu pa rannau o'r Sir sy'n ardaloedd o ddiddordeb pensaernïol a hanesyddol arbennig y mae'n ddymunol cadw neu wella eu cymeriad neu eu golwg a'u dynodi'n Ardaloedd Cadwraeth. Yn ogystal, argymhelliad yn unig yw'r estyniad ffin arfaethedig ar hyn o bryd. Bydd angen ymgynghori pellach ar unrhyw | Amherthnasol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | estyniad i'r ffin a bydd angen ei gymeradwyo trwy weithdrefnau perthnasol y Cyngor. | |
| 36 | Dim gwrthwynebiad i'r cynllun cadwraeth drafft a derbyn yr argymhellion. | Nodwyd y gefnogaeth. | Amherthnasol. |
| 52 | Dim gwrthwynebiad i'r cynllun cadwraeth drafft a derbyn yr argymhellion. Fodd bynnag, mae pryderon wedi eu codi ynglŷn â'r broses y bydd rhaid i drigolion fynd drwyddi i gael caniatâd os oes angen gwneud gwaith ar eu heiddo, megis costau ychwanegol, achosi oedi i wneud gwaith cynnal a chadw heb fod o fudd i unrhyw un.<br><br>Rydym newydd gael gwybod am grŵp cymunedol oedd wedi gorfod talu swm mawr o arian am gynlluniau a mynd trwy'r broses gynllunio i newid ffenestri tebyg at ei debyg yn eu hadeilad – roedd hyn wedi creu llawer o broblemau fel oedi cyn gallu gwneud y gwaith hanfodol hwn, ac mae'n faich ariannol ychwanegol i'r pwyllgor rheoli. | Nodwyd y gefnogaeth. Mae gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol ddyletswydd statudol i gadw a gwella'r Ardal Gadwraeth wrth arfer swyddogaethau cynllunio. | Amherthnasol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Mae sawl gwall yn yr adroddiad y mae angen rhoi sylw iddynt cyn cyhoeddi'r fersiwn derfynol. Allwch chi plîs sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen yn gywir. | | |
| 45 | Mae Cymdeithas yr Iaith yn galw am fwy o gyfarwyddyd ynglŷn â'r Gymraeg, yn arbennig o ran blaenau siop.<br><br>Rydym yn galw am ganllawiau clir yn y canllawiau yn ymwneud â'r ardal cadwraeth bod angen i unrhyw arwyddion siop fod yn uniaith Gymraeg neu'n ddwyieithog gyda'r Gymraeg i'r chwith neu uwchben y Saesneg. Mae hyn yn bwysig o ran gwaead y dref, hanes y Gymraeg yn y dref a'r blaenoriaeth i'r Gymraeg. Dylid nodi bod hanes hir o ddefnydd o'r Gymraeg yn yr holl trefi mae'r ymgynghoriad yn ymwneud â nhw. Dylid mynd ati i sicrhau bod blaenau siop yn defnyddio'r Gymraeg, gan ddefnyddio pwerau gorfodi os oes rhaid. | Mae Polisi DM08 y Cynllun Datblygu Lleol mabwysiedig yn annog y defnydd o arwyddion a hysbysebion dwyieithog. Yn unol â'r Polisi, rhoddir caniatâd ar gyfer arwyddion ar yr amod nad ydynt yn cael effaith annerbyniol ar gymeriad gweledol ac ieithyddol yr ardal, a lle bo'n bosibl yn ei gwella'n gadarnhaol. | Amherthnasol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Rydym hefyd yn galw am warchod enwau Cymraeg ar adeiladau a strydoedd o fewn yr ardaloedd cadwraeth. | | |

| | Heb fod yn Benodol i unrhyw Dref | | |
|---|---|---|---|
| **ID** | **Sylw** | **Ymateb** | **Newid a Argymhellir** |
| | Sylwch na fydd ein sylwadau yn effeithio ar unrhyw sylwadau y byddwn efallai yn dymuno eu gwneud pan fydd ymgynghoriad ar unrhyw geisiadau cynllunio dilynol a all godi mewn lleoliadau a gwmpesir gan y Canllawiau Cynllunio Atodol o fewn yr wyth ffin Ardal Gadwraeth.<br><br>**Graddfa a Natur**<br>Nodwn fod y Cynlluniau Rheoli Cadwraeth (Cynlluniau Gweithredu â Blaenoriaeth) drafft yn cynnwys argymhellion i ymestyn ffiniau nifer o'r Ardaloedd Cadwraeth, ac mae estyniad arfaethedig Ardal Gadwraeth Aberystwyth yn cynnwys ymestyn y ffin i ardaloedd bach sydd o | Nodwyd y sylwadau. | Amherthnasol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | fewn Ardal Gwarchodaeth Arbennig (AGA) Gogledd Aberteifi ac Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) Forol Gorllewin Cymru. Nodwn hefyd fod ffiniau'r Ardaloedd Cadwraeth presennol eraill naill ai wedi'u lleoli'n rhannol o fewn ardaloedd gwarchodedig neu'n union gerllaw ardaloedd gwarchodedig.<br><br>Mae'r rhan fwyaf o'r camau gweithredu/argymhellion yn cynnwys codi ymwybyddiaeth, cynhyrchu canllawiau a thaflenni, hyfforddiant, gorfodi yn ogystal â mentrau ariannu mewn partneriaeth a chymunedol a allai arwain at waith datblygu ar raddfa fach a chynnwys gwneud gwelliannau amgylcheddol i adeiladau, adeileddau yn ogystal â mannau awyr agored fel llwybrau troed glan yr afon a safleoedd sydd wedi'u lleoli o fewn ardaloedd lle mae perygl o lifogydd.<br><br>Nid oes unrhyw sylwadau anffafriol gennym i'w gwneud mewn perthynas â'r Canllawiau | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Cynllunio Atodol Drafft, fodd bynnag, rydym yn eich cyfeirio at ein cyngor ar y wefan ar ystyriaethau amgylcheddol a'r asesiadau y gall fod angen eu cwblhau er mwyn cefnogi unrhyw geisiadau/prosiectau cynllunio yn y dyfodol mewn perthynas ag ardaloedd sy'n ddarostyngedig i'r CCA.<br><br>**Materion Eraill**<br>Mae ein sylwadau uchod yn ymwneud yn benodol â materion sydd wedi'u cynnwys ar ein rhestr wirio, Gwasanaeth Cynghori Cynllunio Datblygu: Pynciau Ymgynghori (Medi 2018) sydd wedi'i chyhoeddi ar ein gwefan. Nid ydym wedi ystyried effeithiau posibl ar faterion eraill ac nid ydym yn diystyru'r posibilrwydd y bydd y datblygiad arfaethedig yn effeithio ar fuddiannau eraill.<br><br>Rydym yn cynghori unrhyw ymgeiswyr yn y dyfodol mai eu cyfrifoldeb nhw, yn ogystal â chaniatâd cynllunio, yw sicrhau eu bod yn cael | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | yr holl hawlenni/caniatadau/trwyddedau eraill sy'n berthnasol i'w datblygiad. Cyfeiriwch at ein gwefan am fanylion pellach. | | |

# Atodiad 4: Sylwadau ar Unrhyw Adeiladau ac Adeileddau Eraill o Arwyddocâd Hanesyddol a Phensaernïol o fewn yr Ardal Gadwraeth neu ei Lleoliad

Mae'r sylwadau yn yr adran hon yn cynnwys y rhai a ddarparwyd mewn ymateb i Gwestiwn 5 y Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad sy'n gofyn a oedd unrhyw adeiladau neu adeileddau eraill yr ystyrir eu bod o arwyddocâd hanesyddol neu bensaernïol o fewn yr Ardal Gadwraeth neu ei lleoliad y dylid eu nodi yn y Arfarniad.

| | Aberaeron | | |
|---|---|---|---|
| **ID** | **Sylw** | **Ymateb** | **Newid a Argymhellir** |
| 15 | Neuadd y Dref a'r Neuadd Goffa | Mae Neuadd y Dref Aberaeron yn Adeilad Rhestredig a cheir disgrifiad helaeth ohono ar Coflein. O ran y Neuadd Goffa, er ei bod yn cael ei hystyried yn ased i'r dref, mae wedi'i gwahanu oddi wrth graidd hanesyddol y dref gan ardaloedd nad oes ganddynt ddigon o ddiddordeb hanesyddol neu bensaernïol. Felly, nid yw wedi ei argymell i'w gynnwys o fewn unrhyw estyniad arfaethedig i'r Ardal Gadwraeth. Fodd bynnag, byddai angen ymgynghori pellach ar gyfer unrhyw estyniad i'r ffin a byddai'n rhaid cytuno arno trwy weithdrefnau perthnasol y | Amherthnasol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Cyngor. Efallai hefyd fod lle i ddynodi'r Neuadd Goffa yn 'Adeilad o Ddiddordeb Lleol' yn y dyfodol er mwyn ei gwarchod ymhellach. | |
| 17 | Y Neuadd Goffa ar Stryd y Fro gan ei bod yn adeilad pwysig yn hanes y dref. | Er bod y Neuadd Goffa yn cael ei hystyried yn ased i'r dref, mae wedi'i gwahanu oddi wrth graidd hanesyddol y dref gan ardaloedd nad oes ganddynt ddigon o ddiddordeb hanesyddol neu bensaernïol. Felly, nid yw wedi ei argymell i'w gynnwys o fewn unrhyw estyniad arfaethedig i'r Ardal Gadwraeth. Fodd bynnag, byddai angen ymgynghori pellach ar gyfer unrhyw estyniad i'r ffin a byddai'n rhaid cytuno arno trwy weithdrefnau perthnasol y Cyngor. Mae'n bosibl hefyd y bydd lle i ddynodi'r Neuadd Goffa yn 'Adeilad o Ddiddordeb Lleol' yn y dyfodol er mwyn ei diogelu ymhellach. | Amherthnasol. |
| 46 | Parc-y-Fro | Mae rhan o Barc-y-Fro wedi'i gynnwys o fewn ffin yr Ardal Gadwraeth. Mae hyn yn cynnwys y rhan fwyaf o'r coed. Mae gweddill y Parc wedi'i warchod oherwydd ei fod yn cael ei ystyried yn rhan o leoliad yr ardal gadwraeth ac felly'n cael | Amherthnasol |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | ei warchod gan ddeddfwriaeth a pholisi cynllunio. | |

| | Aberteifi | | |
|---|---|---|---|
| **ID** | **Sylw** | **Ymateb** | **Newid a Argymhellir** |
| 7 | Dylid rhoi sylw brys i'r Tabernacl. | Mae paragraff 9.2.1 o'r Cynllun Rheoli Ardal Gadwraeth yn nodi bod Capel y Tabernacl yn wag ac yn cael effaith negyddol ar gymeriad a golwg yr ardal. | Amherthnasol. |
| 27 | Mae hyn yn cynnwys ardaloedd Netpool: Adeiladu Cychod-Cei-Morol a Mwldan Isaf/Canol, mae nifer o'r safleoedd hyn naill ai'n un neu fwy o adeiladau rhestredig Gradd II Cadw, Cofnod Amgylchedd Hanesyddol, Cofnodion Henebion Cenedlaethol Cymru. I'w ychwanegu: Bythynnod Netpool, Diwydiant Adeiladu Llongau Netpool, Ceiau Netpool, Mwldan Isaf, wal, pyrth a mynediad i'r dref a llednant i safleoedd Mwldan Canol/Uchaf a Bath-House? | Ystyrir bod ardal Netpool rhwng Bythynnod Netpool a ffin orllewinol bresennol yr Ardal Gadwraeth wedi'i gwahanu oddi wrth graidd hanesyddol y dref gan ardaloedd a fyddai'n gwanhau ac yn tynnu oddi wrth gydlyniad cymeriad a golwg yr Ardal Gadwraeth gyffredinol. Mae'r rhain yn cynnwys meysydd parcio (hen safle gwaith nwy), caeau chwarae modern a gwaith carthffosiaeth ymhellach i'r gorllewin, tra bod yr Ardal Gadwraeth bresennol yn cynnwys y dref ganoloesol a datblygiad ôl-ganoloesol mewn lleoliad trefol. Nid oes unrhyw adeiladau | Amherthnasol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Pam nad yw Stryd y Cei wedi'i nodi fel ardal â waliau pyrth ac o werth hanesyddol? | rhestredig neu henebion cofrestredig o fewn yr ardal hon ac mae asesiad archeolegol gan y Cofnod Amgylchedd Hanesyddol yn crynhoi, *"Nid yw unrhyw dystiolaeth wedi goroesi ar gyfer y diwydiant adeiladu cychod. Cafodd yr ardal ei defnyddio ar gyfer dympio rwbel ar ddiwedd yr 20fed ganrif".*<br><br>Mae Mwldan Isaf a Mwldan Canol yn ffurfio ffin orllewinol yr Ardal Gadwraeth. Mae un Adeilad Rhestredig ar hyd y ffordd hon sydd wedi ei gynnwys o fewn ffin yr Ardal Gadwraeth ac a arolygwyd ynghyd â'r holl adeiladau eraill ar hyd y darn hwn. Tynnwyd lluniau o bob adeilad yn ystod yr arolwg ffotograffig. Nid oes unrhyw henebion cofrestredig neu adeiladau rhestredig eraill o fewn yr ardal arfaethedig. Mae cofnodion y Cofnod Amgylchedd Hanesyddol a Chofnod Henebion Cenedlaethol Cymru yn awgrymu mai prin iawn yw'r nodweddion hanesyddol sydd wedi goroesi yn yr ardal hon. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 29 | Rwy'n bryderus iawn nad yw'r ardaloedd cadwraeth (a hanesyddol bwysig) canlynol yn cael eu cydnabod na'u hadolygu yn y ddogfen - Stryd y Cei, wal y dref ac ardaloedd y pyrth, ardal hen Stryd y Cei a fyddai wedi ymestyn i'r dde i ddyfrfford Mwldan, Mwldan isaf, Mwldan Canol ac ardaloedd adeiladu cychod a chei Netpool. Mae'r rhain, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, wedi'u rhestru/cydnabod naill ai ar restr Gradd II CADW, Cofnod Amgylchedd Hanesyddol neu Gofnod Henebion Cenedlaethol Cymru. Mae nifer o adeiladau hanesyddol neu bensaernïol arwyddocaol yn yr ardaloedd hyn y dylid eu nodi yn y Arfarniad.<br>O ganlyniad, hoffwn i ofyn i'r Cyngor ailystyried y briff i Griffiths Heritage er mwyn cynnwys (trwy atodiad?) adolygiad o'r ardaloedd pwysig hyn, i'r un safon â'r ddogfen ddrafft ac i adolygiad o'r fath fod ar gael ar gyfer ymgynghoriad i drigolion yr ardaloedd hyn o leiaf. | Nodwyd y sylwadau. Bydd ychwanegiadau'n cael eu gwneud i'r Arfarniad sy'n adlewyrchu pwysigrwydd Stryd y Cei ar yr amod bod cyfeiriadau dibynadwy ac adnoddau ar gael.<br><br>Ystyrir bod ardal Netpool rhwng Bythynnod Netpool a ffin orllewinol bresennol yr Ardal Gadwraeth wedi'i gwahanu oddi wrth graidd hanesyddol y dref gan ardaloedd a fyddai'n gwanhau ac yn tynnu oddi wrth gydlyniad cymeriad a golwg yr Ardal Gadwraeth gyffredinol. Mae'r rhain yn cynnwys meysydd parcio (hen safle gwaith nwy), caeau chwarae modern a gwaith carthffosiaeth ymhellach i'r gorllewin, tra bod yr Ardal Gadwraeth bresennol yn cynnwys y dref ganoloesol a datblygiad ôl-ganoloesol mewn lleoliad trefol. Nid oes unrhyw adeiladau rhestredig neu henebion cofrestredig o fewn yr ardal hon ac mae asesiad archeolegol gan y Cofnod Amgylchedd Hanesyddol yn crynhoi, *"Nid yw unrhyw dystiolaeth wedi goroesi ar gyfer y diwydiant adeiladu cychod. Cafodd yr ardal ei* | Diwygio'r Arfarniad Ardal Gadwraeth i adlewyrchu pwysigrwydd Stryd y Cei. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | *defnyddio ar gyfer dympio rwbel ar ddiwedd yr 20fed ganrif".*<br><br>Mae Mwldan Isaf a Mwldan Canol yn ffurfio ffin orllewinol yr Ardal Gadwraeth. Mae un Adeilad Rhestredig ar hyd y ffordd hon sydd wedi ei gynnwys o fewn ffin yr Ardal Gadwraeth ac a arolygwyd ynghyd â'r holl adeiladau eraill ar hyd y darn hwn. Tynnwyd lluniau o bob adeilad yn ystod yr arolwg ffotograffig. Nid oes unrhyw henebion cofrestredig neu adeiladau rhestredig eraill o fewn yr ardal arfaethedig. Mae cofnodion y Cofnod Amgylchedd Hanesyddol a Chofnod Henebion Cenedlaethol Cymru yn awgrymu mai prin iawn yw'r nodweddion hanesyddol sydd wedi goroesi yn yr ardal hon. | |
| 30 | Dylid gwarchod coed Gerddi Fictoria a choed ar hyd Ffordd Gwbert. | Mae paragraff 3.3.1 o'r Cynllun Rheoli yn argymell gwneud estyniad bach i Ardal Gadwraeth Aberteifi sy'n cynnwys Gerddi Fictoria. Bydd unrhyw estyniad i ffin yn gofyn am ymgynghoriad pellach a bydd angen ei gymeradwyo trwy weithdrefnau perthnasol y | Amherthnasol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Cyngor. Bydd pryderon ynghylch gwarchod coed yn cael eu trosglwyddo i'r Adran berthnasol o'r Cyngor. | |
| 31 | Yr hen ysbyty | Mae Ysbyty Coffa Aberteifi y tu allan i ffin yr Ardal Gadwraeth bresennol a cheir manylion am yr adeilad ar Coflein. Mae'r adeilad wedi bod yn destun cais cynllunio yn gymharol ddiweddar, ac mae'r caniatâd yn bwriadu cadw'r nodweddion presennol. | Amherthnasol. |
| 33 | Stryd y Cei gyfan am y rhesymau a nodir uchod, yn ogystal â wal hanesyddol y dref (wedi'i rhestru hefyd) sy'n rhedeg y tu ôl iddi. | Nodwyd y sylwadau. Bydd ychwanegiadau'n cael eu gwneud i'r Arfarniad sy'n adlewyrchu pwysigrwydd Stryd y Cei ar yr amod bod cyfeiriadau dibynadwy ac adnoddau ar gael. | Diwygio'r Arfarniad Ardal Gadwraeth i adlewyrchu pwysigrwydd Stryd y Cei. |
| 34 | Ie, Stryd y Cei, sy'n ardal allweddol yn hanes morol y dref, sef un o'r prif ffyrdd y mae'r dref yn hanesyddol arwyddocaol. | Nodwyd y sylwadau. Bydd ychwanegiadau'n cael eu gwneud i'r Arfarniad sy'n adlewyrchu pwysigrwydd Stryd y Cei ar yr amod bod cyfeiriadau dibynadwy ac adnoddau ar gael. | Diwygio'r Arfarniad Ardal Gadwraeth i adlewyrchu pwysigrwydd Stryd y Cei. |

| | **Aberystwyth** | | |
|---|---|---|---|
| **ID** | **Sylw** | **Ymateb** | **Newid a Argymhellir** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 9 | Pob clawdd lle mae tipio anghyfreithlon wedi digwydd oherwydd ei fod yn cael ei annog gan Gyngor Ceredigion. | Nodwyd y sylwadau. | Amherthnasol. |
| 10 | Na. | Nodwyd y sylwadau. | Amherthnasol. |
| 11 | Problemau parcio yr Hen Goleg heb eu hystyried yn y datblygiadau eliffant gwyn diweddaraf ar gyfer llwybrau beicio ar y prom. | Nodwyd y sylwadau. | Amherthnasol. |
| 28 | Nid dim ond adeiladau hanesyddol sydd wedi'u cynnwys yn yr ardal gadwraeth ond anheddau mwy diweddar o ganol y ganrif a oedd, hyd yma, â hawliau datblygu a ganiateir. | Mae Adran 6.6 yr Arfarniad Ardal Gadwraeth yn rhoi sylw i ddatblygiadau modern yn Aberystwyth. | Amherthnasol. |

| | **Ceinewydd** | | |
|---|---|---|---|
| **ID** | **Sylw** | **Ymateb** | **Newid a Argymhellir** |
| 12 | Mae Gwesty'r Queens yn adeilad sydd wedi bod yn wag ers amser ac yn cael ei 'gelcio' gan y perchennog. Barn y bobl leol yw y dylid ail-agor hwn fel tafarn ac na ddylid ei newid i fod yn dŷ preswyl. | Mae cyflwr Gwesty'r Queens wedi cael ei nodi o dan baragraff 9.2.1 o'r Cynllun Rheoli a chafodd ei ddefnydd posibl fel amgueddfa ei nodi fel rhan o'r broses ymgysylltu gyhoeddus gychwynnol o dan baragraff 4.5.5 o'r Arfarniad. Fodd bynnag, | Diwygio paragraff 4.5.5 i nodi barn y gymuned ynghylch y defnydd o Westy'r Queens. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | bydd hyn yn cael ei ddiwygio i nodi'r awydd i'r adeilad fod yn dafarn. | |
| 14 | Glan y Môr cyfan. | Gwneir cyfeiriadau at Lan y Môr trwy gydol yr Arfarniad. | Amherthnasol. |
| 21 | Na. | Nodwyd y sylwadau. | Amherthnasol. |
| 26 | Nid yw'r Drafft yn sôn ryw lawer am y Pier. Mae hwn yn adeiledd rhestredig Gradd 2, dyma'r hyn a helpodd i wneud Ceinewydd yn borthladd a chanolfan forol bwysig y sir, a hebddo byddai'r dref wedi'i thynghedu i ddychwelyd i'r 1700au ..... Byddai'n well gennyf weld fy Nhreth y Cyngor yn cael ei gwario ar ddiogelu'r pier ar gyfer holl drigolion y dref na'r miliynau sy'n cael eu gwario ar Aberaeron ar gyfer ychydig o eiddo pert ar y cei, er mor bwysig yw'r gwaith hwnnw. Yn wir, byddai'n well gennyf pe bai arian yn cael ei wario ar arolygon fel hyn a bod canlyniadau'r gwaith yn cael eu gwario ar warchod asedau sydd eisoes mewn perygl. | Mae'r Pier wedi cael sylw yn y Arfarniad yn ogystal â'i bwysigrwydd i'r gymuned leol. | Amherthnasol. |

| | |
|---|---|
| | **Llanbedr Pont Steffan** |

| ID | Sylw | Ymateb | Newid a Argymhellir |
|---|---|---|---|
| 51 | Nid oes gennym unrhyw sylwadau / gwrthwynebiadau pellach i ffin bresennol yr Ardal Gadwraeth na'r estyniad bach arfaethedig i ardal y ffin. | Nodwyd y sylwadau. | Amherthnasol. |

| | Llanbadarn Fawr | | |
|---|---|---|---|
| **ID** | **Sylw** | **Ymateb** | **Newid a Argymhellir** |
| 8 | Ysgol Cwmpadarn ar Riw Briallu, Gogerddan Arms, Llew Du | Mae paragraff 7.3.1 o'r Cynllun Rheoli yn rhoi sylw i safle modern Ysgol Cwmpadarn a'i bwysigrwydd i leoliad yr Ardal Gadwraeth. Felly, mae'r briff dylunio wedi cael ei argymell ar gyfer y safle. Mae'r Gogerddan Arms a'r Llew Du wedi cael sylw helaeth trwy gydol y Arfarniad. | Amherthnasol. |

| | Llandysul | | |
|---|---|---|---|
| **ID** | **Sylw** | **Ymateb** | **Newid a Argymhellir** |

| | Tregaron | | |
|---|---|---|---|
| **ID** | **Sylw** | **Ymateb** | **Newid a Argymhellir** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 16 | Oes modd cynnwys adeiladau ac nid ardaloedd?? Wrth edrych ar Dregaron oes modd cynnwys y Ganolfan Dreftadaeth a'r Ysbyty ond nid yr ardal gyfagos – Ffordd Dewi. | Mae ardaloedd cadwraeth wedi'u dynodi oherwydd eu gwerth grŵp sy'n golygu eu bod yn cael eu cydnabod nid yn unig am eu nodweddion unigol ond am eu harwyddocâd ar y cyd. Wedi dweud hynny, mae cyfraniad yr adeiladau i'r Ardal Gadwraeth wedi'i nodi yn yr Arfarniad a'r Cynllun Rheoli. | Amherthnasol. |
| 35 | Na. | Nodwyd y sylwadau. | Amherthnasol. |
| 36 | Dim sylw. | Nodwyd y sylwadau. | Amherthnasol. |

# Atodiad 5: Sylwadau ar Newid Ffiniau Ardaloedd Cadwraeth

Mae'r sylwadau yn yr adran hon yn cynnwys y rhai a ddarparwyd mewn ymateb i Gwestiwn 6 y Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad a ofynnodd a oedd ymgyngoreion yn meddwl y dylid gwneud unrhyw newidiadau i ffiniau presennol yr Ardaloedd Cadwraeth.

| | Aberaeron | | |
|---|---|---|---|
| **ID** | **Sylw** | **Ymateb** | **Newid a Argymhellir** |
| 15 | Ddim yn siŵr. | Nodwyd y sylwadau. | Amherthnasol. |
| 17 | Rydym yn cefnogi'r cynnig i gynnwys y 4 fila ar Stryd y Fro ac mae'r mwyafrif o'n hymddiriedolwyr yn teimlo y dylid cynnwys y Neuadd Goffa hefyd. | Nodwyd y gefnogaeth. Mae'r Neuadd Goffa wedi'i gwahanu oddi wrth yr Ardal Gadwraeth bresennol gan ardaloedd nad oes ganddynt ddigon o ddiddordeb hanesyddol neu bensaernïol. Felly, nid yw wedi ei argymell i'w gynnwys o fewn unrhyw estyniad arfaethedig i'r Ardal Gadwraeth. Fodd bynnag, byddai unrhyw newidiadau i'r ffin yn gofyn am ymgynghoriad pellach a byddai'n rhaid cytuno arnynt trwy weithdrefnau perthnasol y Cyngor. | Amherthnasol. |
| 46 | Cynnwys Parc-y-fro. | Mae rhan o Barc-y-Fro wedi'i gynnwys o fewn ffin yr Ardal Gadwraeth. Mae hyn yn cynnwys y rhan fwyaf o'r coed. Mae gweddill y Parc wedi'i warchod oherwydd ei fod yn cael ei ystyried yn | Amherthnasol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | rhan o leoliad yr ardal gadwraeth ac felly'n cael ei warchod gan ddeddfwriaeth a pholisi cynllunio. Fodd bynnag, byddai unrhyw newidiadau i'r ffin yn gofyn am ymgynghoriad pellach a byddai'n rhaid cytuno ar hyn trwy weithdrefnau perthnasol y Cyngor. | |

| | **Aberystwyth** | | |
|---|---|---|---|
| **ID** | **Sylw** | **Ymateb** | **Newid a Argymhellir** |
| 9 | Dyw hyn ddim yn mynd i wneud gwahaniaeth. Dyw tipwyr anghyfreithlon ddim yn poeni am hyn. | Nodwyd y sylwadau. | Amherthnasol. |
| 10 | Rwy'n meddwl y byddai canolbwyntio ar strydoedd neu adeiladau penodol, gan ei wneud yn llai felly, yn fwy priodol ar gyfer cydbwyso anghenion cynnal a chadw modern a chymeriad. | Nodwyd y sylwadau. | Amherthnasol. |
| 11 | Nid y ffin, dim ond penodi swyddog cadwraeth cymwys. | Mae Swyddog Cynllunio Arbenigol ar gyfer Treftadaeth wedi'i benodi'n ddiweddar, a gofynnwyd am adnoddau ychwanegol ar gyfer y gwasanaeth gorfodi yng nghyllideb 2025/2026 a | Amherthnasol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | fydd yn cynnwys Swyddog Gorfodi sy'n arbenigo mewn treftadaeth adeiledig. | |
| 24 | Na. | Nodwyd y sylwadau. | Amherthnasol. |
| 28 | Ie, dylid ei leihau a pheidio â chynnwys anheddau a chael gwared ar hawliau datblygu a ganiateir heblaw yn y strydoedd Fictoraidd. Hyd yn oed wedyn ni ddylai pren fod yr unig ddeunydd derbyniol. | Mae gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol ddyletswydd statudol i nodi ardaloedd yn y sir sydd o ddiddordeb pensaernïol a hanesyddol arbennig a'u dynodi'n ardaloedd cadwraeth. Mae gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol ddyletswydd hefyd i lunio cynigion ar gyfer yr ardaloedd hyn er mwyn eu cadw a'u gwella ac, wrth arfer swyddogaethau cynllunio mewn perthynas ag adeilad neu dir arall mewn ardal gadwraeth, rhaid iddo roi sylw arbennig i ba mor ddymunol yw hi i gadw neu wella cymeriad a golwg yr ardal. Fodd bynnag, byddai unrhyw newidiadau i'r ffin yn gofyn am ymgynghoriad pellach a byddai'n rhaid cytuno ar hyn trwy weithdrefnau perthnasol y Cyngor. | Amherthnasol. |
| 32 | Dylai'r gost ariannol a'r effaith amgylcheddol gynyddol fod yn fwy arwyddocaol yn y Cynllun Rheoli Ardal Gadwraeth. Os yw'r Cyngor Sir am i bethau aros yr un fath mae angen iddynt gefnogi | Wrth arfer swyddogaethau cynllunio mewn perthynas ag adeilad neu dir arall mewn ardal gadwraeth, mae gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol ddyletswydd statudol i roi sylw arbennig i ba mor | Amherthnasol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | perchnogion eiddo gyda'r gost ychwanegol er mwyn cadw'r estheteg. Does dim pwynt gorfodi perchnogion tai i gadw adeileddau nad oes eu hangen mwyach (fel simneiau a ffenestri heb fod yn ffenestri dwbl) ac sy'n effeithio'n negyddol ar gyllid y perchennog a'r effaith amgylcheddol ar y blaned. Rhaid cael consesiwn naill ai trwy gymorth ariannol neu drwy feini prawf cynllunio diwygiedig. | ddymunol yw hi i gadw neu wella cymeriad a golwg yr ardal. Bydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol hefyd yn archwilio'r holl gyfleoedd ariannu pan fyddant yn codi er mwyn penderfynu a ellir eu defnyddio er budd yr Ardaloedd Cadwraeth. | |

| | **Aberteifi** | | |
|---|---|---|---|
| **ID** | **Sylw** | **Ymateb** | **Newid a Argymhellir** |
| 7 | Dylai'r Ardal Gadwraeth gynnwys yr hen Ganolfan Iechyd ar Feidrfair a holl ardal glan yr afon hyd at Bont y Priordy. Rwy'n gwybod bod yr hen Ganolfan Iechyd a'r hen Ysbyty yn cael eu hadnewyddu, ond mae'r safleoedd yn bwysig i'r dref felly dylid eu cynnwys yn yr Ardal Gadwraeth. | Mae'r ffin bresennol wedi'i hadolygu, ac ystyrir ei bod wedi'i diffinio'n dda a, gyda'r ychwanegiadau a nodir, y byddai'n cynnwys yr ardaloedd perthnasol o ddiddordeb pensaernïol a hanesyddol. Mae Ysbyty Coffa Aberteifi y tu allan i ffin yr Ardal Gadwraeth bresennol a cheir manylion am yr adeilad ar Coflein. Mae'r adeilad wedi bod yn destun cais cynllunio cymharol | Amherthnasol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | ddiweddar, ac mae'r caniatâd yn ceisio cadw nodweddion presennol. Fodd bynnag, byddai angen ymgynghori pellach ar gyfer unrhyw newidiadau i'r ffin a byddai'n rhaid cytuno arnynt trwy weithdrefnau perthnasol y Cyngor. | |
| 27 | Ydw, rwy'n teimlo y dylid ychwanegu gwybodaeth ychwanegol i gynnwys yr ardaloedd rwyf wedi rynnu sylw atynt: Netpool, Mwldan Isaf a Mwldan Canol. | Mae'r ffin bresennol wedi cael ei hadolygu, ac ystyrir ei bod wedi'i diffinio'n dda a, gyda'r ychwanegiadau a nodir, y byddai'n cynnwys yr ardaloedd perthnasol o ddiddordeb pensaernïol a hanesyddol.<br><br>Ystyrir bod ardal Netpool rhwng Bythynnod Netpool a ffin orllewinol bresennol yr Ardal Gadwraeth wedi'i gwahanu oddi wrth graidd hanesyddol y dref gan ardaloedd a fyddai'n gwanhau ac yn tynnu oddi wrth gydlyniad cymeriad a golwg yr Ardal Gadwraeth gyffredinol. Mae'r rhain yn cynnwys meysydd parcio (hen safle gwaith nwy), caeau chwarae modern a gwaith carthffosiaeth ymhellach i'r gorllewin, tra bod yr Ardal Gadwraeth bresennol yn cynnwys y dref ganoloesol a datblygiad ôl-ganoloesol | Amherthnasol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | mewn lleoliad trefol. Nid oes unrhyw adeiladau rhestredig neu henebion cofrestredig o fewn yr ardal hon ac mae asesiad archeolegol gan y Cofnod Amgylchedd Hanesyddol yn crynhoi, *"Nid yw unrhyw dystiolaeth wedi goroesi ar gyfer y diwydiant adeiladu cychod. Cafodd yr ardal ei defnyddio ar gyfer dympio rwbel ar ddiwedd yr 20fed ganrif".*<br><br>Mae Mwldan Isaf a Mwldan Canol yn ffurfio ffin orllewinol yr Ardal Gadwraeth. Mae un Adeilad Rhestredig ar hyd y ffordd hon sydd wedi ei gynnwys o fewn ffin yr Ardal Gadwraeth ac a arolygwyd ynghyd â'r holl adeiladau eraill ar hyd y darn hwn. Tynnwyd lluniau o bob adeilad yn ystod yr arolwg ffotograffig. Nid oes unrhyw henebion cofrestredig neu adeiladau rhestredig eraill o fewn yr ardal arfaethedig. Mae cofnodion y Cofnod Amgylchedd Hanesyddol a Chofnod Henebion Cenedlaethol Cymru yn awgrymu mai prin iawn yw'r nodweddion hanesyddol sydd wedi goroesi yn yr ardal hon. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Fodd bynnag, byddai angen ymgynghori pellach ar gyfer unrhyw newidiadau i'r ffin a byddai'n rhaid cytuno arnynt trwy weithdrefnau perthnasol y Cyngor. | |
| 29 | Ystyried ymestyn y ffin i gynnwys Bythynnod Netpool. | Mae'r ffin bresennol wedi cael ei hadolygu, ac ystyrir ei bod wedi'i diffinio'n dda a, gyda'r ychwanegiadau a nodir, y byddai'n cynnwys yr ardaloedd perthnasol o ddiddordeb pensaernïol a hanesyddol.<br><br>Ystyrir bod ardal Netpool rhwng Bythynnod Netpool a ffin orllewinol bresennol yr Ardal Gadwraeth wedi'i gwahanu oddi wrth graidd hanesyddol y dref gan ardaloedd a fyddai'n gwanhau ac yn tynnu oddi wrth gydlyniad cymeriad a golwg yr Ardal Gadwraeth gyffredinol. Mae'r rhain yn cynnwys meysydd parcio (hen safle gwaith nwy), caeau chwarae modern a gwaith carthffosiaeth ymhellach i'r gorllewin, tra bod yr Ardal Gadwraeth bresennol yn cynnwys y dref ganoloesol a datblygiad ôl-ganoloesol | Amherthnasol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | mewn lleoliad trefol. Nid oes unrhyw adeiladau rhestredig neu henebion cofrestredig o fewn yr ardal hon ac mae asesiad archeolegol gan y Cofnod Amgylchedd Hanesyddol yn crynhoi, *"Nid yw unrhyw dystiolaeth wedi goroesi ar gyfer y diwydiant adeiladu cychod. Cafodd yr ardal ei defnyddio ar gyfer dympio rwbel ar ddiwedd yr 20fed ganrif".*<br><br>Fodd bynnag, byddai angen ymgynghori pellach ar gyfer unrhyw newidiadau i'r ffin a byddai'n rhaid cytuno arnynt trwy weithdrefnau perthnasol y Cyngor. | |
| 30 | Rwy'n cytuno â'r estyniad arfaethedig a fydd yn cynnwys Gerddi Fictoria ond o bosibl ei ymestyn ymhellach ar hyd Ffordd Gwbert a chynnwys Caeau Chwarae Brenin Siôr V. | Mae'r estyniad arfaethedig yn cynnwys Gerddi Fictoria a'r filas ar ochr ogleddol y ffordd gan fod y rhain yn ardaloedd datblygu diwedd Oes Fictoria sy'n union gyfagos i'r Ardal Gadwraeth bresennol. Fodd bynnag, byddai unrhyw newidiadau i'r ffin yn gofyn am ymgynghori pellach a byddai'n rhaid cytuno arnynt trwy weithdrefnau perthnasol y Cyngor. | Amherthnasol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 31 | Ie, mae angen ychwanegu'r hen ysbyty. | Mae'r ffin bresennol wedi'i hadolygu, ac ystyrir ei bod wedi'i diffinio'n dda a, gyda'r ychwanegiadau a nodir, y byddai'n cynnwys yr ardaloedd perthnasol o ddiddordeb pensaernïol a hanesyddol. Mae Ysbyty Coffa Aberteifi y tu allan i ffin yr Ardal Gadwraeth bresennol a cheir manylion am yr adeilad ar Coflein. Mae'r adeilad wedi bod yn destun cais cynllunio yn gymharol ddiweddar, ac mae'r caniatâd yn ceisio cadw nodweddion presennol. Fodd bynnag, byddai angen ymgynghori pellach ar gyfer unrhyw newidiadau i'r ffin a byddai'n rhaid cytuno arnynt trwy weithdrefnau perthnasol y Cyngor. | Amherthnasol. |
| 33 | O bosib. Rwy'n cytuno gydag ymestyn y ffin ar hyd Ffordd y Gogledd. | Nodwyd y sylwadau. Byddai angen ymgynghori pellach ar gyfer unrhyw newidiadau i'r ffin a byddai'n rhaid cytuno arnynt trwy weithdrefnau perthnasol y Cyngor. | Amherthnasol. |
| 34 | Na, ddim yn arbennig. | Nodwyd y sylwadau. Byddai angen ymgynghori pellach ar gyfer unrhyw newidiadau i'r ffin a byddai'n rhaid cytuno arnynt trwy weithdrefnau perthnasol y Cyngor. | Amherthnasol. |

| | Ceinewydd | | |
|---|---|---|---|
| **ID** | **Sylw** | **Ymateb** | **Newid a Argymhellir** |
| 12 | Na. | Nodwyd y sylwadau. Byddai angen ymgynghori pellach ar gyfer unrhyw newidiadau i'r ffin a byddai'n rhaid cytuno arnynt trwy weithdrefnau perthnasol y Cyngor. | Amherthnasol. |
| 20 | Yn bendant – dylai Ceinewydd gyfan fod o fewn y ffin er mwyn gallu atal datblygiadau anaddas ar raddfa fawr a fydd yn effeithio'n andwyol ar drigolion presennol, busnesau a thwristiaid. | Mae'r ffin bresennol wedi'i hadolygu, ac ystyrir ei bod wedi'i diffinio'n dda a, thrwy ddileu'r ardaloedd a nodir, byddai'n cynnwys yr ardaloedd perthnasol o ddiddordeb pensaernïol a hanesyddol. Fodd bynnag, byddai angen ymgynghori pellach ar unrhyw newidiadau i'r ffin a byddai'n rhaid cytuno arnynt trwy weithdrefnau perthnasol y Cyngor. | Amherthnasol. |
| 21 | Na. | Nodwyd y sylwadau. Byddai angen ymgynghori pellach ar gyfer unrhyw newidiadau i'r ffin a byddai'n rhaid cytuno arnynt trwy weithdrefnau perthnasol y Cyngor. | Amherthnasol. |
| 26 | Nid os yw'r dref am dyfu. | Nodwyd y sylwadau. Byddai angen ymgynghori pellach ar gyfer unrhyw newidiadau i'r ffin a byddai'n rhaid cytuno arnynt trwy weithdrefnau perthnasol y Cyngor. | Amherthnasol. |

| | Llanbedr Pont Steffan | | |
|---|---|---|---|
| **ID** | **Sylw** | **Ymateb** | **Newid a Argymhellir** |

| | Llanbadarn Fawr | | |
|---|---|---|---|
| **ID** | **Sylw** | **Ymateb** | **Newid a Argymhellir** |
| 8 | Wedi'i ymestyn i'r de i gynnwys y croesfannau rheilffordd a'r hen Gae Rover's, sef y cae chwarae cymunedol bellach. | Ystyriwyd bod y ffin wedi'i diffinio'n dda ac yn cynnwys yr ardaloedd perthnasol o ddiddordeb pensaernïol a hanesyddol arbennig, felly ni chynigiwyd gwneud unrhyw newidiadau i ffin Ardal Gadwraeth Llanbadarn Fawr. Byddai'r ardal i'r de yn cael ei hystyried yn rhan o leoliad yr ardal gadwraeth ac felly'n cael ei gwarchod trwy'r system gynllunio, polisi cynllunio a deddfwriaeth. Ni ystyrir fod gan yr ardal hon ddigon o gydlyniad a gwerth hanesyddol i ystyried ymestyn y ffin i'w chynnwys. Mae gan y rheilffordd ei diddordeb hanesyddol ei hun, ond byddai hyn yn cynnwys y lein gyfan ac nid yn unig yr ardal yn union gerllaw'r croesfannau rheilffordd a'r Ardal Gadwraeth. | Amherthnasol. |

| | Llandysul | | |
|---|---|---|---|
| ID | Sylw | Ymateb | Newid a Argymhellir |

| | Tregaron | | |
|---|---|---|---|
| ID | Sylw | Ymateb | Newid a Argymhellir |
| 16 | Ei adael fel y mae. | Nodwyd y sylwadau. Byddai angen ymgynghori pellach ar gyfer unrhyw newidiadau i'r ffin a byddai'n rhaid cytuno arnynt trwy weithdrefnau perthnasol y Cyngor. | Amherthnasol. |
| 35 | Na, nid yw'n meddwl bod angen ymestyn ffin yr Ardal Gadwraeth fel y dangosir yn y cynllun – rwy'n cytuno y dylid cynnwys yr ysbyty ond dwi ddim yn gweld yr angen i gynnwys yr holl dai sy'n arwain at yr ysbyty. | Mae ardaloedd cadwraeth wedi'u dynodi ar sail eu gwerth grŵp sy'n golygu eu bod yn cael eu cydnabod nid yn unig am eu nodweddion unigol ond am eu harwyddocâd ar y cyd. Byddai unrhyw newidiadau i'r ffin yn gofyn am ymgynghoriad pellach a byddai'n rhaid cytuno arnynt trwy weithdrefnau perthnasol y Cyngor fodd bynnag. | Amherthnasol. |
| 36 | Mae Cynghorwyr wedi codi pryderon ynglŷn â'r broses y bydd angen i drigolion fynd drwyddi i gael caniatâd os oes angen gwneud gwaith ar eu heiddo, megis costau ychwanegol, achosi oedi i | Nodwyd y sylwadau. Mae gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol ddyletswydd statudol i gadw a gwella'r Ardal Gadwraeth wrth arfer swyddogaethau cynllunio. | Amherthnasol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | wneud gwaith cynnal a chadw heb fod o fudd i neb.<br><br>Rydym newydd gael gwybod am grŵp cymunedol oedd wedi gorfod talu swm mawr o arian am gynlluniau a mynd trwy'r broses gynllunio i newid ffenestri tebyg at ei debyg yn eu hadeilad – roedd hyn wedi creu llawer o broblemau fel oedi cyn gallu gwneud y gwaith hanfodol hwn, ac mae'n faich ariannol ychwanegol i'r pwyllgor rheoli.<br><br>Mae sawl gwall yn yr adroddiad y mae angen rhoi sylw iddynt cyn cyhoeddi'r fersiwn derfynol. Allwch chi plîs sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen yn gywir. | | |